



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2008
Tuesday, 15 July 2008**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
28	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
36	Datganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008-09 Statement on the Welsh Assembly Government's Legislative Programme 2008-09
72	Dadl o dan Reol Sefydlog Rhif 22.34 ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 Standing Order No. 22.34 Debate on the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare and Other Fields) Order 2008
92	Cymeradwyo Cyllideb Atodol Approval of a Supplementary Budget

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Deputy Presiding Officer: I call the Assembly to order. **Y Dirprwy Lywydd:**Galwaf y Cynulliad i drefn.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Patient Services

Q1 William Graham: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's commitment to improving patient services in South Wales East? OAQ(3)1228(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Work has now started on the new £54 million Ysbyty Aneurin Bevan to serve the people of Blaenau Gwent. It is part of the Gwent health community's Clinical Futures programme, which is the vehicle for improving patient services across South Wales East.

William Graham: We welcome the fact that there will be a new hospital in Ebbw Vale. That is excellent, and we concur with you on its name in particular. I am glad that wiser counsel has prevailed and that the name has not been extended to the Gwent Healthcare NHS Trust.

Some six weeks ago, attention was drawn in the Royal Gwent Hospital to high risk pregnancies and the fact that mothers are being sent to hospitals in Bridgend and Bristol to give birth. I know that the Minister is aware of the situation and is taking steps, but this is an urgent matter that occurs almost hourly. What steps will you take to alleviate the situation?

The First Minister: I believe that Edwina Hart, the Minister for Health and Social Services, issued a written statement saying that there was an unacceptably low level of staffing among midwives and indicating to Gwent Healthcare NHS Trust that it should up its game considerably in this area, mostly by way of recruiting additional midwives—I

Gwasanaethau i Gleifion

C1 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella gwasanaethau cleifion yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)1228(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae gwaith yn awr wedi cychwyn ar yr Ysbyty Aneurin Bevan newydd gwerth £54 miliwn i wasanaethu pobl Blaenau Gwent. Mae'n rhan o raglen Dyfodol Clinigol cymuned iechyd Gwent, sef y cyfrwng ar gyfer gwella gwasanaethau i gleifion ledled Dwyrain De Cymru.

William Graham: Yr ydym yn croesawu'r ffaith y bydd ysbyty newydd yng Nglynebwy. Mae hynny'n rhagorol, ac yr ydym yn cytuno â chi o ran ei enw'n arbennig. Yr wyf yn falch bod y penderfyniad doeth wedi'i wneud o beidio ag ymestyn yr enw i Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent.

Tua chwe wythnos yn ôl, tynnwyd sylw yn Ysbyty Brenhinol Gwent at feichiogrwydd risg uchel a'r ffaith bod mamau'n cael eu hanfon i ysbytai ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Bryste i roi genedigaeth. Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cymryd camau, ond mae hwn yn fater brys sy'n digwydd bron bob awr. Pa gamau a gymerwch i liniaru'r sefyllfa?

Y Prif Weinidog: Credaf fod Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn dweud bod nifer annerbyniol o isel o staff ymysg bydwagedd ac yn dweud wrth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent y dylai wella ei pherfformiad yn sylweddol yn y maes hwn, drwy recriwtio

think that the figure of 15 was suggested to it. I do not know what the follow-up to that is, but I will ensure that Edwina Hart writes to you to give you the absolutely latest sitrep on it.

Mohammad Asghar: I am concerned to read that people in Monmouthshire and Brecon cannot get medicine on bank holidays and Sundays, as, for a trial period, the rota system has been dropped. That could cause particular difficulties for the elderly and for children. There has been a strong reaction from the public and from Monmouth Town Council. Could you use your good offices to do something about this, so that this withdrawal of services can be reversed?

The First Minister: I have noted with great interest the supportive comments of the British Medical Association, which has said that GP practices that do not have sufficiently lengthy and convenient opening hours should quickly catch up with best practice in this area. Too many GP practices are having too many half days, and members of the BMA made some strong comments about this at the BMA's annual general meeting in Edinburgh last week. We support the BMA's line on this in terms of the colleagues who are letting the side down, which is how the BMA described it. We are supportive of the actions that the BMA is proposing to take to ensure that those with lagging practices catch up quickly to address the need for more convenient opening hours.

The Private Sector

Q2 David Melding: What measures are in place to encourage the development of the private sector within the Welsh economy? OAQ(3)1230(FM)

The First Minister: I think that you and I would agree that the private sector in Wales is not big enough; we need a bigger private sector. It has grown remarkably since 1999. It is 12 per cent up, compared with public sector growth of 8 per cent, but it is growing

mwy o fydwragedd yn bennaf—credaf fod y ffigur 15 wedi'i awgrymu iddi. Nid wyf yn gwybod beth ddigwyddodd wedi hynny, ond byddaf yn sicrhau y bydd Edwina Hart yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf bosibl ichi am y sefyllfa.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn pryderu wrth ddarllen na all pobl yn sir Fynwy ac Aberhonddu gael meddyginiaeth ar wyliau banc nac ar ddydd Sul, gan eu bod wedi rhoi'r gorau i'r system rota am gyfnod prawf. Gallai hynny beri anawsterau penodol i'r henoed ac i blant. Bu ymateb cryf gan y cyhoedd a chan Gyngor Tref Trefynwy. A fyddech cystal â gwneud rhywbeth am y peth, er mwyn gwrthdroi'r weithred o dynnu'r gwasanaethau hyn yn ôl?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi nodi â chryn ddiddordeb sylwadau cefnogol Cymdeithas Feddygol Prydain, a ddywedodd y dylai practisau meddygon teulu nad ydynt yn agor am ddigon o oriau, neu am oriau digon cyfleus, wella'n gyflym nes eu bod cystal â'r arfer gorau yn y maes hwn. Mae gormod o bractisau meddygon teulu'n cael gormod o hanner diwrnodau, a gwnaeth aelodau Cymdeithas Feddygol Prydain rai sylwadau cryf am hyn yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghaeredin yr wythnos diwethaf. Yr ydym yn cefnogi safbwynt Cymdeithas Feddygol Prydain yn hyn o beth o ran y gweithwyr sy'n siomi eu tîm, fel y dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain. Yr ydym yn cefnogi'r camau y mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn cynnig eu cymryd er mwyn sicrhau bod y meddygfeydd hynny sydd ar ei hôl hi'n gwella'n gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r angen am oriau agor mwy cyfleus.

Y Sector Preifat

C2 David Melding: Pa fesurau sydd ar waith i annog datblygu'r sector preifat yn economi Cymru? OAQ(3)1230(FM)

Y Prif Weinidog: Credaf y byddech chi a mi'n cytuno nad yw'r sector preifat yng Nghymru'n ddigon mawr; mae angen sector preifat mwy arnom. Mae wedi tyfu'n aruthrol er 1999. Mae wedi tyfu 12 y cant, o'i gymharu â thwf y sector cyhoeddus, sef 8 y

at a rate that is 50 per cent faster than that of the public sector. However, it is simply not big enough, and we need to attend to that over the next few years.

David Melding: It is music to my ears that you have just made that simple statement, First Minister. I do not think that a member of your Government has yet said that he or she would like to see the size of the private sector in the Welsh economy, vis-à-vis the public, increase, and so it is appropriate that you have made that statement. Will you now revise the One Wales Government's terrible ideological commitment to exclude the possibility of the private sector helping us to deliver top-class NHS services? Do you not agree that that would send a positive signal to the sector that it can be a part of delivering excellent public services and a part of an expanding sector in our economy?

The First Minister: You are introducing an element of ideology, but I thought that we were both agreed on keeping that out. The private sector in Wales needs to be bigger, and we are agreed on that. That means that we need a bigger private sector in normal productive activity right across the economy. It is growing much faster than the public sector is, but it still needs to be bigger. Generally, the public sector in Wales, Scotland, Northern Ireland and England relates to the size of the population, because the number of schools, hospital, civil servants and local government offices relates to the number of people to serve. The big variable that causes differences in wealth is the size of the private sector. I thought that we were agreeing on that, but you are now bringing an ideological element into it, which I do not agree with.

Lesley Griffiths: Yesterday, JC Bamford Excavators Ltd announced the loss of 500 manufacturing jobs across the UK as a result of the global credit crisis and the rising cost of raw materials. As part of those losses, sadly, 50 jobs will be lost at JCB Transmissions in my constituency of Wrexham. That is a worrying development coming on the back of other recent job losses

cant, ond mae'n tyfu 50 y cant yn gyflymach na'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon mawr, ac mae angen inni roi sylw i hynny dros y blynyddoedd nesaf.

David Melding: Yr oeddwn wrth fy modd i glywed y datganiad syml hwnnw gennych, Brif Weinidog. Nid wyf yn credu bod aelod o'ch Llywodraeth wedi dweud o'r blaen y byddai'n hoff o weld maint y sector preifat yn economi Cymru, o ran y cyhoedd, yn cynyddu, ac felly mae'n briodol eich bod wedi gwneud y datganiad hwnnw. A wnewch yn awr ddiwygio ymrwymiad ideolegol ofnadwy Llywodraeth Cymru'n Un i hepgor y posibilrwydd i'r sector preifat ein helpu i gyflwyno gwasanaethau GIG o'r radd flaenaf? Onid ydych yn cytuno y byddai hynny'n anfon arwydd cadarnhaol i'r sector y gall fod yn rhan o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus rhagorol ac yn rhan o sector sy'n tyfu yn ein heconomi?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn cyflwyno elfen o ideoleg, ond yr oeddwn yn credu ein bod ill dau wedi cytuno i hepgor hynny. Mae angen i'r sector preifat yng Nghymru fod yn fwy, ac yr ydym yn cytuno ar hynny. Mae hynny'n golygu bod angen sector preifat mwy arnom mewn gweithgarwch cynhyrchiol normal ym mhob rhan o'r economi. Mae'n tyfu'n llawer cyflymach na'r sector cyhoeddus, ond mae angen iddo fod yn fwy o hyd. Yn gyffredinol, ceir perthynas rhwng maint sectorau cyhoeddus Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a maint y boblogaeth, oherwydd y berthynas rhwng nifer yr ysgolion, ysbytai, gweision sifil a swyddfeydd llywodraeth leol a nifer y bobl i'w gwasanaethu. Y newidyn mawr sy'n achosi gwahaniaethau mewn cyfoeth yw maint y sector preifat. Yr oeddwn yn credu ein bod yn cytuno ar hynny, ond yn awr yr ydych yn cyflwyno elfen ideolegol, ac nid wyf yn cytuno â honno.

Lesley Griffiths: Ddoe, cyhoeddodd JC Bamford Excavators Cyf golli 500 o swyddi gweithgynhyrchu ledled y DU o ganlyniad i'r argyfwng credyd byd-eang a'r ffaith bod cost deunydd crai'n codi. Fel rhan o'r colledion hynny, yn anffodus, collir 50 swydd yn JCB Transmissions yn fy etholaeth, sef Wrecsam. Mae hwnnw'n ddatblygiad sy'n peri pryder ac ystyried y swyddi eraill a gollwyd yn

at the plant. Will you assure me that the Welsh Assembly Government will continue to meet representatives of JCB and trade unions to discuss what help it can offer the company to assist it through this difficult phase, and to ensure that it maintains its operations in Wrexham in future?

The First Minister: JCB is one of the world's great names in manufacturing that happens to be British. Rolls-Royce plc aero engines and JCB are probably the only two great world names in manufacturing, and have been merged over the past 20 years or so, so it is important that JCB remains strong and well represented in Wales by its Wrexham gearbox factory. We understand the reasons for that announcement, as it is difficult to sell bulldozers in the current construction market, but it is sad. We want to see JCB healthy, and I agree about making sure that we liaise strongly with that company, because it is a pillar of the economy in Wrexham, Wales and the UK.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Along with David Melding, I also welcome what you say, First Minister, about the need to grow the private sector, particularly in light of Peter Hain's recent comments in his pamphlet, 'Re-balancing the Welsh Economy'. In fairness, he said something similar to you, namely that the private sector is too small, and needs to grow significantly and at a much faster rate. I do not know whether you have seen the recent report by the Royal Bank of Scotland, but it states that, over the past three months, we have been losing more private sector jobs than we are creating, and the rate of private sector job losses has been accelerating. Lesley Griffiths just referred to some job losses in Wrexham, and she is absolutely right: 190 jobs were lost at Fenmarc Prepared Foods Ltd in April, 163 jobs were lost at Flexsys in May, and the JCB jobs that she has just referred to now come on top of that. That is in just one constituency. What are you doing about that haemorrhaging of private sector jobs, which appears to be accelerating?

The First Minister: I deprecate your use of the word 'haemorrhaging' when we know

ddiweddar yn y safle. A wnewch fy sicrhau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i gyfarfod â chynrychiolwyr JCB ac undebau llafur i drafod pa gymorth y gall ei gynnig i'r cwmni i'w gynorthwyo drwy'r cyfnod anodd hwn, ac i sicrhau y bydd yn dal i weithredu yn Wrecsam yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Mae JCB yn un o enwau mawr y byd gweithgynhyrchu sy'n digwydd bod yn Brydeinig. Mae'n debyg mai cwmni injans awyrennau Rolls-Royce ccc a JCB yw'r unig ddau enw mawr yn y byd gweithgynhyrchu, a chawsant eu huno dros yr 20 mlynedd diwethaf, felly mae'n bwysig bod JCB yn aros yn gryf, gyda chynrychiolaeth dda, yng Nghymru, drwy'r ffatri blychau gêr yn Wrecsam. Yr ydym yn deall y rhesymau am y cyhoeddiad hwnnw, gan ei bod yn anodd gwerthu teirw dur yn y farchnad adeiladu bresennol, ond mae'n drist. Yr ydym yn dymuno gweld JCB yn iach, a chytunaf am sicrhau ein bod yn cysylltu'n gryf â'r cwmni hwnnw, gan ei fod yn un o bileri economi Wrecsam, Cymru a'r DU.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Ynghyd â David Melding, yr wyf finnau'n croesawu'r hyn a ddywedwch, Brif Weinidog, am fod angen tyfu'r sector preifat, yn enwedig ac ystyried sylwadau diweddar Peter Hain yn ei bamffled, 'Ailgydbwyso Economi Cymru'. A bod yn deg, dywedodd rywbeth tebyg i chi, sef bod y sector preifat yn rhy fach, a bod angen iddo dyfu'n sylweddol ac yn llawer cyflymach. Ni wn a ydych wedi gweld yr adroddiad diweddar gan Fanc Brenhinol yr Alban, ond mae'n datgan ein bod, dros y tri mis diwethaf, wedi bod yn colli mwy o swyddi yn y sector preifat nag yr ydym yn eu creu, a bod cyfradd colli swyddi sector preifat wedi bod yn cyflymu. Mae Lesley Griffiths newydd gyfeirio at rai colledion swyddi yn Wrecsam, ac mae hi yn llygad ei lle: collwyd 190 o swyddi yn Fenmarc Prepared Foods Cyf ym mis Ebrill; collwyd 163 o swyddi yn Flexsys ym mis Mai, ac mae'r swyddi JCB y cyfeiriodd atynt yn awr yn ychwanegol i hynny. Mae hynny mewn un etholaeth yn unig. Beth yr ydych yn ei wneud am y gwaedlif hwnnw o swyddi sector preifat, sy'n gwaethygu i bob golwg?

Y Prif Weinidog: Anghymeradwyaf eich defnydd o'r gair 'gwaedlif' a ninnau'n

that a painful transition is under way and that certain parts of the economy, such as the construction industry, are having a severe downturn. That has affected JCB in particular. The Confederation of British Industry Wales tells me that it does not want any reference to the Welsh private sector that implies a juddering to a halt or a haemorrhaging of jobs. It says that, broadly speaking, despite the announcements that are made from time to time by firms—including, regrettably, AB Automotive, Flexsys, and Calco in Llanelli—job losses are going on at the same time as job creation, and the broad industrial scene in Wales remains remarkably resilient. That is the view of the CBI. Perhaps you should talk to it, Nick, as I presume that it would tell you exactly the same as it told me.

gwybod bod trawsnewidiad poenus yn digwydd a bod rhai rhannau penodol o'r economi, megis y diwydiant adeiladu, yn dioddef dirywiad difrifol. Mae hynny wedi effeithio ar JCB yn benodol. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru'n dweud wrthyf nad yw am weld unrhyw gyfeiriad at sector preifat Cymru sy'n awgrymu ei fod yn stopio'n stond na bod gwaedlif o swyddi. Mae'n dweud, a siarad yn fras, er gwaethaf y cyhoeddiadau a wneir gan gwmnïau o bryd i'w gilydd—gan gynnwys, yn anffodus, AB Automotive, Flexsys, a Calco yn Llanelli—bod swyddi'n cael eu creu yn ogystal â'u colli, a bod yr olygfa ddiwydiannol gyffredinol yng Nghymru'n dal yn hynod o wydn. Dyna farn Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Efallai y dylech siarad ag ef, Nick, oherwydd yr wyf yn cymryd y byddai'n dweud yn union yr un peth wrthyf chi ag a ddywedodd wrthyf fi.

2.10 p.m.

Nick Bourne: The First Minister may not agree with them, but these are the facts: 17,000 jobs in the private sector in Wales have been lost in just over three months. That is serious, and that is just with large employers. He may not like the word 'haemorrhaging', but that is what the interpretation of the Royal Bank of Scotland's figures shows. We are losing jobs at a higher rate than any other region of the country. He must take this seriously. What discussions has he had with Westminster colleagues about the parlous economic situation in Wales? The situation is serious throughout the United Kingdom; the inflation figures published today are double what the Labour Party inherited when it came to power. What is he doing about the serious position with regard to private sector job losses? If he does not like the word 'haemorrhaging', let us say 'seriously losing jobs'; but haemorrhaging is what is happening.

Nick Bourne: Efallai nad yw'r Prif Weinidog yn cytuno â hwy, ond dyma'r ffeithiau: collwyd 17,000 o swyddi yn y sector preifat yng Nghymru mewn ychydig dros dri mis. Mae hynny'n ddifrifol, a'r cyflogwyr mawr yn unig yw hynny. Efallai nad yw'n hoff o'r gair 'gwaedlif', ond dyna beth y mae ffigurau Banc Brenhinol yr Alban yn ei ddangos. Yr ydym yn colli swyddi ar gyfradd uwch nag unrhyw ranbarth arall yn y wlad. Rhaid iddo gymryd hyn o ddifrif. Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i gyd-Weinidogion yn San Steffan am sefyllfa economaidd enbyd Cymru? Mae'r sefyllfa'n ddifrifol ledled y Deyrnas Unedig; mae'r ffigurau chwyddiant a gyhoeddwyd heddiw'n ddwbl y rhai a etifeddodd y Blaid Lafur pan ddaeth i rym. Beth y mae'n ei wneud am y sefyllfa ddifrifol o ran colledion swyddi sector preifat? Os nad yw'n hoff o'r gair 'gwaedlif', gadewch inni ddweud 'colledion swyddi difrifol'; ond mae'r hyn sy'n digwydd yn waedlif.

The First Minister: In my earlier answer I mentioned that the figures published today—they are not our figures; they are Office for National Statistics figures—indicate that, between 1999 and 2007, there was a rise in private sector employment of 12 per cent, compared with a rise in public sector

Y Prif Weinidog: Yn fy ateb cynharach, nodais fod y ffigurau a gyhoeddwyd heddiw—nid ein ffigurau ni ydynt, ond ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol—yn nodi, rhwng 1999 a 2007, y bu cynnydd o 12 y cant mewn cyflogaeth sector preifat, o'i gymharu â chynnydd 8 y cant mewn

employment of 8 per cent. So, public sector employment has gone up, but the rate of growth of private sector employment is 50 per cent higher. A rate of 12 per cent over eight years to 2007—we obviously do not have figures for 2008, as we are only halfway through the year—indicate a picture that is very different to the one that you are painting. Yes, there is a painful restructuring going on at the moment, but the overall figure for private sector employment came out this morning, and it shows an increase of 12 per cent since 1999.

Nick Bourne: What he does not go on to say is that the relative position is much weaker in Wales than in the rest of the United Kingdom on private sector jobs. He does not like to stare reality in the face, but the reality is that the private sector position in Wales is much weaker than in any other region or nation of the United Kingdom over the last 10 years. What is he doing on this, and what is he doing on representing the dangers facing the Welsh economy to the Prime Minister and Chancellor, under whose stewardship things have gone so badly wrong?

The First Minister: Again, that would contradict what the Confederation of British Industry told us at our meeting a fortnight ago, when it deprecated using words such as ‘parlous’ or ‘haemorrhaging’, which you have used. I understand that it is part of politics to trade such adjectives across the Chamber, but the CBI does not agree that that is an accurate, objective picture of what is happening in industry. That is not to say that there are no job loss announcements—yes, there are, yes, they are regrettable and yes, they are happening, because of the nature of the economy at the moment, more frequently than used to be the case. However, there are also job creation announcements; Admiral said recently that it would be happy to talk to staff losing their jobs at Firstplus in order to fill some of its vacancies.

cyflogaeth sector cyhoeddus. Felly, mae cyflogaeth sector cyhoeddus wedi cynyddu, ond mae cyfradd twf cyflogaeth sector preifat 50 y cant yn uwch. Mae cyfradd o 12 y cant dros wyth mlynedd hyd at 2007—yn amlwg, nid oes gennym ffigurau ar gyfer 2008, gan mai dim ond hanner ffordd drwy’r flwyddyn yr ydym—yn awgrymu darlun gwahanol iawn i’r un yr ydych chi’n ei beintio. Oes, mae proses ailstrwythuro boenus yn digwydd ar hyn o bryd, ond cyhoeddwyd ffigur cyffredinol cyflogaeth sector preifat y bore yma, ac mae’n dangos cynnydd o 12 y cant er 1999.

Nick Bourne: Ond nid yw’n mynd ymlaen i ddweud bod y sefyllfa gymharol yn llawer gwannach yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig o ran swyddi’r sector preifat. Nid yw’n hoff o wynebu realiti, ond y realiti yw bod sefyllfa’r sector preifat yng Nghymru lawer gwannach nag mewn unrhyw ranbarth neu wlad arall yn y Deyrnas Unedig dros y 10 mlynedd diwethaf. Beth y mae’n ei wneud am hyn, a beth y mae’n ei wneud o ran cyflwyno sylwadau am y peryglon sy’n wynebu economi Cymru gerbron Prif Weinidog y DU a’r Canghellor, gan fod pethau wedi mynd o’u lle cynddrwg dan eu stiwardiaeth?

Y Prif Weinidog: Eto, byddai hynny’n gwrthdweud yr hyn a ddywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wrthym yn ein cyfarfod bythefnos yn ôl, pan anghymeradwyodd ddefnyddio geiriau megis ‘enbyd’ neu ‘gwaedlif’, fel a ddefnyddiwyd gennych. Yr wyf yn deall ei bod yn rhan o wleidyddiaeth i gyfnewid ansoddeiriau o’r fath ar draws y Siambr, ond nid yw Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn cytuno bod hwnnw’n ddarlun cywir, gwrthrychol o’r hyn sy’n digwydd mewn diwydiant. Nid yw hynny’n golygu nad oes dim cyhoeddiadau am golledion swyddi—oes, mae rhai, ydynt, maent yn anffodus ac ydynt, maent yn digwydd, oherwydd natur yr economi ar hyn o bryd, yn amlach nag y byddent yn arfer digwydd. Fodd bynnag, ceir cyhoeddiadau am greu swyddi hefyd; yn ddiweddar, dywedodd Admiral y byddai’n fodlon siarad â’r staff sy’n colli eu swyddi yn Firstplus er mwyn llenwi rhai o’i swyddi gwag.

You talk about the relative position, but, actually, you are quite wrong. There has been a 7 per cent increase in private sector employment in the UK as a whole since 1999, and there has been a 12 per cent increase in Wales. That is the picture shown in the figures published this morning.

Bethan Jenkins: A few months ago I had a meeting with the TISME group in south-west Wales—a group of businesspeople seeking to encourage links between universities on the patenting of new ideas from research in Swansea University, in particular, to help the academics sell their ideas. I have written to Ieuan Wyn Jones on this issue, but would you be interested in meeting those people to see what they have to offer and to see whether it would be viable for the future of higher education?

The First Minister: I think that we all agree that the higher education sector, containing such a substantial chunk of the kind of brain-power retained in Wales, has a great deal of potential for spinning-out companies at the cutting edge of technology. University-type institutions in west Wales, such as Swansea University, Swansea Metropolitan University, and Trinity College, Carmarthen, especially now that they have an arrangement for working together on commercialisation and as we now have the technium network, should be ideally placed to try to spin out more companies to create more jobs at the cutting edge.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): One way in which you could help the private sector would be to bring forward your green jobs strategy—this is a dance that we have danced before. I asked you on 24 June whether the absence of robust statistics was getting in the way of publishing the strategy, and you said that:

‘you do not have to wait for that statistical work to be done before you can engage in a strategy for expanding the number of green jobs’.

Can you tell me when you will launch your green jobs strategy?

Yr ydych yn sôn am y sefyllfa gymharol, ond mewn gwirionedd, yr ydych yn anghywir. Bu cynnydd o 7 y cant mewn cyflogaeth sector preifat yn y DU gyfan er 1999, a bu cynnydd o 12 y cant yng Nghymru. Dyna'r darlun a ddangosir yn y ffigurau a gyhoeddwyd y bore yma.

Bethan Jenkins: Rai misoedd yn ôl, cefais gyfarfod â'r grŵp TISME yn y de-orllewin—grŵp o bobl fusnes yn ceisio annog cysylltiadau rhwng prifysgolion i godi patentau ar syniadau ymchwil newydd ym Mhrifysgol Abertawe, yn benodol, er mwyn helpu'r academyddion i werthu eu syniadau. Yr wyf wedi ysgrifennu at Ieuan Wyn Jones am y mater hwn, ond a fyddai gennych ddi-ddordeb mewn cyfarfod â'r bobl hynny i weld beth sydd ganddynt i'w gynnig ac i weld a fyddai'n ddichonadwy i ddyfodol addysg uwch?

Y Prif Weinidog: Credaf ein bod i gyd yn cytuno bod gan y sector addysg uwch, sy'n cynnwys cyfran mor sylweddol o'r math o bŵer ymennydd sydd wedi'i gadw yng Nghymru, lawer iawn o botensial o ran cynhyrchu cwmnïau technoleg arloesol. Dylai fod sefydliadau o fath prifysgol yn y gorllewin, megis Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, yn enwedig gan eu bod yn awr wedi trefnu gweithio gyda'i gilydd ar fasnacheiddio, a gan bod y rhwydwaith technium gennym, mewn sefyllfa ddelfrydol i geisio cynhyrchu mwy o gwmnïau i greu mwy o swyddi arloesol.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Un ffordd y gallech helpu'r sector preifat fyddai cyflwyno eich strategaeth swyddi gwyrdd yn gynharach—yr ydym wedi dawnsio'r ddawns hon o'r blaen. Gofynnais ichi ar 24 Mehefin a oedd absenoldeb ystadegau cadarn yn eich rhwystro rhag cyhoeddi'r strategaeth, a dywedasoeh:

‘nid oes yn rhaid ichi aros i'r gwaith ystadegol hwnnw gael ei gwblhau cyn ichi allu cael strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y swyddi gwyrdd’.

A allwch ddweud wrthyf pryd y byddwch yn lansio eich strategaeth swyddi gwyrdd?

The First Minister: What I was saying was that it does not have to be labelled a green jobs strategy to generate more green jobs. Many of the actions that we have undertaken have done that. For example, we authorised the Forestry Commission to get windfarms on Forestry Commission land, given that we own the Forestry Commission in Wales. That was an example of a green jobs strategy. Those jobs do not necessarily have to fall under the heading of a green jobs strategy, but they do so in all but name.

Michael German: I realise that this session is 'First Minister's Questions', and not 'First Minister's Answers', but could you tell me, given that it is your proposal to have a green jobs strategy, when you will publish it? When will the strategy be brought forward?

The First Minister: You must not get obsessed with the rubric. Something may not come under the heading of a green jobs strategy, but that does not mean that you cannot create green jobs. That is what I said to you when you raised this issue previously, Mike. You are becoming obsessed over whether there is a published document called a green jobs strategy as distinct from decisions. We have got on with the decisions in relation to the Forestry Commission, for example, because that comes under our control. I am not sure what is upsetting you about that.

Michael German: It is just that I am supposed to scrutinise, First Minister. I am trying to get an answer on your policy. It is your policy to have a green jobs strategy. You said that you wanted one and that it was important to have that strategy. You have listed it among your policies. So why can you not tell us when you will have this strategy written down? If you need a strategy to drive forward your ambitions, and that is why it is to be written down, we want to see it so that we can scrutinise it. There is nothing sinister in that; we just want an answer.

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn yn dweud nad oes yn rhaid iddi fod wedi'i labelu'n strategaeth swyddi gwyrdd i gynhyrchu mwy o swyddi gwyrdd. Mae llawer o'r camau yr ydym wedi'u cymryd wedi bod yn fodd i wneud hynny. Er enghraifft, rhoesom awdurdod i'r Comisiwn Coedwigaeth gael ffermydd gwynt ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, gan ein bod yn berchen ar y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Yr oedd honno'n enghraifft o strategaeth swyddi gwyrdd. Nid oes rhaid i'r swyddi hynny ddod dan bennawd strategaeth swyddi gwyrdd, ond maent i bob pwrpas.

Michael German: Sylweddolaf mai 'Cwestiynau i'r Prif Weinidog' yw'r sesiwn hon, ac nid 'Atebion y Prif Weinidog', ond a allech ddweud wrthyf, gan eich bod yn bwriadu cael strategaeth swyddi gwyrdd, pa bryd y cyhoeddwch hi? Pa bryd y rhoddir y strategaeth gerbron?

Y Prif Weinidog: Rhaid ichi beidio â phoeni gormod am y teitl. Efallai nad yw rhywbeth yn dod dan bennawd strategaeth swyddi gwyrdd, ond nid yw hynny'n golygu na allwch greu swyddi gwyrdd. Dyna a ddywedais wrthyf pan godasoch y mater hwn o'r blaen, Mike. Yr ydych yn dechrau poeni'n ormodol ynghylch a oes dogfen wedi'i chyhoeddi o'r enw strategaeth swyddi gwyrdd, yn hytrach nag am benderfyniadau. Yr ydym wedi mynd ymlaen â'r penderfyniadau mewn cysylltiad â'r Comisiwn Coedwigaeth, er enghraifft, am fod hynny dan ein rheolaeth. Nid wyf yn sicr beth sy'n eich digio ynghylch hynny.

Michael German: Yr wyf i fod i graffu, Brif Weinidog, dyna'r cwbl. Yr wyf yn ceisio cael ateb am eich polisi. Eich polisi chi yw cael strategaeth swyddi gwyrdd. Dywedasoch eich bod am gael un a'i bod yn bwysig cael strategaeth o'r fath. Yr ydych wedi'i rhestru ymhlith eich polisiau. Felly pam na allwch ddweud wrthym pa bryd y byddwch yn peri i'r strategaeth hon gael ei hysgrifennu? Os oes arnoch angen strategaeth i hyrwyddo'ch uchelgeisiau, ac os hynny yw'r rheswm dros ei hysgrifennu, yr ydym am ei gweld fel y gallwn graffu arni. Nid oes dim sy'n sinistr yn hynny; dim ond ateb y mae arnom ei eisiau.

The First Minister: What you seem to be criticising is that I am referring to decisions that we have taken in advance of the publication of something called ‘the green jobs strategy’. Why should we have to wait for that when we can get on with the decisions now?

Hospital Hygiene

Q3 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government priorities for improving hospital hygiene in north Wales? OAQ(3)1221(FM)

The First Minister: The recent report, ‘Free to Lead, Free to Care’, is about, in part, the empowerment of ward sisters throughout Wales to deal with this matter by enabling them to address improvements in hospital cleanliness, and then there is the ‘mystery shopper’, that is, unscheduled visits by Healthcare Inspectorate Wales or by community health councils, which will go in to spot problems.

Brynle Williams: From my own experience, and from correspondence from constituents, it seems to me that there is little joined-up thinking on hygiene in some Welsh hospitals. Recently, my mother was prevented from being discharged from hospital on three consecutive occasions because of infection on the ward. Worse than that—I have mentioned this in the Chamber several times—when I visited her, I saw patients outside in their dressing gowns, dragging blankets on the floor behind them. That is totally inexcusable. On the one hand, patients cannot be discharged, and on the other people are allowed to carry in infection. I hope that the Government will do something about this.

The First Minister: I am sorry to hear about the situation that you described in the ward area or floor on which your mother was being cared for, and the impact that that had on discharge at the clinically appropriate time. I am sure that you will want to communicate directly with the Minister for Health and Social Services on that matter.

Y Prif Weinidog: Mae’n ymddangos mai’r hyn yr ydych yn ei feirniadu yw fy mod yn cyfeirio at benderfyniadau yr ydym wedi’u gwneud cyn cyhoeddi rhywbeth o’r enw ‘y strategaeth swyddi gwyrdd’. Pam y dylem orfod aros am hynny a ninnau’n gallu bwrw ymlaen â’r penderfyniadau’n awr?

Hylendid Ysbytai

C3 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella hylendid ysbytai yn y gogledd? OAQ(3)1221(FM)

Y Prif Weinidog: Mae’r adroddiad diweddar, ‘Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu’, yn ymwneud yn rhannol â grymuso prif nyrsys ward ledled Cymru fel y gallant ddelio â’r mater hwn drwy eu galluogi i roi sylw i welliannau yn hylendid ysbytai, ac wedyn mae’r ‘cwsmer cudd’, sef ymweliadau heb eu trefnu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru neu gan gynghorau iechyd cymuned, a aiff i mewn i adnabod problemau.

Brynle Williams: O’m profiad i, ac ar sail gohebiaeth oddi wrth etholwyr, mae’n ymddangos i mi mai ychydig o feddwl cydgysylltiedig sydd ynghylch hylendid mewn rhai ysbytai yng Nghymru. Yn ddiweddar, rhwystrwyd fy mam rhag cael ei rhyddhau o’r ysbyty dair gwaith yn olynol oherwydd haint yn y ward. Yn waeth na hynny—yr wyf wedi crybwyll hyn yn y Siambr nifer o weithiau—pan euthum i’w gweld, gwelais gleifion y tu allan yn eu gynau tŷ, yn llusgo blancedi ar y llawr ar eu hôl. Mae hynny’n hollol anfaddeuol. Ar y naill law, ni ellir rhyddhau cleifion ac, ar y llaw arall, caniateir i bobl ddod â heintiau i mewn. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gwneud rhywbeth am hyn.

Y Prif Weinidog: Mae’n ddrwg gennyf glywed am y sefyllfa a ddisgrifiasoch yng nghyffiniau’r ward neu ar y llawr lle’r oedd eich mam yn derbyn gofal, a’r effaith a gafodd hynny ar y gallu i’w rhyddhau ar adeg glinigol briodol. Yr wyf yn siŵr y byddwch am gysylltu’n uniongyrchol â’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater hwnnw.

On the broader issue, we know that we need a cultural change among consultants—they need to learn to always wash their hands with alcohol gel between patients—and among visitors. Every time visitors go on to a ward and leave a ward, they need to remember to use the alcohol gel machine. We all forget from time to time, but we must ensure that we use it. Consultants, nurses, visitors, patients and everyone must never fail to use it. We do not want to get to a situation in which we have to seriously restrict visitors' hours because so much infection is being brought in.

Alun Ffred Jones: Un elfen sydd yn effeithio ar lanweithdra yw'r pwysau ar wasanaethau, nifer y cleifion a'r canran o welyau sydd yn cael eu defnyddio. Un gwasanaeth sydd o dan bwysau mawr yn Ysbyty Gwynedd yw'r uned dialysis. Deallaf fod cynlluniau i sefydlu uned arenau bellach tu allan i Ysbyty Gwynedd yn y gogledd-orllewin, lle mae gwir angen lleihau'r oriau teithio ar gyfer y cleifion. A ydych yn fodlon rhoi pwysau ar y gwasanaeth i sefydlu uned o'r fath, fel bod gwasanaeth cyflawn ar gael i bobl ar hyd a lled Cymru?

2.20 p.m.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr fy mod wedi clywed pob un o fanylion y sefyllfa yr ydych yn ei disgrifio. A ydych yn sôn am uned symudol ynteu uned barhaol, er enghraifft mewn ysbyty fel yr un newydd sy'n cael ei adeiladu yng nghyffiniau Porthmadog, i wasanaethu gorllewin Gwynedd? Yr uchelgais yw cael rhwydwaith o wasanaethau ac unedau dialysis lle nad oes rhaid i gleifion deithio mwy na'r lleiafswm angenrheidiol i'w cyrraedd.

Sandy Mewies: One of the most fundamental things that can be done to improve hygiene is to redesign nurses' uniforms and improve laundry facilities. Uniforms of the past were extremely difficult to clean; they were part of an exhibition to celebrate the NHS that I saw in Mold Community Hospital recently. Will you join

Ynghylch y mater mwy cyffredinol, gwyddom fod arnom angen newid mewn diwylliant ymysg meddygon ymgynghorol—mae angen iddynt ddysgu golchi eu dwylo â gel alcohol bob tro rhwng cleifion—ac ymysg ymwelwyr. Bob tro yr aiff ymwelwyr i ward a gadael ward, mae angen iddynt gofio defnyddio'r peiriant gel alcohol. Byddwn i gyd yn anghofio o bryd i'w gilydd, ond rhaid inni sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio. Rhaid i feddygon ymgynghorol, nyrsys, ymwelwyr, cleifion a phawb ei ddefnyddio bob tro'n ddi-ffael. Nid ydym am fynd i sefyllfa lle y mae'n rhaid inni gyfyngu oriau ymwelwyr yn sylweddol am fod cynifer o heintiau'n cael eu cario i mewn.

Alun Ffred Jones: One issue that affects hygiene is the pressure on services, throughput and the percentage of beds used. One service under great pressure at Ysbyty Gwynedd is the dialysis unit. I understand that there are plans to establish a further renal unit outside Ysbyty Gwynedd in north-west Wales, where there is a real need to reduce patient travel time. Are you willing to bring pressure to bear on the service to establish such an unit, so that a full service is available for people in all parts of Wales?

The First Minister: I am not sure that I have heard all the details of the situation that you describe. Are you talking about a mobile unit or a permanent unit, for example at a location such as the new hospital being built in the Porthmadog area, to serve the western side of Gwynedd? The ambition is to have a network of renal units and services that patients do not have to travel more than the necessary minimum to access.

Sandy Mewies: Un o'r pethau mwyaf sylfaenol y gellir ei wneud i wella hylendid yw ailddylunio gwisgoedd nyrsys a gwella cyfleusterau golchi. Yr oedd gwisgoedd y gorffennol yn anodd iawn eu glanhau; yr oeddent yn rhan o arddangosfa i ddathlu'r GIG a welais yn Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug yn ddiweddar. A wnewch ymuno

me in congratulating those from Mold, and from all over Wales, who have celebrated 60 years of our wonderful non-privatised NHS?

The First Minister: Yes. I was a Member of Parliament when the NHS got pretty close to being privatised—it was, perhaps, the next thing to be privatised in the commission given to the Minister, John Moore, by Margaret Thatcher in 1987 or 1988, but it did not happen, possibly because of the Vale of Glamorgan by-election in 1989, where it was made quite clear that people would not accept privatisation of the NHS. Thank goodness for the good sense of the voters of the Vale of Glamorgan in May of that year.

The point that you make about nurses' uniforms is important. The recent all-Wales nursing uniform policy working group looked at this and recommended that we return to the culture of washing nurses' uniforms at 60 degrees C, and that uniforms did not need to be pulled over the head. It proposed a whole manner of different recommendations to ensure that nurses' uniforms were fit for purpose for the twenty-first century, did not spread infection and were easy to wash and sterilise.

Lesley Griffiths: Among the many recent measures announced by the Welsh Assembly Government to reduce the spread of hospital-acquired infection, could the announcement to provide separate bathroom facilities not only help to tackle this problem, but also prove particularly popular in restoring dignity to patients of both genders? Do you agree that, when it comes to healthcare in Wales, the Government is not only listening, but is acting decisively and swiftly to improve patient care?

The First Minister: Yes, indeed. The 107-room Aneurin Bevan Hospital in Blaenau Gwent will have en-suite bathrooms, so that the mixed-sex question does not arise. The question of allowing infections to spread around the ward as people move back and forth to the bathroom in the way that hospital patients have had to get used to will not come up either; that is not a problem in hospitals designed today.

â mi i longyfarch y rheini yn yr Wyddgrug, ac ym mhob rhan o Gymru, sydd wedi dathlu 60 mlynedd ein GIG gwych sydd heb ei breifateiddio?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Yr oeddwn yn Aelod Seneddol pan fu bron iawn i'r GIG gael ei breifateiddio—ef, efallai, oedd y peth nesaf i gael ei breifateiddio yn y comisiwn a roddwyd i'r Gweinidog, John Moore, gan Margaret Thatcher ym 1987 neu 1988, ond ni ddigwyddodd, efallai oherwydd is-etholiad Bro Morgannwg ym 1989, lle y'i gwnaethpwyd yn gwbl glir na wnâi pobl dderbyn preifateiddio'r GIG. Diolch byth am synnwyr cyffredin pleidleiswyr Bro Morgannwg ym mis Mai y flwyddyn honno.

Mae'r pwynt yr ydych yn ei wneud am wisgoedd nyrsys yn un pwysig. Gwnaeth y gweithgor polisi diweddar ar wisgoedd nyrsys i Gymru gyfan edrych ar hyn ac argymhell y dylem fynd yn ôl i'r arfer o olchi gwisgoedd nyrsys ar 60 gradd C, ac nad oedd angen tynnu gwisgoedd dros y pen. Cynigiodd bob math o wahanol argymhellion i sicrhau bod gwisgoedd nyrsys yn addas i'r unfed ganrif ar hugain, nad oeddent yn lledaenu heintiau a'u bod yn hawdd eu golchi a'u diheintio.

Lesley Griffiths: Ymysg y nifer mawr o fesurau diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i leihau lledaeniad heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, oni fyddai'r cyhoeddiad am ddarparu cyfleusterau ystafell ymolchi ar wahân nid yn unig yn gallu helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon, ond bod yn neilltuoel o boblogaidd hefyd o ran adfer urddas cleifion o'r ddau ryw? A ydych yn cytuno, o ran gofal iechyd yng Nghymru, fod y Llywodraeth nid yn unig yn gwrando, ond yn gweithredu'n fuan ac yn benderfynol i wella gofal cleifion?

Y Prif Weinidog: Ydwyf, yn wir. Yn Ysbyty Aneurin Bevan ym Mlaenau Gwent, sydd â 107 o ystafelloedd, bydd ystafell ymolchi'n gysylltiedig â phob ystafell, fel na fydd mater wardiau cymysg yn codi. Ni fydd y cwestiwn o adael i heintiau ymledu yn y ward wrth i bobl fynd yn ôl ac ymlaen i'r ystafell ymolchi, fel y mae cleifion mewn ysbytai wedi gorfod dod i arfer â gwneud, yn codi ychwaith; nid yw hynny'n broblem mewn

ysbytai a ddylunnir heddiw.

Joyce Watson: We all know that an important part of any hospital is its cleaning staff—if we are talking about cleanliness, we have to talk about the cleaning staff. The ‘Free to Lead, Free to Care’ report made important recommendations on their role as part of the valued healthcare team. We all know that, in that report, an over-reliance on agency staff is cited as a barrier to improving morale and cleanliness. So, what steps have been taken to offer more permanent contracts to cleaning staff who will be subject to the new proficiency requirements?

Joyce Watson: Yr ydym i gyd yn gwybod mai un rhan bwysig o bob ysbyty yw ei staff glanhau—os ydym yn sôn am lanweithdra, rhaid inni sôn am y staff glanhau. Gwnaethpwyd argymhellion pwysig yn yr adroddiad ‘Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu’ ar eu rôl fel rhan o’r tîm gofal iechyd gwerthfawr. Yr ydym i gyd yn gwybod bod yr adroddiad hwnnw’n cyfeirio at orddibyniaeth ar staff asiantaethau fel rhwystr rhag gwella morâl a glanweithdra. Felly, pa gamau sydd wedi’u cymryd i gynnig mwy o gontractau parhaol i staff glanhau a fydd yn gorfod ufuddhau i’r gofynion newydd ar fedruswydd?

The First Minister: The ‘Free to Lead, Free to Care’ report was about trying to empower ward sisters to have much more control over this policy and to regard the cleaners as part of an integrated team. They are not there to come in, do the job, disappear and then come back to do the same the following evening—they should be seen as part of the team. One of the recommendations of the ‘Free to Lead, Free to Care’ report is that ward sisters would have the power to work with cleaners as part of the team, rather than see them as some sort of external service, which is nothing to do with the provision of NHS services.

Y Prif Weinidog: Yr oedd yr adroddiad ‘Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu’ yn ymwneud â cheisio grymuso prif nyrsys ward fel bod ganddynt fwy o reolaeth o lawer ar y polisi hwn ac fel eu bod yn gweld y glanhawyr yn rhan o dîm integredig. Ni ddylent ddod i mewn, gwneud y gwaith, diflannu ac wedyn dod yn ôl i wneud yr un peth y noson wedyn—dylid eu gweld yn rhan o’r tîm. Un o’r argymhellion yn yr adroddiad ‘Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu’ yw y byddai prif nyrsys ward yn gallu cydweithio â glanhawyr fel rhan o’r tîm, yn hytrach na’u gweld yn rhyw fath o wasanaeth allanol, nad yw’n ymwneud o gwbl â darparu gwasanaethau GIG.

Gwaith Alwminiwm Dolgarrog

Dolgarrog Aluminium Works

C4 Gareth Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywiad economaidd dyffryn Conwy yn sgil cau gwaith alwminiwm Dolgarrog? OAQ(3)1233(FM)

Q4 Gareth Jones: Will the First Minister make a statement on the economic regeneration of the Conwy valley in the wake of the closure of the Dolgarrog aluminium works? OAQ(3)1233(FM)

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn yn siomedig na ddaeth y cwmni o Rwsia i aildechrau cynhyrchu dalenni alwminiwm ar y safle. Fodd bynnag, yr ydym yn falch bod Ainscough-Johnston Cyf wedi cymryd drosodd ar 1 Gorffennaf. Deallaf y bydd cyfarfod cyn diwedd y mis rhwng Ainscough-Johnston a’r grŵp gweithredu lleol.

The First Minister: I was disappointed that the Russian company did not come to start producing aluminium sheets again on the site. However, we are pleased that Ainscough-Johnston Ltd took over the site on 1 July. I understand that there will be a meeting before the end of the month between Ainscough-Johnston and the local action group.

Gareth Jones: Mae gwerthu gwaith Dolgarrog yn newyddion da i drigolion lleol

Gareth Jones: The sale of the Dolgarrog plant is good news for local people worried

sy'n poeni am y dyfodol. Mae'n amlwg bod gwaith sylweddol wedi digwydd y tu ôl i'r llenni. Croesawaf y gwerthu a rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth sicrhau hynny. Yr wyf hefyd yn falch bod y Llywodraeth wedi dangos ffydd yn y cwmni a'i gynlluniau ar gyfer buddsoddi yn yr ardal. A gytunwch y bydd adfywiad llwyddiannus y dyffryn yn dibynnu ar ddenu cyflogaeth i safle Dolgarrog ac i adeilad newydd y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno? A allwch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo'n llwyr i greu cyflogaeth o'r newydd ar y ddau safle hollbwysig hyn?

Y Prif Weinidog: Mae colli 170 o swyddi mewn lle fel dyffryn Conwy yn gnoc sylweddol i'r ardal. Yr ydym yn gobeithio y bydd yr adfywiad yn economi canol dyffryn Conwy yn dechrau ym mis Gorffennaf 2008, gan fod y cwmni hwn, sy'n eithaf cyfoethog, a chanddo bocedi dwfn, yn gallu gweithio gyda ni a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i adfywio'r ardal gyda swyddi, cyfleoedd hamdden, tai fforddiadwy ac unedau busnes newydd.

Mark Isherwood: Wrth drafod tlodi tanwydd gyda Llywodraeth y DU yn ogystal â chyda'ch cyd-Weinidogion yma, a leisiwch chi'r pryderon a fynegwyd gan Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru sy'n dweud, er bod gennym dargedau tlodi tanwydd sydd wedi'u seilio ar weledigaeth fawr, fod angen cerrig milltir arnom fel y gallwn graffu ar y broses, a bod angen dangosyddion perfformiad allweddol arnom sy'n canolbwyntio ar yr agenda tlodi?

Y Prif Weinidog: Cytunaf â'r farn a fynegwyd ddoe, yr wyf yn credu, gan Jenny Saunders, prif weithredwr Gweithredu Ynni Cenedlaethol, yr wyf yn ei hadnabod yn dda ac ers amser maith. Credaf fod rhai cerrig milltir eisoes wedi'u sefydlu, sef y dylai aelwydydd sy'n agored i niwed gael eu codi o dlodi tanwydd erbyn 2010—sy'n gofyn llawer, ac ystyried cyfradd y codiadau—ac y dylai'r holl dlodi tanwydd gael ei ddileu erbyn 2018. Yr ydym yn ceisio cyrraedd y cerrig milltir hynny, gyda sylw'n cael ei roi i aelwydydd sy'n agored i niwed yn gyntaf, ac yna bob aelwyd. Os yw Gweithredu Ynni Cenedlaethol wedi datgan bod angen rhagor o gerrig milltir arnom, bydd yn rhaid inni ystyried hynny. Efallai y caf ofyn i Jane Davidson ysgrifennu atoch ar y pwnc hwnnw yn dilyn ei phresenoldeb yn ddiweddar yn yr uwchgynhadledd ar dlodi tanwydd gyda Gweinidogion San Steffan yn Llundain.

Peter Black: A wnewch chi egluro sut yr ydych yn ailstrwythuro'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref er mwyn targedu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd yn well?

Y Prif Weinidog: Credaf ein bod i gyd yn derbyn bod y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi bod yn ffordd eithriadol o dda o fuddsoddi mewn cartrefi cynhesach gyda biliau tanwydd is oherwydd gwell insiwleiddio. Fodd bynnag, yr ydym yn

genuinely fuel poor. It is not sufficiently means-tested in that sense. I do not often say that, but I think that we have to say it with regard to this particular scheme. Looking again at the home energy efficiency scheme in order to better target it is essential to ensure that it really is fit for purpose, particularly given the eye-watering fuel increases that are now on the stocks for next winter.

cydnabod nad yw'n cael ei dargedu'n ddigon dda at y rhai sydd o ddifrif yn dioddef tlodi tanwydd. Nid wyf yn dweud hynny'n aml, ond credaf ei bod yn rhaid inni ei ddweud mewn perthynas â'r cynllun neilltuol hwn. Ac edrych eto ar y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, er mwyn ei dargedu'n well mae'n hanfodol sicrhau ei fod yn wirioneddol addas i'w ddiben, yn enwedig ac ystyried y codiadau tanwydd poenus sydd yn yr arfaeth bellach ar gyfer y gwanwyn nesaf.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): There are no changes to report to this week's Government business. Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found in the agenda papers that are available to Members electronically.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Nid oes newidiadau i'w hadrodd ym musnes y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, y gellir ei weld ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau'n electronig.

Nick Bourne: Will the Leader of the House ensure that there is a Government statement on any progress made in relation to Her Majesty's Revenue and Customs office closure programme which, as he knows, is affecting all parts of Wales, including his own constituency of Bridgend? I have yet to find anyone in Wales who supports this, including Labour Assembly Members. Indeed, I am yet to find any Labour Members of Parliament who are in favour of it, yet it is still being driven forward. The costs that are claimed as being saved are, at best, suspect. It is hitting many employees, many of whom work part-time and women, and who will simply not move to other locations. It runs contrary to the Government's policy of dispersing jobs from Cardiff and other cities to other parts of Wales, which we support. It also runs counter to the green agenda, because it will increase the carbon footprint with people travelling, as members of the public will have to travel to get advice at different centres. In short, it is totally half-baked.

Nick Bourne: A wnaiff Arweinydd y Tŷ sicrhau y ceir datganiad Llywodraeth ar unrhyw gynnydd a wnaethpwyd mewn perthynas â rhaglen Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau swyddfeydd sydd, fel y gŵyr, yn effeithio ar bob rhan o Gymru, yn cynnwys ei etholaeth ef ym Mhen-y-bont ar Ogwr? Nid wyf eto wedi dod o hyd i unrhyw un yng Nghymru sy'n cefnogi hyn, yn cynnwys Aelodau Cynulliad Llafur. Yn wir, nid wyf eto wedi dod o hyd i unrhyw Aelodau Seneddol Llafur sydd o'i blaid, ond mae'n dal i gael ei yrru ymlaen. Mae'r costau yr honnir y byddir yn eu harbed, ar y gorau, yn amheus. Mae'n taro llawer o weithwyr, llawer ohonyn yn gweithio'n rhan-amser a menywod, na fyddant yn gallu symud i leoliadau eraill. Mae'n mynd yn groes i bolisi'r Llywodraeth o wasgaru swyddi o Gaerdydd a dinasoedd eraill i rannau eraill o Gymru, yr ydym yn ei gefnogi. Mae hefyd yn mynd yn groes i'r agenda werdd, oherwydd bydd yn cynyddu'r ôl-troed carbon gyda phobl yn teithio, gan y bydd yn rhaid i aelodau'r cyhoedd deithio i gael cyngor mewn canolfannau gwahanol. Yn fyr, mae'n gynnig rhwng hanner call a dwl.

The consultation ends in August. My fear is that this decision will be taken over the

Daw'r ymgynghoriad i ben ym mis Awst. Fy ofn yw y gwneir y penderfyniad hwn dros yr

summer—and it is a decision that no-one will want—and we will see massive job losses and the hardship that that will cause, particularly to people in some communities in the Valleys, where the hardship will be massive. I was speaking with unions over the weekend, and I heard that people who cannot read and who go in with tax forms that they cannot understand will be in a particularly vulnerable position. Is there anything that the Government is doing, and if so, what is being done? If it is not doing anything, will it do something while it still can, before it is too late?

Carwyn Jones: This is a non-devolved issue, but, first of all, we have looked to encourage as many major relocation moves to Wales as possible, and that has been successful. Secondly, we have been looking with UK Government departments at the impact of their programmes—and this is one of them—at an operational level in Wales. As a result, recent meetings between officials were held with HM Revenue and Customs to establish, at the very least, how information can be disseminated from HMRC to us. There has been discussion between our Government officials and HMRC on human resources matters, and, at the moment, we are looking at how we might be able to assist those who will be affected by the HMRC changes, and we will continue to hold a dialogue with HMRC in the future.

Lesley Griffiths: Leader of the House, will you join me in wishing the all-Wales convention well in its work over the coming months, and will you consider the possibility of setting aside Government time in Plenary, after our return from recess, to debate the issue of our respective party positions on the future of devolution for Wales? The Conservative peer, Lord Roberts of Conwy, recently finished his report on his party's policy on devolution, yet the contents of that report are so secret that the Conservative Party is not prepared to share with the Welsh people what its policy is. At its Welsh conference in March, David Cameron promised to find the right resting place for his

haf—ac mae'n benderfyniad na fydd neb yn ei ddymuno—a byddwn yn gweld y colledion swyddi enfawr a'r caledi y bydd hynny'n ei achosi, yn enwedig i bobl mewn rhai cymunedau yn y Cymoedd, lle bydd y caledi'n enfawr. Yr oeddw'n siarad â'r undebau dros y penwythnos, a chlywais y bydd y bobl nad ydynt yn gallu darllen a'r rhai sy'n mynd yno gyda ffurflenni treth nad ydynt yn gallu eu deall mewn sefyllfa neilltuol o fregus. A oes unrhyw beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud, ac os felly, beth sy'n cael ei wneud? Os nad yw'n gwneud dim, a wnaiff hi rywbeth tra mae hynny'n dal yn bosibl, cyn iddi fynd yn rhy hwyr?

Carwyn Jones: Mae hwn yn fater nad yw wedi cael ei ddatganoli, ond, yn gyntaf oll, yr ydym wedi ceisio annog cynifer â phosibl o gynlluniau mawr i adleoli i Gymru, ac mae hynny wedi bod yn llwyddiant. Yn ail, yr ydym wedi bod yn edrych, ynghyd ag adrannau Llywodraeth y DU, ar effaith eu rhaglenni—ac mae hon yn un ohonynt—ar lefel weithredol yng Nghymru. O ganlyniad, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng swyddogion yn ddiweddar gyda Chyllid a Thollau EM i sefydlu, o leiaf, sut mae lledaenu gwybodaeth oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ni. Bu trafodaeth rhwng ein swyddogion Llywodraeth ni a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi am faterion adnoddau dynol, ac, ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried sut y gallem efallai helpu'r rhai y bydd y newidiadau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn effeithio arnynt, a byddwn yn parhau i gynnal deialog â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn y dyfodol.

Lesley Griffiths: Arweinydd y Tŷ, a wnewch chi ymuno â mi i ddymuno'n dda i Gonfensiwn Cymru Gyfan yn ei waith dros y misoedd i ddod, ac a wnewch chi ystyried y posibilrwydd o neilltuo amser Llywodraeth mewn Cyfarfod Llawn, ar ôl inni ddychwelyd wedi'r toriad, i drafod mater safbwyntiau ein gwahanol bleidiau o ran dyfodol datganoli i Gymru? Cwblhaodd yr arglwydd Ceidwadol, yr Arglwydd Roberts o Gonwy, ei adroddiad ar bolisi ei blaid ef ar ddatganoli yn ddiweddar, ond mae cynnwys yr adroddiad hwnnw mor gyfrinachol fel nad yw'r Blaid Geidwadol yn barod i rannu gyda phobl Cymru beth yw ei pholisi. Yn ei chynhadledd i Gymru ym mis Mawrth, addawodd David

party's policy on devolution. Do you agree that the time has come for the Welsh Conservatives to tell us where that policy is buried?

Carwyn Jones: We talk a lot, on this side of house, about openness of Government. The convention process is an open and democratic one—we have all seen the membership of the convention, and the convention's deliberations will be made public knowledge.

With regard to the Conservatives, the one thing that we can be grateful for is the fact that they have a policy at all, even if they choose to keep it secret, because, these days, the Conservative Party, as we know, is very much a policy-free zone.

Kirsty Williams: Minister, I ask you to liaise with your Minister for Rural Affairs to discuss the problems that have arisen over the re-opening of the organic farming scheme. There seems to have been some complication with the forms that needed to be filled in to be accepted into the scheme. Many farmers have filled in their single farm payment forms, thinking that that was what was required of them to enter the scheme, only to find subsequently that they should have filled in an expression of interest form back in the autumn. My understanding is that over 100 farmers are affected by this problem, and I wonder whether the Minister for Rural Affairs would provide a written statement on how your Government will tackle the scheme to allow all farmers who wish to do so to participate in the scheme, and help you to meet your stated Government target regarding the amount of land involved in organic production in Wales.

Carwyn Jones: It was made clear to farmers in the scheme literature that, if they wished to submit an application for the organic farming scheme, they had to do so by 15 May. That said, we are committed to the expansion of organic farming in Wales, and, subject to the scheme's budget allocation, we will look to support those farmers who did not submit an application form to join the scheme, but who

Cameron ddod o hyd i'r gorffwysfan iawn i bolisi ei blaid ar ddatganoli. A ydych yn cytuno bod yr amser wedi dod i'r Ceidwadwyr Cymreig ddweud wrthym ymhle mae'r polisi hwnnw wedi cael ei gladdu?

Carwyn Jones: Yr ydym yn siarad llawer, yr ochr hon i'r tŷ, am fod yn agored mewn Llywodraeth. Mae proses y confensiwn yn un agored a democrataidd—yr ydym i gyd wedi gweld aelodaeth y confensiwn, a bydd trafodaethau'r confensiwn yn cael eu gwneud yn wybodaeth gyhoeddus.

O ran y Ceidwadwyr, yr un peth y gallwn fod yn ddiolchgar amdano yw'r ffaith bod ganddynt bolisi o gwbl, hyd yn oed os ydynt yn dewis ei gadw'n gyfrinach, oherwydd, y dyddiau hyn, mae'r Blaid Geidwadol, fel y gwyddom, yn barth di-bolisi pendant iawn.

Kirsty Williams: Weinidog, gofynnaf ichi gysylltu â'ch Gweinidog dros Faterion Gwledig i drafod y problemau sydd wedi codi ynglŷn ag ailagor y cynllun ffermio organig. Mae'n ymddangos y bu rhyw gymhlethdod gyda'r ffurflenni y mae angen eu llenwi er mwyn cael eich derbyn i'r cynllun. Mae llawer o ffermwyr wedi llenwi eu ffurflen taliad sengl, gan gredu mai dyna oedd yn ofynnol ganddynt er mwyn cael ymuno â'r cynllun, dim ond i ddarganfod wedyn y dylent fod wedi llenwi ffurflen datgan diddordeb yn ôl yn yr hydref. Fy nealltwriaeth i yw bod y broblem hon wedi effeithio ar dros 100 o ffermwyr, ac ys gwn i tybed y wnâi'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ddarparu datganiad ysgrifenedig ar sut y bydd eich Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r cynllun i ganiatáu i bob ffermwr sy'n dymuno gwneud hynny i gymryd rhan yn y cynllun, a'ch helpu i gyrraedd y targed y mae eich Llywodraeth wedi'i ddatgan o ran faint o dir sydd mewn cynhyrchiant organig yng Nghymru.

Carwyn Jones: Fe'i gwnaethpwyd yn glir i ffermwyr yn llenyddiaeth y cynllun, os oeddent yn dymuno cyflwyno cais i'r cynllun ffermio organig, ei bod yn rhaid iddynt wneud hynny erbyn 15 Mai. Wedi dweud hynny, yr ydym wedi ymrwymo i ehangu ffermio organig yng Nghymru, ac, yn amodol ar ddyraniad cyllideb y cynllun, byddwn yn ceisio cefnogi'r ffermwyr hynny na

indicated on their single payment application form that they wish to claim organic payments and where all the eligibility conditions have been met. We will do what we can to assist those who may have found the situation confusing.

Chris Franks: We are faced with a slump in employment in the construction industry, and some estimate that there will be 60,000 job losses. The financial sector has entered a period of massive instability, and the proportion of 18 to 24-year-olds without a job is higher than in 1997. In view of the serious threat to the Welsh economy, can we have a Government debate to consider the need for additional economic powers to be allocated to the Assembly to help protect the people of Wales from the economic storms?

3.00 p.m.

You will be aware that it is the poorest families that are most affected by the rocketing costs of fuel, food and energy. The accountancy firm PricewaterhouseCoopers has reported that inflation for the poorest is higher than for any other section of society. How are we going to react to these circumstances and how will our commitment to tackling child poverty be affected? Will you give us an opportunity to debate these important matters?

Carwyn Jones: We should avoid giving the impression that, somehow, if more economic powers were transferred to the Assembly—fiscal levers, if I can put it that way—we would have avoided the situation that is affecting so many countries across the world. There is a fundamental reason as to why we find ourselves in this position. First, there is the utter recklessness of the American banks in lending to people who they knew full well would never be able to pay them back. They relied on repossessing people's properties, thinking that they could sell them on for a profit. When those properties began to dip in price, the whole structure began to fall apart. That situation was aided and abetted by many British banks that bought those questionable debts.

chyflwynasant ffurflen gais am ymuno â'r cynllun, ond a nododd ar eu ffurflen gais taliad sengl eu bod yn dymuno hawlio taliadau organig, lle mae'r holl amodau cymhwysio wedi cael eu bodloni. Gwnawn yr hyn a allwn i helpu'r rhai a oedd efallai wedi teimlo bod y sefyllfa'n ddryslyd.

Chris Franks: Yr ydym yn wynebu dirwasgiad mewn cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu, ac mae rhai'n amcangyfrif y collir 60,000 o swyddi. Mae'r sector ariannol yn wynebu cyfnod o ansefydlogrwydd enfawr, ac mae'r gyfran o bobl ifanc 18 i 24 oed heb swydd yn uwch nag oedd yn 1997. Ac ystyried y bygythiad difrifol i economi Cymru, a gawn ni ddadl Llywodraeth i ystyried yr angen am ddyrannu pwerau economaidd ychwanegol i'r Cynulliad i helpu i warchod pobl Cymru rhag y stormydd economaidd?

Mi fyddwch yn ymwybodol mai'r teuluoedd tlotaf sydd yn dioddef effaith costau cynyddol tanwydd, bwyd ac ynni fwyaf. Mae'r cwmni cyfrifwyr PricewaterhouseCoopers wedi adrodd bod chwyddiant i'r tlotaf yn uwch nag i unrhyw adran arall o'r gymdeithas. Sut yr ydym yn mynd i adweithio i'r amgylchiadau hyn a sut yr effeithir ar ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant? A roddwch gyfle inni drafod y materion pwysig hyn?

Carwyn Jones: Dylem ochel rhag rhoi'r argraff, rywsut, petasai mwy o bwerau economaidd wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad—trosolion cyllidol, os caf ei roi felly—y buasem wedi osgoi'r sefyllfa sydd yn effeithio ar gynifer o wledydd dros y byd. Mae rheswm sylfaenol pam yr ydym yn ein canfod ein hunain yn y sefyllfa hon. Yn gyntaf, dyna ddihidrwydd llwyr y banciau Americanaidd yn rhoi benthyg i bobl y gwyddent yn berffaith iawn na allent fyth dalu'n ôl iddynt. Yr oeddent yn dibynnu ar adfeddiannu eiddo pobl, gan feddwl y gallent eu gwerthu ymlaen am elw. Pan ddechreuodd pris yr eiddo hynny gwmpo, dechreuodd yr holl strwythur ddadfeilio. Cynorthwywyd ac ategwyd y sefyllfa honno gan lawer o fanciau Prydeinig a brynodd y dyledion amheus hynny.

Where we have a situation where banks are able to be so reckless as to put not only themselves but many ordinary people at risk, it shows that more regulation is needed at an international level in order to save the banks from themselves.

Andrew R.T. Davies: I heard what you said to Kirsty about the organic conversion scheme and about 15 May. I have also received many representations from constituents who elected to enter into that scheme. To a man and woman they indicated on their integrated administration and control system forms, as has been acknowledged by the divisional office, that they wanted to enter the organic scheme. However, a supplementary paper—a questionnaire—was included that seems to have thrown a spanner in the works.

It would be beneficial for Members if a statement could be released from the Minister for Rural Affairs to highlight where the Government will offer help to farmers who have taken the advice of the Organic Centre Wales in Aberystwyth and have had the consultants out, have acted in best faith and put practices in place in their businesses to adapt to the organic conversion scheme, but who, some two months later, are receiving letters informing them that they will not be accepted into the scheme and that the next opportunity will be some 12 months hence, when the new window will open on 15 May 2009. Therefore, will it be possible to have a written statement so that, over the summer months, when these issues are raised with us, we have clarity on where the Government is heading?

Carwyn Jones: I do not think that I can go beyond what I said originally. The intention is to do everything possible to assist. We will look to provide more detail in the near future. The Royal Welsh Show is almost upon us and I am sure that that will be an opportunity for these issues to be debated further.

Gareth Jones: Yng ngoleuni colli swyddi diweddar yn Nolgarrrog, a sinigiaeth ambell i blaid wleidyddol ynghylch unrhyw gynllun i ailddatblygu'r safle hwn a hefyd safle adeilad

Lle mae gennym sefyllfa lle mae banciau'n gallu bod mor ddi-hid nes peryglu nid yn unig eu hunain ond llawer o bobl gyffredin hefyd, mae'n dangos bod angen mwy o reoleiddio ar lefel ryngwladol er mwyn achub y banciau rhagddynt eu hunain.

Andrew R.T. Davies: Clywais yr hyn a ddywedasoch wrth Kirsty am y cynllun troi'n organig ac am 15 Mai. Yr wyf finnau hefyd wedi cael llawer o etholwyr yn dod ataf wedi iddynt ddewis ymuno â'r cynllun hwnnw. Nododd pob un copa walltrog ohonynt ar eu ffurflenni system integredig gweinyddu a rheoli, fel y mae'r swyddfa ranbarthol wedi cydnabod, fod arnynt eisiau ymuno â'r cynllun organig. Fodd bynnag, cynhwyswyd papur atodol—holiadur—sydd fel petai wedi taflu pawb oddi ar ei echel.

Byddai'n fuddiol i Aelodau pe gellid rhyddhau datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ddangos ble y gwnaiff y Llywodraeth gynnig cymorth i ffermwyr sydd wedi cymryd cyngor Canolfan Organig Cymru yn Aberystwyth ac wedi cael yr ymgynghorwyr allan, wedi gweithredu yn llawn ffydd ac wedi sefydlu arferion yn eu busnesau i addasu i'r cynllun troi'n organig, ond sydd, ryw ddau fis yn ddiweddarach, yn cael llythrau'n dweud wrthynt na chânt eu derbyn i'r cynllun ac mai ymhen rhyw 12 mis y daw'r cyfle nesaf, pan agora'r ffenestr newydd ar 15 Mai 2009. Felly, a fydd yn bosibl cael datganiad ysgrifenedig fel bod gennym, dros fisoedd yr haf, pan godir y materion hyn gyda ni, eglurder ynghylch ble mae'r Llywodraeth yn mynd?

Carwyn Jones: Nid wyf yn meddwl y gallaf fynd y tu hwnt i'r hyn a ddywedais yn wreiddiol. Y bwriad yw gwneud popeth posibl i gynorthwyo. Ceisiwn ddarparu mwy o fanylion yn y dyfodol agos. Mae'r Sioe Amaethyddol bron ar ein gwarthaf ac yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n gyfle i drafod y materion hyn ymhellach.

Gareth Jones: In the light of the recent job losses in Dolgarrog, and the cynicism of some political parties regarding any scheme to redevelop this site and the National

y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno, gofynnaf i Lywodraeth Cymru'n Un wneud datganiad ar ei gweledigaeth a'i strategaeth ar gyfer adfywio llwyddiannus i Ddyffryn Conwy, datganiad a fydd yn uno'r gweithgareddau unigol, ond rhyng-ddibynnol, yr ydych yn gweithredu arnynt ar hyn o bryd mewn perthynas â'r safleoedd hyn. Byddai datganiad hefyd yn gallu dangos sut mae'r gweithgarwch hwn yn rhan o strategaeth gyfannol, goruwch, efallai, sy'n cynnwys y cynllun datblygu gwledig, cynllun gofodol Cymru, y strategaeth dwristiaeth ac eraill. Byddai'r fath ddatganiad yn dangos sut y mae'r holl weithgarwch hwn yn dod ynghyd ac yn gweithio er lles a dyfodol cynaliadwy i Aberconwy.

Carwyn Jones: Deallaf y problemau sydd wedi eu hachosi, nid yn unig yn ardal Dolgarrog ond hefyd yn Nyffryn Conwy yn ei gyfanrwydd, wrth gau y ffatri honno a oedd wedi bod yno am gymaint o flynyddoedd. Yr wyf yn gwybod i bopeth posibl gael ei wneud er mwyn ceisio sicrhau dyfodol y ffatri honno, ac yr oedd llawer o siarad ar ran y Gweinidog ac ar ran y swyddogion ynglŷn â darganfod ffordd ymlaen i'r ffatri.

Yr wyf yn siŵr y byddai Ieuan Wyn Jones yn gallu ateb eich cwestiynau ynglŷn â chynllun datblygu goruwch, fel y dywedasoch, i Ddyffryn Conwy yn ei gyfanrwydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae ei rhan drwy agor y swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno. Bydd hynny'n hwb i'r economi lleol, gobeithio. Yr wyf yn siŵr, drwy ohebiaeth neu wrth ateb gwestiynau yn y Siambr, byddai'r Dirprwy Brif Weinidog yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi ynghylch y sefyllfa ac ynghylch dyfodol economaidd Dyffryn Conwy.

Mark Isherwood: I would not endorse Chris Franks's call for a debate on the devolution of powers over the economy. However, I would call for a debate on the regulatory regime that applies to Wales's economy and how we should be working with the UK Government accordingly. The International Monetary Fund has said that the UK banking system is more exposed to the sub-prime market than any other, including that of the United States. That is partly because of our

Assembly site in Llandudno Junction, I ask the One Wales Government to make a statement on its vision and strategy for the successful regeneration of the Conwy valley, a statement which will unite the individual but interdependent activities that you are currently implementing in relation to these sites. A statement could also show how this activity is part of a comprehensive overarching strategy, which includes the rural development plan, the Wales spatial plan, the tourism strategy and others. Such a statement would show how all of these activities are coming together and are working for the benefit and sustainable future for Aberconwy.

Carwyn Jones: I understand the problems that have been caused, not only in the Dolgarrog area but also in the Conwy valley as a whole, with the closure of that factory, which had been there for so many years. I know that everything possible has been done to try to safeguard a future for that particular plant, and there were many discussions between the Minister and officials in trying to find a way ahead for the plant.

I am sure that Ieuan Wyn Jones could answer your questions about an overarching development plan, as you mentioned, for the Conwy valley as a whole. The Assembly Government is playing its part by opening a new office in Llandudno Junction. Hopefully, that will be a boost to the local economy. I am sure, through correspondence or through questions in Plenary, that the Deputy First Minister would be able to give you a fuller response regarding the position and regarding the economic future of the Conwy valley.

Mark Isherwood: Ni fyddwn yn ategu galwad Chris Franks am ddatganiad ar ddatganoli pwerau dros yr economi. Fodd bynnag, hoffwn alw am ddatganiad ar y drefn reoleiddio sy'n berthnasol i economi Cymru a sut y dylem fod yn cydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r perwyl hwnnw. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol wedi dweud bod system fancio'r Deyrnas Unedig yn fwy agored i'r farchnad is-fenthyca nag unrhyw un arall, gan gynnwys system yr Unol

overseas investments and partly because our sub-prime lenders have a share in court activity repossession that is 10 times their share in the marketplace.

My second point relates to the Welsh Affairs Select Committee's report on cross-border services, which was published last week. Will the Assembly Government find time for a statement or debate on this report? It states, for example, that:

'Clinicians and patients remain concerned ... that any further divergence could lead to problems in accessing cross-border services in the future.'

My main point is to call for an urgent statement on the announcement that Denbighshire County Council is proposing to close Hyfrydle, the 52-week residential facility for children on the autistic spectrum who attend Ysgol Plas Brondyffryn. The Assembly Government has given it support in the past, providing land and finance. Evidence was presented to the cross-party autism group in Llandudno last Friday that parents, governors, teachers and many key agencies, including the health services and the police, had not been party to any formal consultation process, which raises questions about the evidence base upon which this decision has been taken.

Carwyn Jones: What you say about the lack of consultation would have to be looked at. You say that you have received representations in that regard, and that would have to be clarified. However, this is a matter for Denbighshire. It bears full responsibility for the situation at Hyfrydle. It is for the council to determine and answer for any decision that it takes.

The Welsh Select Affairs Committee's report is a parliamentary report and a matter for Parliament. The Assembly Government does not intend to allocate Government time for a debate. You quote selectively from the report's conclusions.

Daleithiau. Mae hynny'n rhannol oherwydd ein buddsoddiadau tramor ac yn rhannol oherwydd bod gan ein his-fenthycwyr gyfran yng ngweithgaredd adfeddiannu'r llysoedd sydd 10 gwaith eu cyfran yn y farchnad.

Mae a wnelo fy ail bwynt ag adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar wasanaethau traws-ffiniol, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. A wnaiff Llywodraeth y Cynulliad ganfod amser ar gyfer datganiad neu ddadl ar yr adroddiad hwn? Mae'n dweud, er enghraifft, fod:

Clinigwyr a chleifion yn dal i bryderu ... y gallai unrhyw ddargyfeiredd pellach arwain at broblemau cael gwasanaethau traws-ffiniol yn y dyfodol.

Fy mhrif bwynt yw galw am ddatganiad brys ar y cyhoeddiad bod Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cau Hyfrydle, y cyfleuster preswyl 52 wythnos i blant ar y sbectrwm awtistig sy'n mynychu Ysgol Plas Brondyffryn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ei chefnogaeth yn y gorffennol, gan ddarparu tir a chyllid. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol yn Llandudno ddydd Gwener diwethaf nad oedd rhieni, llywodraethwyr, athrawon a llawer o asiantaethau allweddol, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd a'r heddlu, wedi'u cynnwys mewn unrhyw broses ymgynghori ffurfiol, sy'n codi cwestiynau am y dystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad hwn arni.

Carwyn Jones: Byddai'n rhaid edrych ar yr hyn a ddywedwch am y diffyg ymgynghori. Dywedwch fod pobl wedi dod atoch ynglŷn â hynny, a byddai'n rhaid cael eglurhad o hynny. Fodd bynnag, mater i Sir Ddinbych yw hyn. Hi sy'n gyfan gwbl gyfrifol am y sefyllfa yn Hyfrydle. Mater i'r cyngor yw penderfynu ac ateb dros unrhyw benderfyniad a wna.

Adroddiad seneddol a mater i Senedd y Deyrnas Unedig yw adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu neilltuo amser y Llywodraeth ar gyfer dadl. Yr ydych wedi dethol eich dyfyniadau o gasgliadau'r adroddiad.

I have no reason to dispute what you say about the UK banking market being particularly vulnerable because of the credit crunch. To my mind, that is a case for more rather than less regulation. Less regulation allows banks to behave even more recklessly. There is a case for ensuring that, in future, we have a set of rules in place—at a UK level or internationally—to ensure that banks do not over-reach themselves. The party opposite has a fundamental belief in the free market. I understand that. However, it is not appropriate then to criticise the UK Government in assisting Northern Rock. If the Conservatives had been in Government they would have done nothing. That is what the free market means. If you are Northern Rock, and you want support, you would get nothing at all, because that is the discipline of the free market. I take with a pinch of salt what George Osborne said about what the UK Government did with Northern Rock being wrong, as the heart of Conservative philosophy is to let those who fail, fail, and not to provide any support at all.

Janet Ryder: Denbighshire County Council voted this morning to close the facility at Hyfrydle. It was not a majority decision. However, it has been taken. Will you please ask your fellow Ministers—this is difficult, as it falls under both education and health and social services—to investigate the manner in which this decision has been taken? Parents who have children attending that unit were not consulted, staff who were taken on the week before to work in the unit were not consulted, and counties that had arranged for children to start there in September were not told until the middle of last week that that facility would no longer be available to them.

3.10 p.m.

It was obvious that that decision had been made before it even went to the cabinet of Denbighshire County Council. Could you ask your fellow Ministers to investigate how the county reached that decision and under what circumstances? Could you also ask them to

Nid oes gennyf ddim rheswm i amau'r hyn a ddywedwch ynghylch bod marchnad fancio'r Deyrnas Unedig yn arbennig o fregus oherwydd yr argyfwng credyd. I'm meddwl i, mae hynny'n achos dros fwy yn hytrach na llai o reoleiddio. Mae llai o reoleiddio'n caniatáu i fanciau ymddwyn yn fwy di-hid fyth. Mae achos dros sicrhau bod gennym set o reolau yn y dyfodol—ar lefel Brydeinig neu'n rhyngwladol—i sicrhau nad yw banciau'n gorymestyn. Mae gan y blaid gyferbyn gred sylfaenol yn y farchnad rydd. Yr wyf yn deall hynny. Fodd bynnag, nid yw'n briodol wedyn iddi feirniadu Llywodraeth y Deyrnas Unedig am gynorthwyo Northern Rock. Petai'r Ceidwadwyr mewn Llywodraeth ni fuasent wedi gwneud dim. Dyna beth yw ystyr y farchnad rydd. Os Northern Rock ydych chi, a bod arnoch eisiau cefnogaeth, ni chaech ddim o gwbl, oherwydd dyna ddisgyblaeth y farchnad rydd. Cymeraf gyda phinsiad o halen eiriau George Osborne fod yr hyn a wnaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda Northern Rock yn anghywir, gan mai calon athroniaeth Geidwadol yw gadael i'r rhai sy'n methu fethu, a pheidio â rhoi dim cymorth o gwbl.

Janet Ryder: Pleidleisiodd Cyngor Sir Ddinbych y bore yma dros gau'r cyfleuster yn Hyfrydle. Nid penderfyniad drwy fwyafrif ydoedd. Fodd bynnag, mae wedi'i wneud. A fydddech cystal â gofyn i'ch cyd-Weinidogion—mae hyn yn anodd, gan ei fod yn dod dan addysg a than iechyd a gwasanaethau cymdeithasol—ymchwilio i'r modd y gwnaethpwyd y penderfyniad hwn? Nid ymgynghorwyd â rhieni sydd â phlant yn mynychu'r uned honno, nid ymgynghorwyd â staff a gyflogwyd yr wythnos gynt i weithio yn yr uned, ac ni ddywedwyd wrth siroedd a oedd wedi trefnu i blant gychwyn yno ym mis Medi tan ganol yr wythnos diwethaf na fyddai'r cyfleuster hwnnw ar gael iddynt mwyach.

Yr oedd yn amlwg fod y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud cyn iddo fynd i gabinet Cyngor Sir Ddinbych o gwbl. A allech ofyn i'ch cyd-Weinidogion ymchwilio i sut y daeth y sir i'r penderfyniad hwnnw a than ba amgylchiadau? A allech ofyn iddynt hefyd

reflect on the considerable investment that the Assembly has made into this brand-new facility to create a centre for autism in north Wales? Could they issue written statements over the summer so that every Assembly Member can be kept up to speed on what actions they intend to take on this matter?

Carwyn Jones: I fully appreciate Members' concerns. I know that this has caused great concern locally. It is a matter entirely for Denbighshire, which must take responsibility for it. We all know of the great difficulties that have occurred there and no doubt this decision will not endear the council to the local population or to those who live further away from Denbighshire. The matter will be raised with the Ministers for education and health and I will ask them to examine what they can do to allay Members' fears.

Darren Millar: I would be grateful if you could make time for a statement at the earliest opportunity on the Government's position on the timing of the Post Office Ltd's consultation on the reorganisation of the network in north Wales. It seems to me, and to others, that there has been a deliberate attempt by the Post Office to undertake a consultation over the summer—a time when many will be distracted by the holiday period. The people of north Wales deserve to know what representations the Welsh Assembly Government has made on this matter to the Post Office.

Carwyn Jones: This is a matter for the Post Office. As we have said many times before, this issue has not been devolved. I understand that the consultation period has been extended over the summer to allow more people the opportunity to put forward their points of view.

Datganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008-09 Statement on the Welsh Assembly Government's Legislative Programme 2008-09

Y Prif Weinidog: Flwyddyn yn ôl, gosodwyd ein gweledigaeth yng nghytundeb 'Cymru'n Un' o Gymru wedi ei seilio ar egwyddorion o chwarae teg, lle mae pawb yn

fyfyrion ar y buddsoddiad sylweddol y mae'r Cynulliad wedi'i wneud yn y cyfleuster newydd sbon hwn i greu canolfan awtistiaeth yn y gogledd? A allent gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig dros yr haf fel y gall pob Aelod Cynulliad gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y bwriadant ei wneud ynglŷn â'r mater hwn?

Carwyn Jones: Yr wyf yn llawn sylweddoli pryderon Aelodau. Gwn fod hyn wedi peri pryder mawr yn lleol. Mater i Sir Ddinbych yn llwyr ydyw, a rhaid iddi hi gymryd y cyfrifoldeb amdano. Gwyddom i gyd am yr anawsterau mawr sydd wedi digwydd yno ac yn sicr ni wnaiff y penderfyniad hwn ddim i boblogeiddio'r cyngor ymysg y boblogaeth leol na rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o sir Ddinbych. Caiff y mater ei godi gyda'r Gweinidogion dros addysg ac iechyd a gofynnaf iddynt archwilio beth y gallant ei wneud i leddfu ofnau Aelodau.

Darren Millar: Byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud amser ar gyfer datganiad ar y cyfle cyntaf ynghylch safbwynt y Llywodraeth ar amseriad ymgynghoriad Swyddfa'r Post Cyf ar ad-drefnu'r rhwydwaith yn y gogledd. Mae'n ymddangos i mi, ac i eraill, y bu ymgais fwriadol gan Swyddfa'r Post i gynnal ymgynghoriad dros yr haf—adeg pan fydd sylw llawer o bobl wedi'i dynnu gan y gwyliau. Mae pobl y gogledd yn haeddu gwybod pa sylwadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u gwneud ar y mater hwn i Swyddfa'r Post.

Carwyn Jones: Mater i Swyddfa'r Post yw hwn. Fel yr ydym wedi dweud lawer gwaith o'r blaen, nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli. Deallaf fod y cyfnod ymgynghori wedi'i estyn dros yr haf i ganiatáu i fwy o bobl gael cyfle i gyflwyno'u safbwyntiau.

The First Minister: A year ago, we set out our vision in the 'One Wales' agreement with Wales being based on the principles of fair play, where everyone can live free from the

gallu byw heb ofn tlodi ac anfanteision eraill. Gwnaed addewid i fynd i'r afael ag achosion tlodi ac anfanteision eraill ac nid y symptomau yn unig.

Rhoddasom ymroddiad i ddatblygu atebion penodol ar gyfer Cymru i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant. Y prynhawn yma, gofynnir i chi gefnogi Gorchymyn ar blant o dan anfantais, sydd yn cynnwys elfennau o weithio yn erbyn tlodi plant. Os bydd cefnogaeth gan y Cynulliad, bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw'n mynd gerbron y Senedd yn San Steffan. Mae hwnnw'n gam sylweddol tuag at gael y pwerau y mae arnom eu hangen i fynd i'r afael â'r problemau hyn yng Nghymru.

Y cam rhesymegol dilynol fyddai datblygu Mesur—Deddf o ran statws os nad enw—er mwyn rhoi cefnogaeth gryfach i deuluoedd a phlant sy'n dioddef o dlodi. O dan hwnnw, bydd gofyniad ar bob asiantaeth neu gorff cyhoeddus i ddangos sut y maent yn gweithio yn erbyn tlodi plant, drwy, er enghraifft, darparu gofal plant rhad ac am ddim ac yn darparu gwasanaethau eraill i helpu yn ystod blynyddoedd cynnar ein plant.

Some of our most vulnerable people are children and young people. In the last legislative programme, we promised, and have now delivered, an LCO on additional learning needs. We now intend to develop a Measure to utilise these powers to extend the range of individuals who may appeal to the special educational needs Welsh tribunal. This will respond to a proposal by the late Children's Commissioner for Wales, Peter Clarke, and also gives practical expression to the UN Convention on the Rights of the Child by increasing the participation of young people in decisions that affect their education.

On older persons and other more dependent persons, 'One Wales' made clear our commitment to help people to be independent and to improve the care provided to vulnerable people by public, private and voluntary organisations. A key element of that agenda is to establish a fairer and more consistent approach to charging for non-

fear of poverty and other disadvantages. We gave a pledge to tackle the causes, not just the symptoms, of poverty and other disadvantages.

We made a commitment to develop specific solutions for Wales to tackle child poverty. This afternoon, you will be asked to support a legislative competence Order on disadvantaged children, which includes elements of counteracting child poverty. Subject to the Assembly's support, the legislative competence Order will then go before the Parliament in Westminster. This represents a significant step in gaining the powers that we need to tackle these issues in Wales.

The next rational step would be to develop a Measure—an Act in all but name—to provide greater support to children and families experiencing poverty. Under that Measure, each agency or public body will be required to show how they work to eradicate child poverty, for example, by providing free childcare and other services to assist children in the early years.

Plant a phobl ifanc yw rhai o'n pobl fwyaf bregus. Yn y rhaglen ddeddfwriaethol ddiwethaf, addawsom, ac yr ydym bellach wedi sefydlu, Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch anghenion dysgu ychwanegol. Yn awr bwriadwn ddatblygu Mesur i ddefnyddio'r pwerau hyn i ehangu'r amrediad o unigolion a gaiff apelio i'r tribiwnlys anghenion addysgol arbennig Cymreig. Bydd hyn yn ymateb i gynnig gan ddiweddar Gomisiynydd Plant Cymru, Peter Clarke, a hefyd yn rhoi mynegiant ymarferol i Gytuniad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant drwy gynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg.

O ran pobl hŷn a phobl eraill fwy dibynnol, amlinellodd 'Cymru'n Un' ein hymrwymiad i helpu pobl i fod yn annibynnol ac i wella'r gofal a roddir i bobl agored i niwed gan gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Elfen allweddol o'r agenda honno yw sefydlu agwedd decach a mwy cyson at y taliadau a godir am ofal cymdeithasol amhreswyl.

residential social care. We therefore intend to develop proposals for an Assembly Measure to use the powers we have successfully gained through the domiciliary care legislative competence Order to establish a level playing field for charges for specified services levied by local authorities.

In the wake of the Beecham report, we have made a lot of progress in encouraging local authorities and other public bodies to work together. Our aim is to have effective and joined-up community planning to deliver high-quality, citizen-centred local services for Wales. Early in the autumn, we expect to introduce a Measure for local government that will link wellbeing and community planning with service improvement.

A stock of good-quality affordable homes is the foundation stone of thriving local communities and family life in all parts of Wales. The affordable housing LCO is currently in its final stages of pre-legislative scrutiny and the formal draft is expected to be ready in the autumn. Subject to that legislative competence Order being approved, we intend to develop a Measure within this legislative programme to give local authorities the power to apply to Welsh Ministers to designate areas of housing pressure where the right to buy may be suspended for a limited period of time.

In the programme that I am outlining today, we are also seeking further powers for the Assembly, so that, as a Government, we will be able to bring forward future legislation to respond to the needs of the people of Wales. The legislative competence Orders in this programme are about acquiring the legislative powers that then give the Assembly the flexibility to decide how best to legislate to tackle those issues in Wales. We will bring forward to the Assembly legislative proposals that underpin that agenda.

The Government of Wales Act 2006 sets out new routes for backbench Members, as well

Felly, bwriadwn ddatblygu cynigion ar gyfer Mesur Cynulliad er mwyn defnyddio'r pwerau yr ydym wedi llwyddo i'w cael, drwy gyfrwng y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch gofal cartref, i sicrhau chwarae teg o ran y taliadau am wasanaethau penodedig a godir gan awdurdodau lleol.

Yn sgil adroddiad Beecham, yr ydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran annog awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i gydweithio. Ein nod yw sicrhau cynllunio cymunedol effeithiol a chydgyssylltiedig er mwyn darparu gwasanaethau lleol o safon uchel yng Nghymru a'r rheini'n canolbwyntio ar y dinesydd. Yn gynnar yn yr hydref, disgwyliwn gyflwyno Mesur ar gyfer llywodraeth leol a fydd yn cysylltu lles a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau.

Stoc o dai fforddiadwy o safon yw carreg sylfaen cymunedau lleol sy'n ffynnu a bywyd teuluoedd ym mhob cwr o Gymru. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch tai fforddiadwy wrthi'n mynd drwy gamau terfynol y craffu cyn deddfu a disgwyli'r drafft ffurfiol fod yn barod yn yr hydref. A bwrw y caiff y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw'i gymeradwyo, bwriadwn ddatblygu Mesur yn y rhaglen deddfu hon i roi'r pŵer i awdurdodau lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gael dynodi ardaloedd tai dan bwysau lle y gellir atal yr hawl i brynu am gyfnod cyfyngedig.

Yn y rhaglen yr wyf yn rhoi braslun ohoni heddiw, yr ydym hefyd yn ceisio rhagor o bwerau i'r Cynulliad, er mwyn inni, fel Llywodraeth, allu cyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol a fydd yn ymateb i anghenion pobl Cymru. Mae a wnelo'r Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol yn y rhaglen hon â chael y pwerau deddfu a fydd wedyn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu sut orau mae deddfu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny yng Nghymru. Byddwn yn cyflwyno cynigion deddfu i'r Cynulliad sy'n sail i'r agenda honno.

Yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, ceir llwybrau newydd sy'n galluogi Aelodau'r

as the frontbench, to bring forward legislative proposals. Where these contribute to the Government's agenda, we have been keen to work closely with Assembly Members to take their ideas forward. The discussions that have been held between the Deputy First Minister's office and Huw Lewis over provision of bus and coach services is a good example of this approach, as is Helen Mary Jones's legislative competence Order on carers, which will provide a platform for a full Government proposal in this field. Those are good examples of how Assembly Members can make a real difference in developing legislation that meets our specific needs. Wales has a higher proportion of people caring for others than any part of England, so we want to recognise and support the contribution made by Wales's unpaid carers. We intend to seek the powers, through a legislative competence Order, to legislate to provide support for carers by placing appropriate duties on public sector organisations.

The 'One Wales' programme gave prominence to celebrating Wales as a community of rich and diverse cultures. To support this, we intend to seek legislative powers for the Assembly in this area to develop Measures that place a statutory obligation on local authorities to promote culture and encourage partnership to deliver high-quality cultural experiences for their communities. This will put cultural services on a similar footing to other local authority statutory services. We hope that that will lead to improvements in provision across Wales. I think that it was the Reverend Eli Jenkins who once said, 'Praise the Lord! We are a musical nation'. We will be able to make that promise real in a way that I am sure you would have supported in your previous role in Newport, Deputy Presiding Officer, wanting the back-up for the cultural services that you made a reality, but without the statutory backing that we hope to provide.

We continue to provide support to make

meinciau cefn, yn ogystal â'r fainc flaen, gyflwyno cynigion deddfu. Lle'r oedd y rhain yn cyfrannu at agenda'r Llywodraeth, yr ydym wedi bod yn awyddus i gydweithio'n glos ag Aelodau'r Cynulliad i fwrw ymlaen â'u syniadau. Mae'r trafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a Huw Lewis ynglŷn â gwasanaethau bysiau a bysiau moethus yn enghraifft dda o'r dull hwn. Enghraifft arall yw Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol Helen Mary Jones ynghylch gofalwyr. Bydd hwnnw'n cynnig llwyfan ar gyfer cynnig llawn gan y Llywodraeth yn y maes hwn. Mae'r rheini'n enghreifftiau da o sut y gall Aelodau'r Cynulliad wneud gwahaniaeth go iawn wrth ddatblygu deddfwriaeth sy'n ateb ein hanghenion penodol. Mae cyfran fwy o bobl yng Nghymru'n gofalu am bobl eraill nag a welir mewn unrhyw ran o Loegr, felly yr ydym am gydnabod a chefnogi cyfraniad gofalwyr di-dâl Cymru. Yr ydym yn bwriadu ceisio'r pwerau i ddeddfu, drwy gyfrwng Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, er mwyn rhoi cymorth i ofalwyr, drwy bennu dyletswyddau priodol ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus.

Drwy raglen 'Cymru'n Un', rhoddwyd pwyslais ar ddatlu bod Cymru'n gymuned o ddiwylliannau cyfoethog ac amrywiol. Yn gefn i hyn, bwriadwn geisio pwerau deddfu ar gyfer y Cynulliad yn y maes hwn er mwyn datblygu Mesurau sy'n ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac annog partneriaeth er mwyn cynnig profiadau diwylliannol o safon i'w cymunedau. Bydd hyn yn golygu bod y gwasanaethau diwylliannol yn debyg o ran eu statws i wasanaethau statudol eraill awdurdodau lleol. Gobeithiwn y bydd hynny'n arwain at wella'r ddarpariaeth ledled Cymru. Credaf mai'r Parch Eli Jenkins a ddywedodd un tro, 'Praise the Lord! We are a musical nation'. Byddwn yn gallu gwireddu'r addewid hwnnw mewn modd yr wyf yn siŵr y byddech wedi'i gefnogi yn eich swyddogaeth flaenorol yng Nghasnewydd, Ddirprwy Lywydd, a chithau'n awyddus i gael cefnogaeth ar gyfer y gwasanaethau diwylliannol. Llwyddasoch i wireddu'ch cynlluniau, ond heb y gefnogaeth statudol y gobeithiwn ni ei darparu.

Yr ydym yn parhau i ddarparu cymorth er

Wales a prosperous society through enterprise and business growth, backed by enhanced skills for jobs. The success of our programmes in creating new jobs across Wales has also identified a shortage of skills at technical and paraprofessional levels. We therefore intend to seek legislative competence to enable the Assembly to legislate to provide for our further education institutions to have the power to award foundation degrees.

In agriculture, in order to be better able to promote and develop a specific sector, we will seek legislative powers over the red meat industry. This will give us a better ability to influence the future direction of the industry, increase efficiency, improve marketing and the ways in which it contributes to the sustainable development of Wales.

3.20 p.m.

I hesitate to say that the Assembly is getting used to the red meat of legislation, knowing that there are vegetarians among us who would not approve of that. However, they might approve of the idea that we are gradually obtaining our foundation degree as an Assembly, and as a law-making body representing a caring and cultural nation.

I believe that this announcement demonstrates that we are using the powers that the Assembly acquired as a legislature under the Government of Wales Act 2006. We are moving from the first legislative programme, for 2007-08, to the second, for 2008-09, and we are doing so in a way that reflects our wish to deliver practical benefits for the people of Wales. We have these two pipelines filling up with legislation—that is, the legislative competence Order pipeline on one side, which transfers powers from Westminster, with its permission, to enable us to legislate; and on the other side, having acquired that power, using that and other routes, we use it to make Measures, which are laws in all but name. We do not do that for the sake of making Measures, but for the sake of making a practical difference to the people of Wales.

mwyn gwneud Cymru'n gymdeithas sy'n ffynnu drwy gyfrwng menter a thwf busnesau, gyda gwell sgiliau ar gyfer swyddi'n gefn i hynny. Mae llwyddiant ein rhaglenni o ran creu swyddi newydd ledled Cymru hefyd wedi dangos bod prinder sgiliau ar lefel dechnegol ac ar lefel led-broffesiynol. Felly, bwriadwn geisio cymhwysedd deddfwriaethol er mwyn i'r Cynulliad allu deddfu fel y gall ein sefydliadau addysg bellach gael y pŵer i ddyfarnu graddau sylfaen.

Ym maes amaethyddiaeth, er mwyn inni allu hyrwyddo a datblygu sector penodol yn well, byddwn yn ceisio pwerau deddfu dros y diwydiant cig coch. Bydd hyn yn golygu y gallwn ddylanwadu'n well ar gyfeiriad y diwydiant yn y dyfodol, ei wneud yn fwy effeithlon, gwella'r marchnata a'r ffyrdd y mae'n cyfrannu at ddatblygu Cymru mewn modd cynaliadwy.

Petrusaf ddweud fod y Cynulliad yn dechrau cynefino â chig coch deddfwriaeth, gan wybod bod llysiuwyr yn ein plith na fyddent yn cymeradwyo hynny. Fodd bynnag, efallai y byddent yn cymeradwyo'r syniad ein bod yn graddol ennill ein gradd sylfaen fel Cynulliad, ac fel corff deddfu sy'n cynrychioli cenedl ddiwylliedig, llawn gofal.

Credaf fod y cyhoeddiad hwn yn dangos ein bod yn defnyddio'r pwerau a feddwyd gan y Cynulliad fel deddfwrfa dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr ydym yn symud o'r rhaglen deddfu gyntaf, ar gyfer 2007-08 i'r ail, ar gyfer 2008-09, ac yr ydym yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n dymuniad i sicrhau manteision ymarferol i bobl Cymru. Mae gennym y ddwy ffynnon hyn sy'n llenwi â deddfwriaeth—sef ffynnon y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar y naill law, sy'n trosglwyddo pwerau o San Steffan, gyda'i chaniatâd, er mwyn ein galluogi i ddeddfu; ac ar y llall, ar ôl inni gael y pŵer hwnnw, gan ddefnyddio'r llwybr hwnnw a llwybrau eraill, byddwn yn ei ddefnyddio i greu Mesurau, sef Deddfau, ym mhopeth ond enw. Nid creu Mesurau er mwyn creu Mesurau yr ydym, ond er mwyn gwneud gwahaniaeth ymarferol i bobl Cymru.

Today, we are showing how those pipelines are filling up with legislative competence Orders and Measures. This has been a learning curve for the Assembly as a scrutiny and legislative body, for us as Ministers and for our civil servants and lawyers as well. However, in following that steep learning curve, Wales is growing up as a nation, and this institution, which represents Wales, is growing up as a democratic, legislative body. Diolch yn fawr.

Nick Bourne: I thank the First Minister for his statement, laced as it was with similes and metaphors—some appropriate, some inappropriate. I have a few of my own, perhaps leaving Mike German with precious few on this occasion.

I noted the earlier question to the Leader of the House from Lesley Griffiths—it was interesting that the Labour Party was more interested in our policy, as an incoming Government, on the future of devolution than it was in the HMRC job losses. Does the First Minister feel that the development of devolution is a long-term process? Is he still on course to hold the referendum in 2011? Reading his statement, I have the distinct feeling that he regards devolution as very much long-term business, in terms of the legislative processes for LCOs and Measures. Perhaps he will deal with that at the outset.

Secondly, if he does regard this as a long-term process, and if he has not managed to hold the referendum by the time of the next election, is any work being undertaken by the present Labour Government at Westminster to streamline these legislative processes? I have been speaking with Cheryl Gillan, and she is looking at ways of improving joint working to streamline the current processes. The First Minister will be aware that some LCOs are stuck in the mud, although he did not much mention them in his statement; I will shortly come on to some of the dogs that did not bark.

There was no mention of the Welsh language LCO, which I find extraordinary given the

Heddiw, yr ydym yn dangos sut mae'r ffynhonnau hynny'n llenwi â Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a Mesurau. Mae'r llwybr hwn wedi bod yn ddringfa dysgu i'r Cynulliad fel corff craffu a chorff deddfu, i ni Weinidogion ac i'n gweision sifil a'n cyfreithwyr hefyd. Fodd bynnag, wrth ddilyn y ddringfa dysgu serth honno, mae Cymru'n aeddfedu fel cenedl, ac mae'r sefydliad hwn, sy'n cynrychioli Cymru, yn aeddfedu fel corff democrataidd sy'n deddfu. Diolch yn fawr.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad, gyda'i frodwaith o gymariaethau a throsiadau—rhai ohonynt yn briodol, eraill yn amhriodol. Mae gennyf ambell un fy hun, gan adael fawr ddim i Mike German y tro hwn, efallai.

Sylwais ar y cwestiwn cynharach i Arweinydd y Tŷ gan Lesley Griffiths—yr oedd yn ddiddorol bod gan y Blaid Lafur fwy o ddiddordeb yn ein polisi ni, a ninnau'n Llywodraeth yn yr arfaeth, ar gyfer dyfodol datganoli, nag yr oedd ganddi yn y swyddi a gollir yn swyddfeydd Cyllid a Thollau EM. A yw'r Prif Weinidog yn teimlo mai proses tymor hir yw datblygu datganoli? A yw'n dal ar drywydd cynnal y refferendwm yn 2011? Wrth ddarllen ei ddatganiad, caf y teimlad clir ei fod yn ystyried datganoli'n fusnes tymor hir i raddau helaeth iawn, o ran y prosesau deddfu ar gyfer Gorchmynion a Mesurau. Efallai y gwnaiff ymdrin â hynny i ddechrau.

Yn ail, os yw'n ystyried hyn yn broses tymor hir, ac os nad yw wedi llwyddo i gynnal y refferendwm erbyn yr etholiad nesaf, a oes unrhyw waith yn cael ei wneud gan y Llywodraeth Lafur bresennol yn San Steffan i symleiddio'r prosesau deddfu hyn? Yr wyf wedi bod yn siarad â Cheryl Gillan, ac mae'n edrych ar sut y gellid gwella'r cydweithio er mwyn symleiddio'r prosesau sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod rhai Gorchmynion wedi cloffi, er na chyfeiriodd fawr ddim atynt yn ei ddatganiad; deuaif yn ôl mewn munud at rai o'r cŵn nad oeddent yn cyfarth.

Nid oedd sôn am Orchymyn yr iaith Gymraeg, sydd yn rhyfeddol i mi, ac ystyried

importance attached to it in 'One Wales'. The words 'Welsh language' did not crop up in the statement at all. This LCO has been delayed time and again, and is now not mentioned. Given where we are on the Welsh language, and the perceived hurt of people in the Welsh-language community—first of all on the lack of backing for a Welsh-language daily newspaper, and then the lack of backing for a statutory right to free transport to Welsh-medium schools—this will feel like a further kick in the teeth. Indeed, it is a kick in the teeth for the whole nation, because both languages belong to all of us. Perhaps he will deal with that as my third point.

Fourthly—I notice that the Minister for Environment, Sustainability and Housing is here—he might like to deal with the environmental protection LCO, which also appears to be stuck in the mud. Without wanting to mix my metaphors, he said, when he introduced this process last year, that he was going for the Molly Malone approach—sometimes wide, sometimes narrow. As far as the environmental protection LCO is concerned, it seems that Molly Malone has been put on an enforced diet, and that the narrow approach is very much favoured at Westminster. Perhaps he will tell us about that, because there is a lack of information in the statement, and any information that we get seems to indicate difficulties.

I will now move on to some of the detail in his statement and, of course, the devil is often in the detail. We will be supporting any sensible Measure and, from what he said, the Measure on child poverty, which was promoted by the late great Peter Clarke, sounds like something that we would certainly want to be involved in and to improve. We have a similar attitude towards a consistent approach to charging for non-residential social care. Both David Melding and Jonathan Morgan have done much pioneering work on support for carers, so we will certainly be supporting that.

I also wish to say, in passing, that he did not

y pwysigrwydd a roddir iddo yn 'Cymru'n Un'. Ni chlywyd y geiriau 'yr iaith Gymraeg' yn ei ddatganiad o gwbl. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn wedi'i ohirio dro ar ôl tro, ac erbyn hyn, ni chaiff ei grybwyll hyd yn oed. Ac ystyried lle'r ydym arni o ran y Gymraeg, a'r ffaith bod pobl y gymuned Gymraeg ei hiaith, i bob golwg, wedi'u brifo—yn gyntaf yn sgil y diffyg cefnogaeth i bapur dyddiol Cymraeg, ac yna'r diffyg cefnogaeth i hawl statudol i gael cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg—bydd hyn yn teimlo fel ergyd arall. Yn wir, mae'n ergyd i'r genedl gyfan, oherwydd mae'r ddwy iaith yn eiddo inni i gyd. Efallai y gwnaiff ymdrin â hynny fel fy nhrydydd pwynt.

Yn bedwerydd—sylwaf fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yma—efallai yr hoffai ymdrin â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch diogelu'r amgylchedd, sydd hefyd i bob golwg wedi cloffi. Nid wyf am ddrysu fy nhrosiadau, ond dywedodd, pan gyflwynodd y broses y llynedd, ei fod yn bwriadu dilyn trywydd Molly Malone—weithiau'n llydan, weithiau'n gul. O ran Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch diogelu'r amgylchedd, mae Molly Malone i bob golwg wedi'i gorfodi i fynd ar ddeiet, a'r trywydd cul yw'r un a ffefrir i raddau helaeth yn San Steffan. Efallai y gwnaiff ddweud wrthym am hynny, oherwydd mae diffyg gwybodaeth yn ei ddatganiad, ac mae unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei chael i bob golwg yn awgrymu bod anawsterau.

Symudaf ymlaen yn awr at rai o'r manylion yn ei ddatganiad ac, wrth gwrs, yn y manylion yn aml iawn y mae'r cythraul. Byddwn yn cefnogi unrhyw Fesur synhwyrol, ac, o'r hyn a ddywedodd, mae'r Mesur tloidi plant, a hyrwyddwyd gan y diweddar wron Peter Clarke, yn sicr i'w weld yn rhywbeth y byddem am fod yn rhan ohono ac am ei wella. Agwedd debyg sydd gennym at geisio dull cyson o godi taliadau am ofal cymdeithasol amhreswyl. Mae David Melding a Jonathan Morgan ill dau wedi gwneud llawer o waith arloesol ym maes cymorth i ofalwyr, felly, byddwn yn sicr yn cefnogi hynny.

Hoffwn ddweud hefyd, wrth fynd heibio, na

mention the work on proposed LCOs and Measures undertaken by two prominent backbench Members—Jonathan Morgan and Ann Jones—which appears to have been overlooked. [*Interruption.*] I see that Ann Jones is now entering the Chamber, to applause from this side of the Chamber at least. That was a timely entrance. I have to say, in Ann's defence, that that was not scheduled; we had not organised that.

Two other Measures that we will certainly be supporting relate to the red meat industry and to the awarding of foundation degrees, both of which—on the face of it, at least—look very sensible. However, as I have said to the First Minister, the devil will be in the detail.

I have another question on the cultural LCO that he mentioned and the Measures that may follow that. Possible legislation to place a statutory duty to promote culture on local authorities certainly seems sensible, but, again, there is no mention of the Welsh language. I hope that that it is going to be part of that duty. It seems extraordinary that it has not been mentioned. I do not know whether Plaid Cymru had seen this statement in advance, but I cannot believe that the Deputy First Minister would have let that one go through his hands. He is a keen cricketer and I would have thought that he would have seen this statement and seen some of the dangers here.

Lastly, I will ask the First Minister about the Measure that he talked about for local government, which may or may not be sensible, but it does require some scrutiny. The phrase 'citizen-centred local services for Wales' begs the question: what are they now? What does it mean when he says that it will link wellbeing and community planning with service improvement? It sounds a bit jargonistic. I wonder whether he has any more details about what that will mean in more precise terms, down to the brass tacks, so that we can look at that.

soniodd am y gwaith ar y Gorchmynion a'r Mesurau y mae dau Aelod amlwg ar y meinciau cefn—Jonathan Morgan ac Ann Jones—wedi ymgymryd ag ef, gwaith sydd i bob golwg wedi'i anghofio. [*Torri ar draws.*] Gwelaf fod Ann Jones yn dod i mewn i'r Siambr yn awr, ac yn cael ei chymeradwyo gan yr Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr o leiaf. Ar y gair. Rhaid imi ddweud, er amddiffyn Ann, nad oedd hynny'n fwriadol; nid oeddem wedi trefnu hynny.

Dau Fesur arall y byddwn yn sicr yn eu cefnogi yw'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant cig coch ac â dyfarnu graddau sylfaen, gan fod y ddau ohonynt—ar y wyneb, o leiaf—i'w gweld yn synhwyrol iawn. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi'i ddweud wrth y Prif Weinidog, yn y manylion y bydd y cythraul.

Mae gennyf gwestiwn arall ynglŷn â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch diwylliant y cyfeiriodd ato a'r Mesurau a all ddilyn hwnnw. I bob golwg, mae'n sicr yn synhwyrol ystyried deddfwriaeth a fyddai'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant. Ond, unwaith eto, nid oes sôn am y Gymraeg. Gobeithiaf fod hynny'n mynd i fod yn rhan o'r ddyletswydd honno. Mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn nad oes sôn wedi bod am yr iaith. Ni wn a oedd Plaid Cymru wedi gweld y datganiad hwn ymlaen llaw, ond ni allaf gredu y byddai'r Dirprwy Brif Weinidog wedi gadael i hynny lithro drwy ei ddwylo. Mae'n gricedwr brwd a byddwn wedi meddwl y byddai wedi gweld y datganiad hwn a gweld rhai o'r peryglon sydd yma.

Yn olaf, gofynnaf i'r Prif Weinidog am y Mesur y soniodd amdano ar gyfer llywodraeth leol, a all fod yn synhwyrol neu beidio, ond mae angen tipyn o graffu arno. Mae'r ymadrodd 'gwasanaethau lleol ar gyfer Cymru a'r rheini'n canolbwyntio ar y dinesydd' yn codi'r cwestiwn; pa fath o wasanaethau sydd gennym yn awr? Beth mae'n ei olygu pan ddywed y bydd yn cysylltu lles a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau? Braidd yn jargonllyd, yn ôl pob golwg. Tybed a oes ganddo fwy o fanylion o gwbl am yr hyn y bydd hynny'n ei olygu'n fwy penodol, o safbwynt ymarferol,

I thank the First Minister for some of the content of his statement. As I said, we need some of the background on the transitional period—if it still is a transitional period. Are we looking at the streamlining of procedures? Perhaps I might have some detailed answers on those points that I have touched upon.

The First Minister: I thank the leader of the opposition, Nick, for the tone of his remarks. On the question of whether this is a long-term project, I do not know what the definition of 'long term' is. This is the way in which we are learning how to legislate. There could be a school of thought that said, 'Let us make sure that this is a hopeless failure because that, in a way, makes the case for a referendum, because a referendum on primary legislative powers would show that you would then have a much more simple method, with Scottish-style powers, and we would not need to ask Westminster for the transfer of powers'. I have never seen it that way.

I think that we, as an Assembly—as a scrutiny and legislative body—and as a Government, and civil servants, stakeholders out there who will be directly affected by the legislation and the lawyers who are going to be advising us on how to write these laws, all need to learn the game. That is why I emphasised that we are in our apprenticeship or foundation-degree stage, as an Assembly. We are completing year 1 and, today, we are kicking off year 2 and we are learning the game. We are still in our infancy as a legislative body. Therefore, the faster that we move up that learning curve, the stronger—not the weaker—the case will be for a referendum on full legislative powers. It should be based on the successful use of the powers in the Government of Wales Act 2006, not on the lack of success of using those powers.

On streamlining, I very much welcome what you said about work being done by Cheryl Gillan. I will talk to Paul Murphy, the Secretary of State, to learn what she has been offering by way of streamlined powers in Westminster. The more legislative competence Orders that we introduce, the

er mwyn inni edrych ar hynny.

Diolchaf i'r Prif Weinidog am rywfaint o gynnwys ei ddatganiad. Fel y dywedais, mae angen rhywfaint o gefndir y cyfnod pontio arnom—os yw'n dal yn gyfnod pontio. A ydym yn ystyried symleiddio'r prosesau? Efallai y caf ychydig o atebion manwl ynglŷn â'r pwyntiau hynny yr wyf wedi'u crybwyll.

Y Prif Weinidog: Diolchaf i arweinydd yr wrthblaid, Nick, am nawws ei sylwadau. O ran ai prosiect tymor hir yw hwn ai peidio, ni wn sut y diffinnir 'tymor hir'. Dyma sut yr ydym yn dysgu sut mae deddfu. Efallai y byddai un ysgol yn dweud, 'Gadewch inni sicrhau bod hyn yn methu'n anobeithiol, oherwydd, mewn ffordd, bydd hynny'n ddadl o blaid refferendwm, oherwydd byddai refferendwm ynglŷn â phwerau deddfu sylfaenol yn dangos y byddai gennych wedyn ddull llawer symlach, gyda phwerau tebyg i rai'r Alban, ac ni fyddai angen inni ofyn i San Steffan drosglwyddo pwerau'. Nid felly yr wyf fi wedi gweld pethau erioed.

Credaf ein bod ni, fel Cynulliad—fel corff craffu a deddfu—ac fel Llywodraeth, a gweision sifil, ac fel rhanddeiliaid yn y byd mawr yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y ddeddfwriaeth a'r cyfreithwyr a fydd yn ein cynghori ynglŷn â sut mae llunio'r deddfau hyn, i gyd yn gorfod dysgu'r gêm. Dyna pam y pwysleisiais ein bod yn brentisiaid neu'n gwneud ein gradd sylfaen, fel Cynulliad. Yr ydym yn cwblhau blwyddyn 1, a heddiw, yr ydym yn rhoi cychwyn ar flwyddyn 2 ac yr ydym yn dysgu'r gêm. Yr ydym yn dal yn ein babandod fel corff deddfu. Felly, cyflymaf y dringwn y ddringfa dysgu honno, cryfaf—nid gwanaf—y bydd y ddadl o blaid refferendwm ynglŷn â phwerau deddfu llawn. Dylid ei seilio ar ein llwyddiant i ddefnyddio'r pwerau a roddir drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid ar ein methiant i ddefnyddio'r pwerau hynny.

O ran symleiddio, croesawaf yn fawr yr hyn a ddywedasoch am y gwaith y mae Cheryl Gillan yn ei wneud. Caf sgwrs â Paul Murphy, yr Ysgrifennydd Gwladol, i gael gwybod beth y mae hi wedi bod yn ei gynnig o ran symleiddio'r pwerau yn San Steffan. Po fwyaf o Orchmynion cymhwysedd

more scrutiny that is required by the Welsh Affairs Select Committee. That committee has to be able to schedule that work and it has other jobs to do, as well as helping us with or scrutinising our legislative competence Orders. So, there is a job in that, in that we have to fit our timetable in with Westminster's timetable.

You mentioned that some LCOs seem to be stuck in the slow lane. You are absolutely right about the Welsh-language legislative competence Order; that has proved to be more complicated than we thought it would be. I said, this time last year, when we introduced the first programme based on the Government of Wales Act 2006, that we hoped to get the listed volume of work done, but sometimes that work proves more complex than expected.

3.30 p.m.

It proves more complex because, when the civil servants and the lawyers get stuck into it, there is simply more work to be done. In some cases, it is better to spend an extra few months getting it right. We know what faulty legislation can do, and I have passed some myself by raising my hand in the House of Commons in the old days. The Dangerous Dogs Act 1991, for example, was made in haste and repented at leisure. We do not want to make the same mistakes.

If we went along too hastily and got it wrong, as a legislative body in its early years, we might not recover from the blow to our reputation. It would be much more serious than if Parliament, having legislated for 1,000 years, got something wrong, because people would just say, 'Okay, do better next time'. If we got it wrong, the reputational hit would be that much worse, given our newness to this process.

However, you are right about the Welsh

deddfwriaethol a gyflwynwn, mwyaf o graffu y bydd ei angen gan y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig. Rhaid i'r pwyllgor hwnnw allu amserlennu'r gwaith hwnnw ac mae ganddo dasgau eraill i'w gwneud, yn ogystal â'n cynorthwyo ni gyda'n Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol neu graffu arnynt. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef, sef ei bod yn rhaid inni drefnu'n hamserlen i gydweddu ag amserlen San Steffan.

Soniasoch fod ambell Orchymyn i bob golwg yn cloffi yn y lôn araf. Yr ydych yn gwbl gywir am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch yr Iaith Gymraeg; mae hwnnw, fel mae'n digwydd, yn fwy cymhleth nag yr oeddem wedi'i dybio. Dywedais, yr adeg hon y llynedd, pan gyflwynwyd y rhaglen gyntaf a oedd wedi'i seilio ar Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ein bod yn gobeithio cwblhau'r rhestr gwaith, ond weithiau, mae'r gwaith hwnnw'n fwy cymhleth na'r disgwyl.

Mae'n gymhlethach oherwydd, yn syml iawn, pan mae'r gweision sifil a'r twrneiod yn mynd i'r afael â hyn mae mwy o waith i'w wneud. Mewn rhai achosion, mae'n well treulio ychydig fisoedd yn rhagor yn cael pethau'n iawn. Gwyddom beth y gall deddfwriaeth ddiffygiol ei wneud, ac yr wyf wedi pasio ambell un fy hun drwy godi fy llaw yn Nhŷ'r Cyffredin yn yr hen ddyddiau. Cafodd Deddf Cŵn Peryglus 1991, er enghraifft, ei llunio ar frys, a daeth brychau i'r golwg bob yn dipyn. Nid oes arnom eisiau gwneud yr un camgymeriadau.

Petaem yn symud ymlaen yn rhy gyflym ac yn gwneud camgymeriad, fel corff deddfwriaethol yn ei flynyddoedd cynnar, mae'n bosibl y byddai'r ergyd i'n henw da'n ormod inni. Byddai'n llawer mwy difrifol na phetai'r Senedd, sydd wedi bod yn deddfu ers 1,000 o flynyddoedd, yn gwneud camgymeriad. Y cyfan a ddywedid bryd hynny fyddai, 'Iawn, gwnewch yn well y tro nesaf'. Petaem ni'n gwneud camgymeriad, byddai'r ergyd i'n henw da gymaint yn waeth, gan fod y broses hon yn newydd i ni.

Fodd bynnag, yr ydych yn llygad eich lle

language LCO. There is a Welsh phrase, *ar y gweill*, which means ‘on the knitting needles’, and the Welsh language LCO is still resting on the knitting needles or is still being knitted, as it were. It has proved more complicated than we expected. You also mentioned the environment legislative competence Order. We still hope to make progress by November, but you are right to say that the negotiations on that are stickier than those on almost any other legislative competence Orders that I can think of. However, we still hope to solve those problems over the next few months.

I am very pleased with what you said about the child poverty Measure, which we will be bringing forward, as well as the support for the carers, red meat, and foundation degree legislative competence Orders. You mentioned certain backbenchers; for reasons of time, I cannot cover every single one of the eight or nine Member proposed LCOs or Measures that have won different ballots. I picked out two, but you should not assume anything about the other six from that.

You asked for some assistance on the meaning of the phrase ‘citizen-centred services’. I suppose that it is a fair criticism to say that it sounds jargonistic. You may be right, and maybe we should accept that, but that is always the difficulty with legislation. I cannot think of any legislation that is easy to explain, other than really stupid legislation such as the Dangerous Dogs Act, which I voted for—but then again, perhaps that is the exception that proves the rule. It was easy to explain, but it was rubbish legislation.

‘Citizen-centred public services’ are meant to be about the implementation of the Beecham reforms. If the citizen requires services delivered in such a way as to require the input of a certain section of local government, the health service, and the police service, or perhaps the further education

yn glŷn â Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yr iaith Gymraeg. Mae’r Gorchymyn hwn yn dal ar y gweill, neu’n dal i gael ei wau, os ydych yn meddwl am hynny’n llythrennol. Mae wedi bod yn gymhlethach na’r disgwyl. Cyfeiriasoch hefyd at Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yr amgylchedd. Yr ydym yn dal i obeithio gwneud cynnydd erbyn mis Tachwedd, ond yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod y trafodaethau ynglŷn â hynny yn anos na’r trafodaethau a gafwyd ynglŷn ag unrhyw Orchymynion cymhwysedd deddfwriaethol eraill y gallaf feddwl amdanynt. Fodd bynnag, yr ydym yn dal i obeithio datrys y problemau hynny yn ystod y misoedd nesaf.

Mae’r hyn a ddywedasoch ynglŷn â’r Mesur tlodi plant, y byddwn yn ei gyflwyno, yn ogystal â’r gefnogaeth i’r Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol sy’n ymwneud â gofalwyr, cig coch a graddau sylfaen yn fy mhlesio’n fawr. Cyfeiriasoch at rai meincwyr cefn; mae amser yn brin, felly ni allaf ymdrin â phob un o’r wyth neu naw Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol neu Fesur arfaethedig gan Aelod sydd wedi ennill gwahanol bleidleisiau. Dewisais ddau, ond ni ddylech wneud unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â’r chwech arall ar sail hynny.

Gofynasoch am rywfaint o gymorth ynglŷn ag ystyr yr ymadrodd ‘gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar y dinesydd’. Mae’n debyg bod dweud ei fod yn swnio’n dipyn o jargon yn feirniadaeth deg. Mae’n bosibl eich bod yn iawn, ac efallai y dylem dderbyn hynny, ond dyna’r anhawster bob amser gyda deddfwriaeth. Ni allaf feddwl am unrhyw ddeddfwriaeth sy’n hawdd ei hegluro, ar wahân i ddeddfwriaeth wirioneddol ynfyd fel y Ddeddf Cŵn Peryglus, y pleidleisiais o’i phlaid—ac eto, efallai mai dyna’r eithriad sy’n brawf ar y rheol. Yr oedd yn hawdd i’w hegluro, ond yr oedd yn ddeddfwriaeth dda i ddim.

Mae ‘gwasanaethau cyhoeddus sy’n canolbwyntio ar y dinesydd’ i fod i ymwneud â gweithredu diwygiadau Beecham. Os yw’r dinesydd yn disgwyl i wasanaethau gael eu cyflenwi mewn ffordd lle mae angen mewnbyn gan ran benodol o lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, a gwasanaeth yr

college, and so on, that is what should be done. We should ignore the boundaries, because we have the backing to get on with things. They could be the boundaries between two or three local authority areas, for instance, or those between local government, the social care element of the health service, and the police to deliver whatever is required, in crime reduction terms, to produce safer communities. Therefore, this is about trying to get people to think less about turf warfare and traditional geographical boundaries and just to think of the citizen. If the citizen needs it, get on with it and do it.

Alun Davies: It is appropriate that this statement is being made this afternoon, just a week after the first Welsh law for 1,000 years was passed. We should celebrate that. Like many others, I will be looking to see how this statement affects and impacts on the everyday lives of people, including those in the Mid and West Wales region that I represent. I welcome the fact that this Government is using its new powers creatively and imaginatively, looking for LCOs and Measures to implement Labour's manifesto commitments.

I particularly welcome the proposal to pass legislation on the right to buy, child poverty, local services, care, and special educational needs. I welcome the fact that you are looking for additional powers to support the needs of carers and that you are providing for a new culture duty, again, implementing Labour's manifesto commitments. All these issues will have an impact on the quality of life of the people whom I represent in mid Wales and those across the country. I hope, First Minister, that you can assure us all this afternoon that you will continue to place social justice and sustainable economic growth at the centre of your legislative programme.

heddlu, neu efallai'r coleg addysg bellach, ac yn y blaen, dyna beth y dylid ei wneud. Dylem anwybyddu'r ffiniau, oherwydd yr ydym wedi cael cefnogaeth i symud ymlaen gyda phethau. Gallent fod yn ffiniau rhwng dwy neu dair ardal awdurdod lleol, er enghraifft, neu'n ffiniau rhwng llywodraeth leol, elfen gofal cymdeithasol y gwasanaeth iechyd, a'r heddlu er mwyn cyflenwi beth bynnag y mae angen ei gyflenwi, o ran gostwng troseddu, er mwyn creu cymunedau diogelach. Felly, mae hyn yn ymwneud â cheisio cael pobl i beidio â meddwl cymaint am gecru ynglŷn â thiriogaeth a ffiniau daearyddol traddodiadol, a meddwl yn hytrach am y dinesydd. Os oes ar y dinesydd angen rhywbeth, ewch yn eich blaen a gweithredwch.

Alun Davies: Mae'n briodol bod y datganiad hwn yn cael ei wneud y prynhawn yma, wythnos yn unig ar ôl pasio'r deddf Gymreig gyntaf ers 1,000 o flynyddoedd. Dylem ddathlu hynny. Fel llawer o rai eraill, byddaf yn ceisio gweld sut y mae'r datganiad hwn yn effeithio ac yn dylanwadu ar fywydau bob dydd pobl, gan gynnwys y rhai hynny yn y rhanbarth yr wyf fi'n ei gynrychioli, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth hon yn defnyddio'i phwerau newydd yn greadigol, yn defnyddio'i dychymyg, ac yn chwilio am Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a Mesurau i weithredu ymrwymadau maniffesto Llafur.

Croesawaf yn arbennig y cynnig i basio deddfwriaeth yn ymwneud â'r hawl i brynu, tloidi plant, gwasanaethau lleol, gofal, ac anghenion addysgol arbennig. Yr wyf yn falch eich bod yn awyddus i gael pwerau ychwanegol i gefnogi anghenion gofalwyr a'ch bod yn darparu ar gyfer dyletswydd ddiwylliant newydd, unwaith eto, gan weithredu ymrwymadau maniffesto Llafur. Bydd yr holl faterion hyn yn effeithio ar ansawdd bywyd y bobl yr wyf yn eu cynrychioli yn y canolbarth a phobl ar hyd a lled y wlad. Yr wyf yn gobeithio, Brif Weinidog, y gallwch sicrhau pob un ohonom y prynhawn yma y bydd cyfiawnder cymdeithasol a thwf economaidd cynaliadwy yn dal i gael lle canolog yn eich rhaglen deddfwriaethol.

The First Minister: I am grateful for those remarks. You referred to the NHS Redress (Wales) Measure 2008 becoming law, but we have to get used to the fact that it carries the title 'Measure'. In Parliament, when something ceases to be a Bill, it has a name change: it becomes an Act. In the case of Measures, which are our equivalent laws, they do not. They start off as Measures and, once they are passed by the Privy Council, they continue to be called Measures, but they are Acts in all but name. I felt that we should have a lap of honour when the Privy Council announced last week that the NHS Redress (Wales) Measure had become a fully fledged Act in all but name, because it was the first law to be made in Wales for maybe 1,000 years, although we cannot be precise about that.

On how many people the Measure affects directly, it is very few, because 99.9 per cent of people who receive services from the NHS do not want redress, as they are happy with their treatment or with the initial complaints procedure. However, for the 0.1 per cent of people who are not happy, it will have a big impact because it simplifies their ability to seek redress. It is the same with the additional learning needs LCO. It affects a relatively small number of people, but it makes a huge difference to those people whom it does affect, because it gives them new legal rights. It gives children the right, as per the UN convention on the rights of the child, to take their case to a special educational needs tribunal.

Therefore, the theme of today's statement is using the new legislative powers to make a practical difference to a wide range of people, with particular emphasis on the more disadvantaged in society. The emphasis is on tackling child poverty or on general disadvantage, and on trying to promote the principle that I mentioned at the beginning of my remarks, namely a Wales based on *chwarae teg*—on the principle of fair play.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar am y sylwadau hynny. Cyfeiriasoch at Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 yn dod yn gyfraith, ond rhaid inni ddod i arfer â'r ffaith mai'r teitl 'Mesur' sydd ganddo. Yn y Senedd, pan mae rhywbeth yn gorffen bod yn Fesur, newidir ei enw: daw'n Ddeddf. Yn achos Mesurau, sef yr hyn sy'n cyfateb i gyfreithiau gennym ni, nid yw hynny'n digwydd. Maent yn dechrau fel Mesurau ac, ar ôl iddynt gael eu pasio gan y Cyfrin Gyngor, maent yn dal i gael eu galw'n Fesurau, ond maent yn Ddeddfau ym mhob ond ond enw. Teimlwn fod gennym le i ddathlu yr wythnos diwethaf pan gyhoeddodd y Cyfrin Gyngor bod y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) wedi dod yn Ddeddf gyflawn ym mhopeth ond enw, gan mai hon oedd y gyfraith gyntaf i gael ei gwneud yng Nghymru ers 1,000 o flynyddoedd o bosibl, er na allwn nodi hynny'n fanwl gywir.

O ran nifer y bobl y mae'r Mesur yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, nid yw'n llawer iawn, oherwydd nid yw 99.9 y cant o'r bobl sy'n cael gwasanaethau gan y GIG wedi cael cam. Maent yn fodlon â'u triniaeth neu â'r drefn gwyno gychwynnol. Fodd bynnag, bydd y Mesur yn cael effaith fawr ar y 0.1 y cant nad ydynt yn fodlon â'r gwasanaethau, oherwydd bydd yn haws iddynt sicrhau cyfiawnder. Mae'r un peth yn wir am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n effeithio ar nifer cymharol fach o bobl, ond mae'n gwneud gwahaniaeth aruthrol i'r bobl hynny y mae'n effeithio arnynt, oherwydd mae'n rhoi hawliau cyfreithiol newydd iddynt. Mae'n rhoi'r hawl i blant, yn unol â chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, fynd â'u hachos i dribiwnlys anghenion addysgol arbennig.

O ganlyniad, thema'r datganiad a wnaethpwyd heddiw yw defnyddio'r pwerau deddfwriaethol newydd i wneud gwahaniaeth ymarferol i ystod eang o bobl, gyda phwyslais penodol ar y bobl sydd dan yr anfantais fwyaf yn ein cymdeithas. Mae'r pwyslais ar fynd i'r afael â thlodi plant, neu ar anfantais yn gyffredinol, ac ar geisio hybu'r egwyddor y cyfeiriais ati ar ddechrau fy sylwadau, sef Cymru sy'n seiliedig ar

We want to help those who are lagging behind in accessing their rights or prosperity, and make them fully fledged members of the new Wales that we are seeking to create.

David Melding: First Minister, I reacted to your statement with one cheer and two moans, but let me start with the cheer. This is an historic process, albeit a flawed one. However, it is about the National Assembly making Welsh laws in Wales. We all sense that something significant is happening, and it would be churlish not to acknowledge that. You have been quite candid about some of the things that you intend to do as a Government, and they will receive a level of cross-party support, as is appropriate.

Moving on to my reservations, I will be neutral about the Measure that will promote joint working or ‘citizen-centred services’ until I see the detail, but if it is to create a duty for public bodies to co-operate I remind you that such a duty already exists, so quite what you intend to do in addition will be scrutinised carefully. However, it is certainly a challenge to get public authorities to work together effectively. It was probably one of the biggest challenges that we faced 20 years ago in improving public services. It remained a challenge 10 years ago, and it remains one even today. If there is some formula in this Measure, I would welcome it.

I suggest that the private sector, particularly small and medium-sized enterprises, be remembered in any legislation on promoting business so that they can apply for smaller contracts or bigger contracts broken down. Perhaps this could be a vehicle for us to take a good look at our procurement process, not to fix the system so that we do not have European competition or whatever, but to invigorate and allow our SME sector to grow. If we have a large public sector—as we do, proportional to most other regions—we can

chwarae teg. Yr ydym yn awyddus i helpu pobl nad ydynt yn defnyddio’u hawliau’n llawn, neu sy’n llai ffodus, a’u gwneud yn aelodau cyflawn o’r Gymru newydd yr ydym yn ceisio’i chreu.

David Melding: Brif Weinidog, ymatebais i’ch datganiad ag un gymeradwyaeth a dwy gŵyn, ond gadewch imi ddechrau gyda’r gymeradwyaeth. Mae hon yn broses hanesyddol, er bod iddi ddiffygion. Fodd bynnag, mae’n ymwneud â’r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud cyfreithiau Cymreig yng Nghymru. Mae pob un ohonom yn synhwyro bod rhywbeth pwysig yn digwydd, a pheth anfoesgar fyddai peidio â chydabod hynny. Yr ydych wedi bod yn bur ddidwyll ynglŷn â rhai o’r pethau yr ydych yn bwriadu eu gwneud fel Llywodraeth, a byddant yn cael rhyw gymaint o gefnogaeth drawsbleidiol, fel sy’n briodol.

Gan symud ymlaen at fy nghwynion, byddaf yn ddiuedd ynglŷn â’r Mesur a fydd yn hybu cydweithio neu ‘wasanaethau sy’n canolbwyntio ar y dinesydd’ nes gwelaf y manylion. Fodd bynnag, os yw’n mynd i greu dyletswydd i gyrff cyhoeddus gydweithio, rhaid imi eich atgoffa bod dyletswydd o’r fath yn bodoli’n barod. O ganlyniad, byddwn yn craffu’n ofalus ar union fanylion yr hyn y bwriadwch ei wneud yn ychwanegol at hynny. Fodd bynnag, mae cael awdurdodau cyhoeddus i weithio gyda’i gilydd yn effeithiol yn sicr yn her. Mae’n debyg mai hon oedd un o’r heriau mwyaf yr oeddem yn ei hwynebu 20 mlynedd yn ôl wrth geisio gwella gwasanaethau cyhoeddus. Yr oedd yn dal yn her 10 mlynedd yn ôl, ac mae’n dal yn her heddiw hyd yn oed. Os oes rhyw fformiwla yn y Mesur hwn, byddwn yn ei chroesawu.

Awgrymaf y dylid cofio am y sector preifat, yn enwedig busnesau bach a chanolig, mewn unrhyw ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â hybu busnes er mwyn iddynt allu ymgeisio am gontractau llai neu gontractau mwy wedi eu rhannu’n llai. Efallai y gallai hyn fod yn ffordd inni edrych o ddifrif ar ein proses gaffael, peidio ag addasu’r system fel nad oes gennym gystadleuaeth Ewropeaidd neu beth bynnag, ond bywiogi’n sector busnesau bach a chanolig a chaniatáu iddo dyfu. Os oes gennym sector cyhoeddus mawr—fel sydd

use it for economic regeneration if we use the spending of that sector in a clever fashion that stimulates other parts of the economy.

My second moan is on affordable homes. The Wales Office Minister, Huw Irranca-Davies, was right to say that ending the right to buy is no magic bullet, and I want to see something more expansive. We know about the economic difficulties that we are likely to face, and we know that the construction industry is likely to suffer contraction, so now would be the time to look at the planning system and to modify it, to give communities the power to endorse social housing programmes, to agree to areas of land being made available, and to use the spare capacity in the construction industry to build those homes. Let us do something that is, literally, constructive and forward-looking, rather than try to turn the clock back on a piece of legislation that even pre-dated 1979 in some respects. I do not think that that is the right way to go.

3.40 p.m.

The First Minister: Thank you for your one cheer, David. To clarify, you may have a view about the local government Measure, but our view is that we do not have sufficient legal back-up to require the partners in a local service agreement to work together to deliver greater wellbeing. We hope to introduce that particular Measure early, and we hope that a committee can be established shortly after the Assembly returns from the summer recess to begin the scrutiny of that Measure. You can make those detailed points then about your belief that that duty already exists, but we do not think that it does—or at least not to a sufficient degree. When we bring forward Measures, perhaps having to be preceded by legislative competence Orders in the previous year, it may be because a bit of law exists, but the lawyers say that we do not really have a strong back-up for what we are trying to do, and so it would be far better if that law were properly codified, brought up to date, and made a bit broader. Then, no-one could be in

gennym, o'i gymharu â'r rhan fwyaf o'r rhanbarthau eraill—gallwn ein helpu i adfywio'r economi os defnyddiwn wariant y sector hwnnw mewn ffordd ddeheuig sy'n ysgogi rhannau eraill o'r economi.

Mae fy ail gŵyn yn ymwneud â chartrefi fforddiadwy. Yr oedd y Gweinidog o Swyddfa Cymru, Huw Irranca-Davies, yn llygad ei le pan ddywedodd nad yw dileu'r hawl i brynu'n ateb syml, a hoffwn weld rhywbeth ehangach. Gwyddom am yr anawsterau economaidd yr ydym yn debygol o'u hwynebu, a gwyddom fod y diwydiant adeiladu'n debygol o grebachu, felly dyma pryd y dylem fod yn edrych ar y system gynllunio ac yn ei haddasu, er mwyn galluogi cymunedau i gymeradwyo rhaglenni tai cymdeithasol, i gytuno i ryddhau darnau o dir, ac i ddefnyddio'r capasiti dros ben yn y diwydiant adeiladu er mwyn adeiladu'r cartrefi hynny. Gadewch inni wneud rhywbeth sydd, yn llythrennol, yn adeiladol ac yn edrych tua'r dyfodol, yn hytrach na cheisio troi'r cloc yn ôl ar ddarn o ddeddfwriaeth yr oedd rhai agweddau arni'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn 1979 hyd yn oed. Nid wyf yn credu mai dyna'r cyfeiriad cywir i anelu ato.

Y Prif Weinidog: Diolch ichi am yr un gymeradwyaeth, David. Er mwyn gwneud pethau'n gliriach, efallai fod gennych chi farn ynglŷn â'r Mesur llywodraeth leol, ond ein barn ni yw nad oes gennym ddigon o gefnogaeth gyfreithiol i'w gwneud yn ofynnol i'r partneriaid mewn cytundeb gwasanaeth lleol weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella lles pobl. Yr ydym yn gobeithio cyflwyno'r Mesur penodol hwnnw'n fuan, ac yr ydym yn gobeithio y gellir sefydlu pwyllgor ychydig ar ôl i'r Cynulliad ddychwelyd ar ôl toriad yr haf i ddechrau craffu ar y Mesur hwnnw. Gallwch wneud y pwyntiau manwl hynny ynglŷn â'ch cred bod y ddyletswydd honno'n bodoli'n barod bryd hynny, ond nid ydym yn credu ei bod yn bodoli'n barod—neu ddim i raddau digonol o leiaf. Pan fyddwn yn cyflwyno Mesurau, sy'n gorfod cael eu rhagflaenu o bosibl gan Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yn ystod y flwyddyn flaenorol, gallai hynny fod oherwydd bod

any doubt as to the legal position. Sometimes, you are on a wing and a prayer, legally speaking, but you do not really want to be in that position as you do things as a Government, so it is better to have a clear legal power. If there is a difference in view, it may be no more than that we believe that, only through this Measure can we require local co-operation to deliver citizen-centred services, based on the Beecham principles.

darn o gyfraith yn bodoli, ond mae'r twrneiod yn dweud nad oes gennym gefnogaeth gref mewn gwirionedd i'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud, a byddai'n llawer gwell, o ganlyniad, petai'r gyfraith honno'n cael ei chodeiddio'n briodol, ei diweddarau, a'i hehangu i ryw raddau. Yna, ni fyddai unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r sefyllfa gyfreithiol. Weithiau, yr ydych yn mentro ac yn gobeithio am y gorau, o safbwynt cyfreithiol, ond nid oes arnoch eisiau bod yn y sefyllfa honno mewn gwirionedd pan ydych yn gwneud pethau fel Llywodraeth, felly mae'n well cael pŵer cyfreithiol clir. Os oes gwahaniaeth barn, mae'n bosibl nad yw'n fwy na'r ffaith ein bod yn credu mai dim ond drwy'r Mesur hwn y gallwn fynnu cydweithio lleol er mwyn cyflenwi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ar sail egwyddorion Beecham.

Your point about small and medium-sized enterprises repeats the point that you made earlier during questions to me. Let us try to get the statistical picture clear: Wales does not have an over-large public sector relative to its population or to other regions. We have roughly the size of public sector that you would expect us to have; we just have a smaller private sector. In other words, with few exceptions, it is the size of a population that normally determines the size of a public sector in an area, because x number of people will require x number of teachers, local government officers, and other public servants. However, the difference with Wales is that we do not have a big enough private sector, and so we are glad that it has been growing.

Mae eich pwynt ynglŷn â busnesau bach a chanolig yn ailadrodd y pwynt a wnaethoch yn gynharach yn ystod y cwestiynau i mi. Gadewch inni geisio cael y darlun ystadegol yn glir: nid oes gan Gymru sector cyhoeddus rhy fawr o'i gymharu â'i phoblogaeth neu o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Mae sector cyhoeddus Cymru, yn fras, o'r maint y byddech yn disgwyl iddi ei gael; ein sector preifat sy'n llai. Mewn geiriau eraill, gydag ambell eithriad, maint poblogaeth sydd fel rheol yn pennu maint sector cyhoeddus mewn ardal, oherwydd bydd ar x o bobl angen x o athrawon, swyddogion llywodraeth leol, a gweision cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, y gwahaniaeth gyda Chymru yw nad oes gennym sector preifat digon mawr, ac yr ydym felly'n falch ei fod wedi bod yn tyfu.

I welcome the proposed child poverty Measure. As you will be aware, First Minister, the Children and Young People Committee is doing some scrutiny work on child poverty at the moment, specifically looking at the contribution that the education service can make to tackling child poverty. We are finding that, although there is a lot of excellent policy out there, delivery is not consistent, and I therefore welcome the proposal to bring forward a Measure placing a duty in this regard on public bodies. I ask the Government to consider including among those public bodies not only schools, which I assume will be included as a matter of course, but education authorities, and, specifically, school governing bodies, so that they can take a lead on this important issue.

Thank you for your mention of my proposed legislative competence Order. It is always good to get a mention in dispatches. In that context, I would like to pay tribute to all the

Helen Mary Jones: Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad ac yr wyf yn croesawu cynnwys y rhaglen deddfwriaethol. Hoffwn gyfeirio drachefn at fater yr ydym wedi ei drafod eisoes nad yw wedi ei gynnwys yn y rhaglen, sef Gorchymyn cymhwysedd ynghylch yr Iaith Gymraeg. A allwch gadarnhau, Brif Weinidog, petai trafodaethau pellach yn llwyddiannus eleni, y byddai'n bosibl i Lywodraeth y Cynulliad ddwyn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw gerbron y Cynulliad eleni? Pe cytunid yn yr hydref, er enghraifft, a fyddai'n bosibl ei gynnwys yn y rhaglen bryd hynny? Wrth ein hysbysu ynglŷn â'r sefyllfa yn hynny o beth, a wnewch ymuno â mi i groesawu'r newyddion bod y Gymraeg, heddiw, wedi ennill statws cydsyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd yn sgil cwblhau'r cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Chyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd? A wnewch ymuno â mi i longyfarch y Dirprwy Weinidog dros Dreftadaeth a'n Llywydd ar eu rhan hwythau yn y broses honno?

Yr wyf yn croesawu'r Mesur arfaethedig ar dlodi plant. Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gwneud ychydig o waith craffu ar dlodi plant ar hyn o bryd, ac yn benodol mae'n ystyried y cyfraniad y gall y gwasanaeth addysg ei wneud at fynd i'r afael â thlodi plant. Er bod llawer o bolisiâu rhagorol i'w cael, cawn nad oes cysondeb yn y cyflenwi, ac felly yr wyf yn croesawu'r cynnig i wneud Mesur a fydd yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yn hyn o beth. Gofynnaf i'r Llywodraeth ystyried cynnwys ymhlith y cyrff cyhoeddus hynny nid yn unig yr ysgolion, y tybiaf y cânt eu cynnwys fel mater o gwrs, ond awdurdodau addysg hefyd ac yn benodol felly, gyrff llywodraethol yr ysgolion, fel y gallant arwain ar y mater pwysig hwn.

Diolch yn fawr i chi am grybwyll fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol innau. Mae wastad yn braf gweld bod sôn am rywun mewn adroddiadau fel petai. Yn

individual carers and their carers organisations—they have been enormously helpful to me in the process of drafting my LCO, and I know that they have also had a lot of input into the work of the Deputy Minister, Gwenda Thomas, and her team, on the proposed Government LCO. As you will be aware, my LCO would give carers the right to be informed of their right to an assessment. Can you confirm that the Government LCO would go further than that, and would allow the Government to place a responsibility on public bodies to meet that assessed need? That would go further than my LCO.

I must say that I am grateful to the Minister for her co-operation on this, and I am optimistic that, subject to detailed negotiations, I will be able to withdraw my LCO and give my full support to the Government. In doing so, I am sorry to miss out on the opportunity of laying an Order, but I am not sorry to miss all the work that is involved. There is a question over why we need to seek a LCO to take statutory action in fields such as health and social care, which are already fully devolved. In that regard, I look forward to a successful referendum on law-making powers, and I wonder whether you would agree, First Minister, that the people of Wales will be much more likely to vote 'yes' in that referendum if they can see that the whole of the Assembly—Government, committees, and individual Members—are using our current law-making powers to the full.

The First Minister: I am glad that you made that last remark about using powers to the full. That is part of the learning process by which we will gain the confidence as a country to see that, at certain times, it is better to have Welsh-made laws that suit Welsh circumstances and are proposed in Wales, scrutinised in Wales, and amended in

hynny o beth, hoffwn roi teyrnged i'r holl ofalwyr unigol a mudiadau'r gofalwyr—buont yn gymorth mawr imi wrth imi ddrafftio fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, a gwn eu bod wedi cyfrannu'n helaeth hefyd at waith y Dirprwy Weinidog, Gwenda Thomas, a'i thîm, ar Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig y Llywodraeth. Fel y gwyddoch, byddai fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn rhoi'r hawl i ofalwyr gael gwybod am eu hawl i asesiad. A allwch gadarnhau y byddai Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol y Llywodraeth yn mynd yn bellach na hynny, ac y byddai'n caniatáu i'r Llywodraeth roi cyfrifoldeb ar gyrrff cyhoeddus i gyflawni'r anghenion aseddig hynny? Byddai hynny'n mynd yn bellach na'm Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i.

Rhaid imi ddweud fy mod yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei chydweithrediad yn hyn o beth a'm bod yn ffyddiog, yn ddibynnol ar drafodaethau manwl, y byddaf yn gallu tynnu yn ôl fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a chynnig fy nghefnogaeth lawn i'r Llywodraeth. Wrth wneud hyn, yr wyf yn flin fy mod yn colli'r cyfle o sefydlu Gorchymyn, ond nid wyf yn flin o gwbl o golli'r holl waith sydd ynghlwm wrtho. Erys cwestiwn o hyd ynghylch pam y bydd angen inni wneud cais am Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol er mwyn cymryd camau statudol mewn meysydd megis iechyd a gofal cymdeithasol, meysydd sydd eisoes wedi eu llwyr ddatganoli. Yn hyn o beth, yr wyf yn edrych ymlaen at refferendwm llwyddiannus ar bwerau deddfu, a thybed a fydddech yn cytuno, Brif Weinidog, y bydd pobl Cymru'n llawer mwy tebygol o bleidleisio o blaid yn y refferendwm hwnnw os gwelant fod y Cynulliad cyfan—y Llywodraeth, y pwyllgorau a'r Aelodau unigol—yn defnyddio'r pwerau deddfu sydd gennym ar hyn o bryd yn eu llawnder.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch i chi wneud y sylw hwnnw ynglŷn â defnyddio pwerau yn eu llawnder. Mae hyn yn rhan o'r broses ddysgu a fydd yn fodd inni ennill hyder fel gwlad i weld, ar rai adegau, ei bod yn well cael deddfau a wnaethpwyd yng Nghymru sy'n addas at amgylchiadau Cymru ac sydd wedi eu cynnig yng Nghymru, y bu

Wales. Part of that process is the ability of backbenchers to bring forward legislative competence Orders or Measures if they win a ballot. I cannot say that we will adopt every one of them and say, 'Look, with a tweak, we could take this over.', but, from time to time, we will. Your LCO is an example of that, and you are right to say that the Government's intentions go wider than your original proposals. Yours was a suitably diffident measure, in line with your personality, and we decided that you needed to come out of your shell a bit, and knock a few fours and sixes across the field. You are right in what you say. My understanding is that Gwenda and her team intend to seek powers that enable us to legislate to provide support for carers by placing appropriate duties on public sector organisations, exactly as you have described—going beyond knowing about the needs assessment and requiring those bodies to do something about it.

The point about the Government adopting and changing, or tweaking, a ballot-winning legislative competence Order or Measure is an important one, and we hope that we can bring it to a successful conclusion. It will be a device that involves backbenchers as well as the frontbench. It will not happen on every occasion, but there will be times when we will want to do that.

On the Welsh-language legislative competence Order, I cannot really comment until we have done the work. What has happened since the Welsh Language Act was passed in 1993 is that an immensely greater degree of complexity has developed in terms of what would fall within the definition of a public body or a private company carrying out functions of a public character. I think that that is the problem. In 1993, people thought of the private sector as being on one side and the public sector as being on the other side, but since then, in the intervening 15 years, things have become enormously more complicated; it is trying to unravel those complications that has caused the

craffu arnynt yng Nghymru, ac a ddiwygiwyd yng Nghymru. Rhan o'r broses honno yw gallu'r aelodau meinciau cefn i wneud Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol neu Fesurau os enilliant bleidlais. Ni allaf ddweud a fyddwn yn mabwysiadu pob un gan ddweud, 'Ylwch, o roi plwc bach i hwn, gallwn ei gyflawni.', ond, o dro i dro, gwnawn hynny. Mae eich Gorchmyn cymhwysedd deddfwriaethol chwithau'n enghraifft o hynny, ac yr ydych yn llygad eich lle pan ddywedwch fod bwriadau'r Llywodraeth yn ehangach na'ch cynigion gwreiddiol. Yr oedd eich mesur yn un addas o wylaidd, yn unol â'ch personoliaeth, a phenderfynom fod angen i chi ddod allan o'ch cragen rhyw ychydig, a rhoi ergyd go iawn i'r bel a sgorio chwech. Yr ydych yn iawn yn yr hyn a ddywedwch. Yn ôl a ddeallaf mae Gwenda a'i thîm yn bwriadu ceisio pwerau a fydd yn ein galluogi i ddeddfu i roi cymorth i ofalwyr drwy osod dyletswyddau ar gyrff y sector cyhoeddus, yn union fel yr ydych wedi ei ddisgrifio—gan fynd ymhellach na gwybod am yr asesiad angen a mynnu bod y cyrff hynny'n gwneud rhywbeth yn ei gylch.

Mae'r pwynt ynghylch y Llywodraeth yn mabwysiadu ac yn newid, neu'n addasu, Gorchmyn cymhwysedd deddfwriaethol neu Fesur a allai ennill pleidlais yn un pwysig, a gobeithiwn ddwyn hynny i ddiwedd glo llwyddiannus. Bydd yn cynnwys aelodau'r meinciau cefn yn ogystal ag aelodau'r Llywodraeth. Ni fydd yn digwydd bob tro, ond bydd adegau pan fyddwn am wneud hynny.

O ran y Gorchmyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch yr Iaith Gymraeg, ni allaf wneud sylwadau nes inni wneud y gwaith. Yr hyn sydd wedi digwydd ers pasio Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1993 yw bod yr hyn a fyddai wedi cael ei gwmpasu gan y diffiniad o gorff cyhoeddus neu gwmni preifat yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus wedi mynd yn llawer iawn mwy cymhleth. Credaf mai dyna'r broblem. Yn 1993, yr oedd pobl yn meddwl am y sector preifat ar un ochr a'r sector cyhoeddus ar yr ochr arall, ond ers hynny, yn ystod y 15 mlynedd a aeth heibio, mae pethau wedi mynd yn fwyfwy cymhleth; ceisio datgymalu'r cymhlethodau hynny sydd wedi

delays. We do not want anybody to say afterwards, 'You never thought of that kind of circumstance', or, 'You never thought of that particular type of body that is right on the cusp of what is public and what is private'.

You are right to say that today is a historic day, given the establishment of the right to use the Welsh language in the Council of Ministers. We hope that that will go from the Council of Ministers to include relevant correspondence with the European Commission and the European Parliament and so on. We have to meet the cost of the interpreters, and they have to be interpreters who meet the full standard of competence for EU interpreters, which I am told is a pretty massive test. However, it is important that we realise that it is a historic day for one of the smaller languages of Europe—that it can be used in communication in Brussels and has been accepted as having co-official status. I must admit that I have found Jack Straw to be extremely helpful on this matter, all along. When we kick-started this process—it must be some two or three years ago now—we were really very pleasantly surprised that they said, 'Yes, we want to go for this'. I recognise what you have said about more recent ministerial involvement.

As regards the question of the moves that we are now making on child poverty, across a wide range of areas, but especially with the new child poverty legislative competence Order, the requirement will be on public bodies. On the definition of 'public body', it will mainly involve the education field, but not exclusively, because it will include the social care fields as well. You are right that there is inconsistent delivery and, when we have a requirement on bodies, we believe that it will raise the standards to the best standards of today. Early years will be very much a key part of it, because if you solve disadvantage at an early stage, there are immense benefits later on, when they become teenagers or fully grown adults.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn pryderu am y diffygydd datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Wrth

achosi'r oedi. Nid ydym am i neb ddweud wedyn, 'Ni wnaethoch feddwl am sefyllfa felly', neu 'Ni wnaethoch feddwl am y math arbennig hwnnw o gorff sydd ar y ffin o ran yr hyn sy'n gyhoeddus a'r hyn sy'n breifat'.

Yr ydych yn gywir i ddweud bod heddiw'n ddiwrnod hanesyddol, o gofio bod yr hawl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yng Nghyngor y Gweinidogion wedi'i sefydlu. Gobeithiwn y datblyga hynny o Gyngor y Gweinidogion i gynnwys gohebiaeth berthnasol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Senedd Ewropeaidd ac ati. Rhaid inni dalu cost y cyfieithwyr ar y pryd, a rhaid iddynt fod yn gyfieithwyr sy'n diwallu safonau cymhwysedd llawn cyfieithwyr yr UE sydd, fel y deallaf, yn brawf mawr iawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli bod hwn yn ddiwrnod hanesyddol i un o ieithoedd llai Ewrop—y gellir ei defnyddio i gyfathrebu ym Mrwsel a'i bod wedi'i derbyn fel iaith a chanddi statws cyd-swyddogol. Rhaid imi gyfaddef fod Jack Straw wedi bod o gymorth mawr gyda'r mater hwn, ar hyd y daith. Pan gychwynnwyd y broses hon—rhaid bod hynny rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl bellach—cawsom ein siomi ar yr ochr orau iddynt ddweud, 'Ie, yr ydym am fynd ar drywydd hyn'. Cydnabyddaf yr hyn yr ydych wedi'i ddweud am gyfraniad gweinidogol mwy diweddar.

O ran y camau yr ydym yn eu cymryd yn awr o ran tlodi ymhlith plant, ar draws ystod eang o feysydd, ond yn arbennig o fewn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, bydd y gofyniad ar gyrff cyhoeddus. O ran y diffiniad o 'gorff cyhoeddus', bydd yn cynnwys maes addysg yn bennaf, ond ni fydd yn unigryw i'r maes hwnnw, oherwydd bydd yn cynnwys y meysydd gofal cymdeithasol hefyd. Yr ydych yn iawn i ddweud bod darpariaeth anghyson a, phan fydd gofyniad ar gyrff, credwn y bydd yn codi safonau i'r safonau gorau sy'n bodoli. Bydd y blynyddoedd cynnar yn rhan allweddol ohono, oherwydd os ydych yn datrys anfantais yn gynnar, mae manteision enfawr yn ddiweddarach, pan fyddant yn eu harddegau neu wedi tyfu'n oedolion.

Eleanor Burnham: I am concerned about the lack of progress on the Welsh language.

gwrs, yr wyf yn croesawu'r statws cyd-swyddogol sydd gennym yn awr yn Ewrop.

I am absolutely delighted about the LCO on additional learning needs—I chaired the committee on that first LCO—but I probably share some of Alun Cairns's concerns. I am sure that you will say a few more words on that. Peter Clarke was right that young children need to participate in decisions that affect their education, as we have been hearing—Helen Mary alluded to it—in the Children and Young People Committee.

I am also absolutely delighted that you are promoting citizen-centred local service delivery. However, I notice that most of your expectations relate to delivery by the local authorities. I am intrigued, and interested in whether they will be able to deliver in the face of increased financial pressures. I know that this is not a debate on budgets and that this is about legislative competence, or whatever—this will be my last comment; thank you for allowing me to speak, Dirprwy Lywydd—but this is a complicated morass and I look forward to having a much simpler, clearer and clarified system. The people of Wales who are listening to our debates probably cannot get their heads around the mystique and the warm words that we are speaking, when all they want is the delivery. Surely, we will soon have primary powers in Wales and it will all become extremely clear.

The First Minister: You noted agreement with the points that Alun Cairns made, that I do not agree with, that there might be higher priorities elsewhere and that that is an argument for not passing the additional learning needs LCO. I do not agree with that last part. We are doing other things, via the vulnerable children legislative competence Order, which is coming up for scrutiny and approval in the Assembly—we hope that it will be approved. We have mentioned the wider issues about child poverty that will be in a Measure that we hope to pass as a consequence of having the ability to legislate in that area.

Of course, I welcome the co-official status that we now have in Europe.

Yr wyf yn falch iawn ynglŷn â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch anghenion dysgu ychwanegol—cadeiriais bwyllgor ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol cyntaf hwnnw—ond yr un yw fy mhryderon i a rhai o bryderon Alun Cairns. Yr wyf yn siŵr y dywedwch ychydig yn rhagor o eiriau ar hynny. Yr oedd Peter Clark yn iawn i ddweud bod angen i blant ifanc gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg, fel yr ydym wedi bod yn clywed—a chyfeiriodd Helen Mary ato—yn y Pwyllgor ar Blant a Phobl Ifanc.

Yr wyf hefyd wrth fy modd eich bod yn hybu darparu gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Fodd bynnag, sylwaf fod y rhan fwyaf o'ch disgwyliadau yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Mae gennyf chwilfrydedd a diddordeb mewn gweld a allant ddarparu gwasanaethau yn wyneb pwysau ariannol cynyddol. Gwn nad dadl ar gyllidebau yw hon ac mai dadl am gymhwysedd deddfwriaethol ydyw, neu beth bynnag—dyma fy sylw olaf; diolch ichi am ganiatáu imi siarad, Ddirprwy Lywydd—ond mae hon yn gors gymhleth ac edrychaf ymlaen at gael system llawer symlach, cliriach ac eglurach. Mae'n siŵr na all pobl Cymru sy'n gwrando ar ein dadleuon amgyffred y dirgelion a'r geiriau cynnes a lefarwn, pan mai'r cyfan y maent am ei gael yw darpariaeth. Oni fydd gennym bwerau sylfaenol yng Nghymru cyn bo hir a fydd yn gwneud popeth yn gwbl eglur?

Y Prif Weinidog: Dywedasoeh eich bod yn cytuno â'r pwyntiau a wnaeth Alun Cairns, pwyntiau na chytunaf i â hwy, sef y gallai fod blaenoriaethau eraill mewn mannau eraill a bod hynny'n ddadl dros beidio â phasio'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch anghenion dysgu ychwanegol. Ni chytunaf â'r rhan olaf honno. Yr ydym yn gwneud pethau eraill, drwy'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant sy'n agored i niwed, sydd ar fin mynd drwy broses graffu a chael ei gymeradwyo yn y Cynulliad—gobeithiwn y caiff ei gymeradwyo. Yr ydym wedi sôn am y materion ehangach ynghylch tloedi ymhlith

plant a fydd mewn Mesur y gobeithiwn ei basio o ganlyniad i feddu ar y gallu i ddeddfu yn y maes hwnnw.

4.20 p.m.

There is a wide range of issues in relation to vulnerable children, as well as on child poverty, so it is a broad front of action. I do not believe that one can pick out one particular right to appear before an SEN tribunal, and say, 'If that is all that you are doing, then that is only relevant to a tiny minority'. That may be the case, but it is not all that we are doing; we are trying to take forward the anti-child-poverty agenda on a broad front.

Mark Isherwood: In your statement, you state that:

'A stock of good-quality affordable homes is the foundation of thriving local communities and healthy family life'.

I agree 100 per cent plus with that. The Leader of the House, Carwyn Jones, has stated that what is important is that the law that we produce is sound, rather than producing several laws that are flawed. Why, therefore, the gesture politics of the affordable housing LCO? The Deputy Minister for Housing told the LCO committee last week that the policy intention has not changed. However, as we have heard, the Parliamentary Under Secretary of State, Huw Irranca-Davies, stated that the plan to suspend the right-to-buy scheme in housing hot spots was not a magic bullet, and may never be used. That fully matches the evidence given to committee, which confirmed that suspending the right to buy will not increase the supply of social housing in the short term, although it is intended to be a short-term measure. Indeed, people remain in occupation of those houses for 15 years or so, by which time properly funded housing associations could have replaced them many times over.

You have a policy to deliver 6,500 new affordable houses by 2011. We are into the second year already, and only a few hundred

Mae ystod eang o faterion yn ymwneud â phlant sy'n agored i niwed, yn ogystal â thlodi ymhlith plant, felly mae'n ystod o gamau cyffredinol. Ni chredaf y gall rhywun ddewis un hawl penodol i ymddangos gerbron tribiwnlys AAA, a dweud, 'Os dyna'r cyfan yr ydych yn ei wneud, yna dim ond i leiafrif bach y mae hynny'n berthnasol'. Efallai fod hynny'n ir, ond nid dyna'r cyfan a wnawn; ceisiwn ddatblygu'r agenda gwrthlodi ymysg plant yn gyffredinol.

Mark Isherwood: Yn eich datganiad, nodwch mai:

Stoc o gartrefi fforddiadwy o safon yw sylfaen cymunedau lleol ffyniannus a bywyd teuluol iach.

Cytunaf yn llwyr â hynny. Mae Arweinydd y Tŷ, Carwyn Jones, wedi nodi mai'r hyn sy'n bwysig yw bod y gyfraith a lunnir gennym yn gadarn, yn hytrach na chreu sawl cyfraith ddiffygiol. Pam, felly, ffug wleidyddiaeth y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch tai fforddiadwy? Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Dai wrth y pwyllgor Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yr wythnos diwethaf nad yw'r bwriad o ran polisi wedi newid. Fodd bynnag, fel y clywsom, dywedodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol, Huw Irranca-Davies, nad bwled hud oedd y bwriad i atal y cynllun hawl i brynu mewn ardaloedd lle ceir problemau o ran tai, ac na ellid ei ddefnyddio byth. Mae hynny'n cyfateb yn union i'r dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor, a gadarnhaodd na fydd atal y cynllun hawl i brynu yn cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol yn y tymor byr, er mai mesur tymor byr y bwriedir iddo fod. Yn wir, mae pobl yn parhau i fyw yn y tai hynny am 15 mlynedd neu fwy, ac yn yr amser hwnnw byddai cymdeithasau tai wedi'u hariannu'n briodol wedi gallu disodli llawer ohonynt sawl gwaith drosodd.

Mae gennych bolisi i ddarparu 6,500 o dai newydd, fforddiadwy erbyn 2011. Yr ydym eisoes yn yr ail flwyddyn, a dim ond ychydig

have been delivered. How will you achieve your goal, when housing associations tell me—and, presumably, you—that their plans are going up in smoke as developers and mortgage lenders withdraw from this market? As we know, that has been confirmed by another developer in south Wales announcing today that it is stopping development on two sites, and the Royal Institution of Chartered Surveyors saying that house sales are at their lowest level since records began in 1978.

After the last housing crisis in the early 1990s, the then Government, which happened to be Conservative, announced an additional £35 million social housing grant in Wales, recognising the gravity of the situation, and its possible implications in terms of poor health, educational failure and missed opportunities for economic and social regeneration. Will you recognise that the scale of the crisis is at least as grave, and that we need to react proportionately if we are not to suffer far graver social costs?

Related to that, and the broader issues about child poverty, you rightly state that we need to tackle the causes as well as the symptoms of child poverty. I find that phrase familiar, as I have used it many times myself in the Chamber.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can we have questions, rather than speeches, please?

Mark Isherwood: How will you deal—not only at a Welsh level, but by developing your strategy and policy with the UK Government—with the findings of the Joseph Rowntree Foundation over successive years? It has found links with barriers to work, the recent increase in child poverty, and the credit crunch, despite mortgage regulation being in place, which was not enforced. How will you work with the poverty fighters and social entrepreneurs who work in our communities to develop and deliver strategic and measurable action plans—the plans that are needed to take real social regeneration forward?

gannoedd sydd wedi cael eu hadeiladu. Sut y bwriadwch gyrraedd eich nod, pan ddywed cymdeithasau tai wrthyf—ac, mi dybiaf, wrthyf chithau—fod eu cynlluniau'n chwalu wrth i ddatblygwyr a benthycwyr morgeisi gilio o'r farchnad hon? Fel y gwyddom, cadarnhawyd hynny gan ddatblygwr arall yn y de a gyhoeddodd heddiw ei fod yn rhoi'r gorau i ddatblygu ar ddau safle, a chan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a ddywedodd fod gwerthiannau tai ar eu hisaf ers i'r cyfraddau ddechrau gael eu cofnodi yn 1978.

Ar ôl yr argyfwng tai diwethaf ddechrau'r 1990au, cyhoeddodd y Llywodraeth ar y pryd, llywodraeth Geidwadol fel mae'n digwydd, £35 miliwn o grant tai cymdeithasol yng Nghymru, gan gydnabod difrifoldeb y sefyllfa, a'i goblygiadau posibl o ran salwch, methiant addysgol a cholli cyfleoedd adfywio economaidd a chymdeithasol. A gydnabyddwch fod maint yr argyfwng o leiaf yr un mor ddirifol, a bod angen inni ymateb yn gymesur os ydym am osgoi dioddef costau cymdeithasol llawer mwy difrifol?

Yn gysylltiedig â hynny, a'r materion ehangach ynghylch tlodi ymhlith plant, dywedwch, a hynny'n gywir, fod angen inni fynd i'r afael ag achosion tlodi ymhlith plant yn ogystal â'r symptomau. Mae'r ymadrodd hwnnw'n gyfarwydd imi, gan fy mod wedi ei ddefnyddio droeon fy hun yn y Siambr.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A gawn ni gwestiynau, yn hytrach nag areithiau, os gwelwch yn dda?

Mark Isherwood: Sut yr ymdriniwch—nid yn unig ar lefel Cymru, ond drwy ddatblygu eich strategaeth a'ch polisi gyda Llywodraeth y DU—â chanfyddiadau Sefydliad Joseph Rowntree dros y blynyddoedd i ddod? Canfu gysylltiadau gyda rhwystrau at waith, y cynnydd diweddar mewn tlodi ymysg plant, a'r argyfwng credyd, er gwaethaf y ffaith bod trefniadau rheoleiddio morgeisi ar waith, na chawsant eu gorfodi. Sut y gweithiwrch gyda'r rhai sy'n ymladd tlodi ac entrepreneuriaid cymdeithasol sy'n gweithio yn ein cymunedau i ddatblygu a darparu cynlluniau gweithredu strategol a mesuradwy—y cynlluniau sydd eu hangen er

mwyn datblygu adfywio cymdeithasol go iawn?

The First Minister: You seem to think that we have claimed that we are proposing the affordable housing legislative competence Order, and the right-to-buy issue, as a silver bullet—we have never claimed that this is a silver bullet. It is a small measure, designed to achieve solutions where you have a dual housing market, where wages are low, but house prices are high. The unaffordability problem, which you might get across the country as a whole, can be doubled or trebled in certain areas, because of that strange dual housing market that we recognise in certain parts of Wales. Therefore, we are not claiming that it is a silver bullet.

We are not going to have a debate on the wider issue of affordable housing this afternoon, in the middle of the legislative programme debate, but the disappearance of wholesale money-market-based mortgages, which took 60 per cent of the money coming into the markets up until last July, has meant that only 40 per cent of the money is left—the old building society stock of money, if you like. That is a pretty massive blow to the housing market, and is causing an acute crunch at present, in terms of first-time buyers being unable to access mortgages. The demand is there, but they just do not have the mortgage finance to be able to get there, and the readjustment that is taking place is painful for everyone involved. On whether it will ultimately create spare capacity in the industry and how you access that spare capacity—which is roughly what previous Governments did in the 1970s and 1980s—in building labour, and so on, to get involved in social housing provision or social housing modernisation, is a matter to which we will return at another time.

On the issue of child poverty and getting at the causes and not the symptoms, we have read the Joseph Rowntree Foundation report and we have looked at the data showing that, according to the latest figures available, there has been a 1 per cent rise in child poverty; that is regrettable after the 8 per cent drop achieved in Wales in the previous seven or eight years—any rise in child poverty is

Y Prif Weinidog: Ymddengys eich bod yn credu inni honni ein bod yn cynnig y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch tai fforddiadwy, a'r mater hawl i brynu, fel bwled arian—nid ydym erioed wedi honni mai bwled arian yw hyn. Mesur bach ydyw, wedi'i gynllunio i sicrhau atebion pan fydd gennych farchnad dai ddeuol, lle mae cyflogau'n isel, ond lle mae prisiau tai yn uchel. Gellir dyblu neu dreblu'r broblem anfforddiadwyedd, sy'n broblem y gellir ei gweld ledled y wlad, mewn rhai ardaloedd, oherwydd y farchnad dai ddeuol ryfedd honno a welwn mewn rhai rhannau o Gymru. Felly, ni honnwn fod hyn yn fwled arian.

Nid ydym am gael dadl ar fater ehangach tai fforddiadwy y prynhawn yma, yng nghanol y ddadl ar y rhaglen ddeddfwriaethol, ond mae diflaniad morgeisi cyfanwerthu sy'n seiliedig ar y farchand arian, a gymerodd 60 y cant o'r arian a oedd yn dod i mewn i'r marchnadoedd tan fis Gorffennaf diwethaf, wedi golygu mai dim ond 40 y cant o'r arian sy'n weddill—hen stoc arian y cymdeithasau adeiladu, os hoffech. Mae hynny'n ergyd enfawr i'r farchand dai, ac mae'n achosi argyfwng difrifol ar hyn o bryd, gan nad yw'r rhai sy'n prynu am y tro cyntaf yn gallu cael morgeisi. Mae'r galw yno, ond nid yw'r cyllid morgeisi ganddynt i gyrraedd yno, ac mae'r ymaddasu sy'n digwydd yn boenus i bawb dan sylw. O ran a fydd yn creu adnoddau yn y diwydiant yn y pen draw a sut i gael gafael ar yr adnoddau hynny—sef yr hyn a wnaeth Llywodraethau'r gorffennol yn yr 1970au a'r 1980au yn fras—o ran gweithwyr adeiladu, ac ati, i fod yn rhan o'r ddarpariaeth tai cymdeithasol neu i foderneiddio tai cymdeithasol, mae hwnnw'n fater y bydd yn rhaid inni ddychwelyd ato ryw bryd eto.

O ran tlodi ymhlith plant a mynd at wraidd yr achosion yn hytrach na'r symptomau, yr ydym wedi darllen adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree ac yr ydym wedi edrych ar y data sy'n dangos, yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, bod cynnydd o 1 y cant mewn tlodi ymhlith plant; mae hynny'n resyn ar ôl y gostyngiad o 8 y cant a gyflawnwyd yng Nghymru dros y saith neu'r

regrettable. We will be working with the Westminster Government in terms of its control over the tax credit and benefits system, and many other areas of activity. We want a complementary Welsh approach that does things that Westminster does not want to do, to get falling child poverty back on track after this regrettable recent increase.

Nick Ramsay: Thank you for the opportunity to comment on the statement. I concur with others who have given the statement a tentative welcome. I will focus on the statement's impact on local government. I am particularly pleased to see a reference to citizen-centred services, in line with the principles set out in the Beecham review. As the First Minister will be aware, there have been some concerns about the possible impact of reorganisation within local government; I think that we would all concur with the principles of Beecham as the direction in which we want to go.

On the First Minister's comments on the need to encourage local authorities to promote culture, that is a noble aim and a good ambition with which we would all agree. However, does he not believe that a statutory requirement would break the bank for our local authorities, at a time when they have to deal with a tight financial settlement? Does his Government intend to discuss this issue with the Welsh Local Government Association to ensure that something can be done on what is a good ambition, to produce the results that we want to see in terms of promoting culture, and to ensure that this does not cause more hardship for local authorities?

The First Minister: I am grateful for your tentative welcome. I had the opportunity to tell an audience last week that local government and allied public services, such as further education colleges, the four constabularies in Wales, the fire service and the health service, should be working very much to the Beecham agenda. They should not think that they can park all of that because there is a local government reorganisation pending, when there is not.

wyth mlynedd flaenorol—gresynnir wrth unrhyw gynnydd mewn tlodi ymhlith plant. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth San Steffan o ran ei reolaeth dros y system credydau treth a budd-daliadau, a sawl maes gweithgaredd arall. Yr ydym am gael ymagwedd Gymreig gyflenwol sy'n gwneud pethau nad yw San Steffan am eu gwneud, i sicrhau bod tlodi ymhlith plant yn parhau i ostwng ar ôl y cynnydd diweddar anffodus hwn.

Nick Ramsay: Diolch ichi am y cyfle i wneud sylwadau ar y datganiad. Cytunaf ag eraill sydd wedi croesawu'r datganiad yn betrus. Canolbwyntiaf ar effaith y datganiad ar lywodraeth leol. Yr wyf yn falch iawn o weld cyfeiriad at wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn adolygiad Beecham. Fel y gŵyr y Prif Weinidog, bu rhai pryderon ynghylch effaith bosibl ad-drefnu o fewn llywodraeth leol; credaf y byddem oll yn cytuno ag egwyddorion Beecham fel y cyfeiriad yr hoffem anelu ato.

O ran sylwadau'r Prif Weinidog ar yr angen i annog awdurdodau lleol i hybu diwylliant, mae hynny'n amcan wych ac yn uchelgais dda y byddem oll yn cytuno â hi. Fodd bynnag, oni chreda y byddai gofyniad statudol yn gwneud i'r hwch fynd drwy'r siop o ran ein hawdurdodau lleol, ar adeg pan mae'n rhaid iddynt ymdrin â setliad ariannol tynn? A yw ei Lywodraeth ef yn bwriadu trafod y mater hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau y gellir gwneud rhywbeth mewn perthynas ag uchelgais dda, i sicrhau'r canlyniadau yr hoffem eu gweld o ran hybu diwylliant, a sicrhau nad yw hyn yn achosi rhagor o galedi i awdurdodau lleol?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar am eich croeso petrus. Cefais gyfle i ddweud wrth gynulleidfa yr wythnos diwethaf y dylai llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig, fel colegau addysg bellach, pedwar heddlu Cymru, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth iechyd, fod yn gweithio yn unol ag agenda Beecham. Ni ddylent feddwl y gallant roi'r gorau i hynny oll oherwydd bod ad-drefnu llywodraeth leol ar y gorwel, pan nad yw hynny'n wir. Yr ydym yn sicr yn

Beecham is very much where we are at, and I am grateful for your agreement. In fact, I think that a representative of Monmouthshire County Council welcomed it at that meeting; he asked if he should be reassured, and I said that he should be reassured but not complacent. I was not saying that they should sit back and not deliver on the Beecham agenda, because there is a window of opportunity to get on with delivering citizen-focused services. We want to give a statutory backing to that by requiring co-operation, whether it is co-operation across territorial lines, such as three local authorities doing together what one local authority cannot do alone, or joint action with the police, the health authority or other public agencies.

On the cultural duty, there is no intention to resile from the principle that, if we put new duties on local government—in this case, putting cultural services on the same footing as what are now statutory services—there would have to be recompense to take account of the costs involved. How much it would cost and how we would negotiate that is where the consultation with the Welsh Local Government Association would become relevant.

dilyn Beecham, ac yr wyf yn ddiolchgar am eich cytundeb. Yn wir, credaf i gynrychiolydd o Gyngor Sir Fynwy ei groesawu yn y cyfarfod hwnnw; gofynnodd a ddylai fod yn dawel ei feddwl, a dywedais y dylai fod yn dawel ei feddwl ond na ddylai fod yn hunanfodlon. Nid oeddwn yn dweud y dylent eistedd yn ôl a pheidio â chyflawni agenda Beecham, oherwydd mae cyfle i barhau â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Yr ydym am roi cefnogaeth statudol i hynny drwy ofyn am gydweithrediad, bod yn gydweithrediad ar draws ffiniau tiriogaethol, fel tri awdurdod lleol yn gwneud rhywbeth na all un awdurdod lleol ei wneud ar ei ben ei hun, neu gamau ar y cyd gyda'r heddlu, yr awdurdod iechyd neu asiantaethau cyhoeddus eraill.

O ran y ddyletswydd ddiwylliannol, nid oes bwriad i gilio oddi wrth yr egwyddor y byddai'n rhaid rhoi iawndal i lywodraeth leol os rhoddwn ddyletswyddau newydd arni—yn yr achos hwn, rhoi'r un statws i wasanaethau diwylliannol â gwasanaethau statudol—er mwyn ystyried y costau cysylltiedig. Byddai'r ymgynghoriad gyda Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru yn berthnasol o ran pennu'r gost a sut y byddem yn negodi hynny.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 4.29 p.m.
Peter Black took the Chair at 4.29 p.m.*

Dadl o dan Reol Sefydlog Rhif 22.34 ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008

Standing Order No. 22.34 Debate on the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare and Other Fields) Order 2008

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Cynigïaf fod

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.34:

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 22.34:

yn cymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008. (NDM3990)

approves the draft the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare and Other Fields) Order 2008. (NDM3990)

Mae'n bleser a brait cael gosod drafft terfynol Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol

I am delighted and privileged to lay the final draft of the National Assembly for Wales

Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008, a adwaenir fel y Gorchymyn plant sy'n agored i niwed a thlodi plant.

(Legislative Competence) (Social Welfare and other Fields) Order 2008 referred to as the vulnerable children and child poverty Order before you today.

4.30 p.m.

Mae'r Gorchymyn hwn yn un o'r meysydd allweddol yng ngweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, a nodir yn 'Cymru'n Un', ac mae'n defnyddio dull Cymreig o gyflwyno atebion Cymreig. Diben hwn fydd ymdrin â thlodi plant ac allgáu cymdeithasol yn achos rhai o'r plant a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

This Order is a key plank of the Assembly Government's vision for children and young people, as set out in 'One Wales', and takes a Welsh approach to delivering Welsh solutions. Its purpose will be to tackle child poverty and social exclusion for some of the most disadvantaged children and families in Wales.

Subject to the final agreement of Members today and, subsequently, both Houses of Parliament, it will provide the Assembly with broad powers to pass Measures across a wide spectrum in the field of social welfare and in a limited capacity in other areas, including education, training, recreation and sport for children and young people up to 25 years of age. It will enable us to provide support to those families and children in the greatest need, who, without additional support, would be disproportionately disadvantaged. The Order demonstrates our seriousness about, and our commitment to, improving the lives of vulnerable children and families in Wales, and I know that Members share that commitment.

Yn amodol ar gytundeb terfynol yr Aelodau heddiw ac, wedyn, gytundeb dau Dŷ'r Senedd, bydd yn rhoi i'r Cynulliad bwerau eang i basio Mesurau ar draws rhychwant helaeth ym maes lles cymdeithasol ac mewn capasiti cyfyngedig mewn meysydd eraill, gan gynnwys addysg, hyfforddiant, adloniant a chwaraeon i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Bydd yn ein galluogi i ddarparu cymorth i'r teuluoedd a'r plant hynny sy'n fwyaf eu hangen, a fyddai, heb gymorth ychwanegol, yn wynebu anfantais anghymesur. Mae'r Gorchymyn yn dangos gymaint o ddifrif ydym ynglŷn â gwella bywydau plant a theuluoedd bregus yng Nghymru, a'n hymrwymiad i hynny, a gwn fod yr Aelodau'n rhannu'r ymrwymiad hwnnw.

The appearance of the Order before you today differs from the first draft tabled more than a year ago. However, the extent of the apparent difference is deceptive, and the Order remains wide-ranging. Its principal aim is to give the Assembly the powers to safeguard and promote the welfare of all children and young people. This may cross over non-devolved areas, and it requires the collaboration of agencies such as the police and others involved in youth justice. Members will appreciate, therefore, that the Order has required comprehensive engagement with many Whitehall departments to provide them with assurances that the National Assembly will not have competence to impose duties in respect of non-devolved matters.

Mae ymddangosiad y Gorchymyn ger eich bron heddiw yn wahanol i'r drafft cyntaf a gyflwynwyd fwy na blwyddyn yn ôl. Fodd bynnag, mae maint y gwahaniaeth ymddangosiadol yn dwyllodrus, ac mae'r Gorchymyn yn dal yn eang ei gwmpas. Ei brif nod yw rhoi i'r Cynulliad y pwerau i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn ac unigolyn ifanc. Gallai hyn groesi meysydd nad ydynt wedi cael eu datganoli, ac mae'n golygu bod rhaid wrth gydweithrediad asiantaethau fel yr heddlu ac eraill sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuencid. Bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi, felly, fod y Gorchymyn wedi golygu ymwneud cynhwysfawr â llawer o adrannau Whitehall er mwyn rhoi sicrwydd iddynt na fydd gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd i orfodi dyletswyddau mewn perthynas â materion nad ydynt wedi cael eu datganoli.

The process of scrutiny has been rigorous, and I have been struck by the enthusiasm and receptiveness of people across Wales and England in supporting the aims of the Order, particularly the significant advantages that consolidating the law will bring, and the early actions that we propose to take through Measure powers to deliver Wales-specific policies that reflect Welsh solutions. The Order has also been commended on the innovative way in which it will enable us to deliver Welsh solutions to problems, such as the intelligent way in which it allows us to deliver additional sums into the child trust funds of children in Wales.

I welcome and commend the Assembly committee and the Welsh Affairs Select Committee's comprehensive examination of the Order and their reports and recommendations, which have been given thoughtful consideration. The Order before the Assembly today reflects the outcomes of that consideration and, as a result, refinements have been made to the Order and the supporting explanatory memorandum to bring greater clarity on the points raised by the respective committees. The main effect has been to define more precisely in the Order those matters in which the National Assembly for Wales will have enhanced competence, to clarify their application as far as non-devolved bodies are concerned, and to place a stronger focus on the functions of public authorities in Wales in respect of their duties to safeguard the wellbeing of children and young people.

Other changes aim to provide a clearer interpretation of definitions and to extend competence beyond social welfare to include the areas of education, training, recreation and sport. That recognises the important interplay that these issues have on the wellbeing of children and young people. The inclusion of matters under these other fields in the Government of Wales Act 2006 will ensure that our current and future anti-poverty programmes, such as Flying Start and Cymorth, are included and allow greater flexibility in the development of future Measures.

Bu'r broses graffu yn un fanwl, ac fe'm trawyd gan frwdfrydedd ac eangfrydedd pobl ar draws Cymru a Lloegr wrth gefnogi amcanion y Gorchymyn, yn enwedig y manteision sylweddol a ddaw yn sgil cyfnerthu'r gyfraith, a'r camau cynnar y ydym yn bwriadu eu cymryd drwy bwerau Mesur i ddarparu polisiau penodol i Gymru sy'n adlewyrchu atebion Cymreig. Mae'r Gorchymyn wedi cael ei ganmol hefyd am y ffordd arloesol y bydd yn ein galluogi i ddarparu atebion Cymreig i broblemau, megis y ffordd ddeallus y mae'n caniatáu inni roi symiau ychwanegol yng nghronfeydd ymddiriedolaeth plant yng Nghymru.

Yr wyf yn croesawu ac yn cymeradwyo archwiliad cynhwysfawr pwyllgor y Cynulliad a'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o'r Gorchymyn a'u hadroddiadau a'u hargymhellion, y rhoddwyd ystyriaeth ofalus iddynt. Mae'r Gorchymyn gerbron y Cynulliad heddiw yn adlewyrchu canlyniadau'r ystyriaeth honno ac, o ganlyniad, mae'r Gorchymyn a'r memorandum esboniadol ategol wedi cael eu mireinio i roi mwy o eglurder yng nghyswllt y pwyntiau a godwyd gan y gwahanol bwyllgorau. Y brif effaith fu diffinio'n fanylach yn y Gorchymyn y materion hynny y bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd ychwanegol ynddynt, egluro sut y cânt eu cymhwysu yng nghyd-destun cyrff nad ydynt wedi cael eu datganoli, a rhoi ffocws cryfach ar swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o safbwynt eu dyletswyddau i ddiogelu lles plant a phobl ifanc.

Mae newidiadau eraill yn ceisio darparu dehongliad cliriach o ddiffiniadau ac ymestyn cymhwysedd y tu hwnt i les cymdeithasol i gynnwys meysydd addysg, hyfforddiant, adloniant a chwaraeon. Mae hynny'n cydnabod y cydadwaith pwysig a gaiff y materion hyn ar les plant a phobl ifanc. Bydd cynnwys materion o dan y meysydd eraill hyn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sicrhau bod ein rhaglenni gwrth-dlodi cyfredol a rhaglenni i'r dyfodol, megis Dechrau'n Deg a Cymorth, yn cael eu cynnwys ac y byddant yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddatblygu Mesurau yn y dyfodol.

A key feature that has been consistently discussed throughout the pre-scrutiny of the Order is whether it would provide scope to bring forward a Measure to ban the physical punishment of children living in Wales. I am pleased to see that there continues to be majority cross-party support for the policy position in Wales that the corporal punishment of children is unacceptable in all settings, including the home. Members will be aware that a lot of work is being done in Wales to mitigate this situation through the promotion of positive parenting.

Mae llawer o bwyntiau eraill wedi'u gwneud, a gwn nad oes gennym amser, mae'n debyg, i'w trafod i gyd. Fodd bynnag, mae'r awgrym bod y pŵer gennym i ymyrryd mewn achosion cyfreithiol sydd gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys neu gynorthwyo gydag achosion o'r fath, yn beth rhagorol. Byddai'r comisiynydd plant hefyd yn hoffi gweld y bandiau oedran yn cyfateb â'r rheini yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, oherwydd ar hyn o bryd, nid yw cylch gorchwyl y comisiynydd plant ond yn ymwneud â phobl sy'n gadael gofal hyd at 25 oed, ac nid yw'n ymestyn i bob person ifanc. Mae hynny'n fater pwysig, a gallaf weld bod y Dirprwy Weinidog yn gwrando ar y pwynt hwnnw.

Will the Assembly Government ensure that the LCO is used correctly and effectively to update the children's commissioner's powers, so that Wales stays at the forefront of providing the best possible services for children? That is absolutely essential. I also believe that the Assembly Government must ensure that it puts enough funding into the current initiatives. Just the other day, at an event hosted by a worthy organisation called Family and Friends in Wrexham, a lecturer from Keele University made some pertinent points on this issue, and suggested that we need to integrate the many initiatives out there, and ensure that funding is available for them.

I believe that the Welsh Affairs Select Committee raised the question of the formal definition of whistleblowing in the Order, saying that the children's commissioner had mentioned complaints about not safeguarding the rights of children. The report questioned the fact that whistleblowing is not referred to in the revised Order. In a memorandum to the Assembly committee, the commissioner stated that it was vital that that function be retained.

Finally, the Welsh Affairs Select Committee recommends that the Order should do nothing to weaken the existing powers of the children's commissioner in relation to whistleblowing. It is a very important point.

Ann Jones: I put on record my thanks to Karen and the committee for the way in which the legislative competence Order has been produced. It contains some very good things, and will help to safeguard vulnerable children. Unfortunately, there was a decision today by Denbighshire County Council to close its 52-week residential centre at Hyfrydle. This LCO has come too late for children there. The council's decision was taken in the light of what I believe to be untested evidence, and I hope that any Measure arising from this LCO will look at the information that local authorities use in making their plans for children—and for vulnerable children in particular—so that we

A wnaiff Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn effeithiol i ddiweddarau pwerau'r comisiynydd plant, er mwyn i Gymru aros ar flaen y gad o ran darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer plant? Mae hynny'n gwbl hanfodol. Credaf hefyd ei bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau ei bod yn bwydo digon o arian i'r cynlluniau sydd gennym eisoes. Dim ond y diwrnod o'r blaen, mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan fudiad clodwiw o'r enw Teulu a Ffrindiau yn Wrecsam, gwnaeth darlithydd o Brifysgol Keele ychydig o bwyntiau perthnasol am y mater, gan awgrymu bod angen inni integreiddio'r llw o gynlluniau sydd ar waith, a sicrhau bod arian ar gael ar eu cyfer.

Credaf i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig holi ynglŷn â diffiniad ffurfiol chwythu'r chwiban yn y Gorchymyn, gan ddweud bod y comisiynydd plant wedi crybwyll cwynion ynglŷn â pheidio â diogelu hawliau plant. Yr oedd yr adroddiad yn cwestiynu'r ffaith nad oes cyfeiriad at chwythu'r chwiban yn y Gorchymyn diwygiedig. Mewn memorandwm i bwyllgor y Cynulliad, dywedodd y comisiynydd ei bod yn hanfodol cadw'r swyddogaeth honno.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn argymhell na ddylai'r Gorchymyn wneud dim i wanhau'r pwerau sydd gan y comisiynydd plant ar hyn o bryd o ran chwythu'r chwiban. Mae'n bwynt pwysig iawn.

Ann Jones: Cofnodaf fy niolch i Karen ac i'r pwyllgor am y ffordd y mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i lunio. Mae'n cynnwys nifer o bethau da iawn, a bydd yn gymorth i ddiogelu plant agored i niwed. Yn anffodus, heddiw, penderfynodd Cyngor Sir Ddinbych gau ei ganolfan breswyl 52-wythnos yn Hyfrydle. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn wedi dod yn rhy hwyr i'r plant yno. Gwnaeth y cyngor ei benderfyniad yng ngoleuni'r hyn sydd, yn fy marn i, yn dystiolaeth sydd heb ei phrofi, a gobeithiaf y bydd unrhyw Fesur sy'n codi o'r Gorchymyn hwn yn edrych ar y wybodaeth a ddefnyddia awdurdodau lleol wrth lunio'u cynlluniau ar

can stop decisions such as this.

It was a split decision, and I am sorry to say that there are Members opposite on the Tory benches who have colleagues in that council cabinet who, disgracefully, voted to close the centre. It has only been open six months. I would like to see a Measure come through whereby, when the Assembly Government has—

The Deputy Presiding Officer: Will you take an intervention?

Ann Jones: Yes.

Mark Isherwood: I endorse your comments, and I confirm that I called on the Conservative members of that cabinet to do otherwise.

Ann Jones: I am glad that you did so. However, you need to go back to them and ask why they have done this on the basis of information that I believe is incorrect.

Turning back to the Order, how we will address some of the issues that I have just raised about Hyfrydle—for vulnerable children, and children on the autistic spectrum? How will we ensure that parents can look forward to a safe environment for their children? Parents of vulnerable children do not take the decision to place them in a residential home lightly. It is not an easy decision to put your child into residential care, and they should be supported, not thwarted like the parents in Denbighshire.

My other point is on child-proofing. I would like to see more Measures child-proofed in relation to child poverty, but also in relation to their impact on children more generally. We must look at where we are taking our young people, and how we deal with them. We need not demonise young people all the time, and I hope that that will be reflected in the Measures arising from this Order. I place on record my thanks to the Deputy Minister for the way that she has taken this forward.

gyfer plant—ac ar gyfer plant agored i niwed yn enwedig—er mwyn inni allu atal penderfyniadau fel hyn.

Yr oedd y farn wedi'i holli, ac mae'n ddrwg gennyf ddweud bod Aelodau gyferbyn ar feinciau'r Torïaid y mae ganddynt gyfeillion yng nghabinet y cyngor hwnnw, a bleidleisiodd, rhag eu cywilydd, o blaid cau'r ganolfan. Dim ond ers chwe mis y mae ar agor. Hoffwn weld Mesur yn dod drwodd, pan fydd gan Lywodraeth y Cynulliad—

Y Dirprwy Lywydd: A wnewch dderbyn ymyriad?

Ann Jones: Gwnaf.

Mark Isherwood: Atefaff eich sylwadau, a gallaf gadarnhau imi alw ar aelodau Ceidwadol y cabinet hwnnw i wneud fel arall.

Ann Jones: Yr wyf yn falch ichi wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen ichi fynd yn ôl atynt a gofyn pam eu bod wedi gwneud hyn ar sail gwybodaeth sydd, mi gredaf, yn anghywir.

A dychwelyd at y Gorchymyn, sut yr awn i'r afael â rhai o'r materion yr wyf newydd eu codi am Hyfrydle—ar gyfer plant agored i niwed, a phlant ar y sbectwm awtistig? Sut y byddwn yn sicrhau y gall rhieni edrych ymlaen at amgylchedd diogel ar gyfer eu plant? Nid ar chwarae bach y bydd rhieni plant agored i niwed yn penderfynu eu rhoi mewn cartref preswyl. Nid penderfyniad rhwydd yw rhoi eich plentyn mewn gofal preswyl, a dylid eu cefnogi, nid gwneud pethau'n anos iddynt fel sydd wedi digwydd i rieni Sir Ddinbych.

Mae a wnelo fy mhwynt arall ag ystyried yr effaith ar blant. Hoffwn weld yr effaith ar dlodi plant yn cael ei hystyried mewn rhagor o Fesurau, ond hefyd bod eu heffaith ar blant yn cael ei hystyried yn fwy cyffredinol. Rhaid inni ystyried i ble'r ydym yn mynd â'n pobl ifanc, a sut yr ydym yn ymdrin â hwy. Nid oes angen inni wneud pobl ifanc yn esgymun o hyd, a gobeithio yr adlewyrchir hynny yn y Mesurau a fydd yn codi o'r Gorchymyn hwn. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Dirprwy Weinidog am y ffordd y mae

wedi bwrw ymlaen â hyn.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I am very grateful to Members for their considered and helpful contributions this afternoon. Kirsty made a positive point about the issue of the consolidation of the law. I am grateful to you for that, Kirsty. Ann Jones mentioned the issue in Denbighshire, which we heard about earlier this afternoon. I am not going to comment specifically on that issue now, but we do share the concerns expressed. The point that was made about demonising children is very important. I meet children and young people throughout Wales and a common theme that is brought to me is that they do not want to be demonised and they do not feel that they deserve to be. I think that a strong message to the press and the media, from the Chamber this afternoon, is very appropriate.

Lesley, David, Kirsty, Nerys and Eleanor all mentioned the scrutiny process. I assure Members that the Order before you today has been improved as a result of the changes and it continues to provide a broad scope to allow us to achieve our aims. The process of developing legislative competence Orders is a new one and there is no precedent for this kind of Order. As has already been said, it is a learning process for all concerned. We have ensured that the whole process concerning this Order has been transparent. When the LCO was amended, I wrote to AMs and the Proposed Vulnerable Children LCO Committee, as Lesley has said, to explain the changes made to the LCO. Although the LCO committee did not choose to comment at that stage, it was given an opportunity to do so when the Business Committee referred the revised LCO back to the committee for further consideration. However, the Business Committee has since determined that, as a general principle, further committee scrutiny is not necessary in cases where the version of the LCO presented to Parliament is different from that introduced in the Assembly, since the Assembly will have an opportunity to consider the final draft LCO in Plenary. In future, it will be for the Presiding Officer to determine whether or not an LCO has undergone significant changes and would

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelodau am eu cyfraniadau meddylgar a buddiol y prynhawn yma. Gwnaeth Kirsty bwynt cadarnhaol ynglŷn ag atgyfnerthu'r gyfraith. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am hynny, Kirsty. Crybwyllodd Ann Jones y broblem yn Sir Ddinbych, y clywsom amdani'n gynharach y prynhawn yma. Nid wyf am sôn yn benodol am hynny yn awr, ond yr ydym yn cytuno â'r pryderon a fynegwyd. Mae'r pwynt a wnaethpwyd am wneud plant yn esgy mun plant yn bwysig iawn. Byddaf yn cyfarfod â phlant a phobl ifanc ledled Cymru ac un thema gyffredin a godir gyda mi yw nad yw nad ydynt am gael eu gwneud yn esgy mun a'u bod yn teimlo nad ydynt yn haeddu hynny. Credaf ei bod yn briodol iawn anfon neges gref i'r wasg ac i'r cyfryngau, o'r Siambr y prynhawn yma.

Soniodd Lesley, David, Kirsty, Nerys ac Eleanor i gyd am y broses craffu. Gallaf sicrhau'r Aelodau bod y Gorchymyn sydd ger eich bron heddiw wedi'i wella yn sgil y newidiadau a'i fod yn dal i gynnig cwm pas eang a fydd yn caniatáu inni wireddu'n hamcanion. Proses newydd yw'r broses datblygu Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol ac nid oes cynsail ar gyfer y math hwn o Orchymyn. Fel y dywedwyd eisoes, proses dysgu yw hon i bawb sy'n ymwneud â hi. Yr ydym wedi sicrhau bod y broses drwyddi draw yng nghyswllt y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn wedi bod yn dryloyw. Pan ddiwygiwyd y Gorchymyn, ysgrifennais at ACau ac at Bwyllgor y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer Plant agored i Niwed, fel y mae Lesley wedi'i ddweud, i esbonio'r newidiadau i'r Gorchymyn. Er nad oedd pwyllgor y Gorchymyn yn dewis cynnig sylwadau bryd hynny, rhoddwyd cyfle iddo wneud hynny pan gyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y gorchymyn diwygiedig yn ôl at y pwyllgor iddo'i ystyried eto. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu ers hynny, fel egwyddor gyffredinol, nad oes angen rhagor o graffu gan y pwyllgor lle bydd fersiwn y Gorchymyn a gyflwynir gerbron y Senedd yn wahanol i'r fersiwn a gyflwynir yn y Cynulliad, oherwydd y caiff y Cynulliad

warrant further legislative committee scrutiny.

On the issue of the UN convention, which was brought up by Lesley, the UN Convention on the Rights of the Child deals with a range of rights that apply to children and young people, not all of which come within the National Assembly's devolved competence—examples include situations when children may be accused, immigration, and the age at which children can be recruited to the armed forces. That was why there was no designated reference to the UN charter.

Lesley, you also mentioned whistleblowing. In matter 15.7, which relates to functions of the Children's Commissioner for Wales, the Order does cover review and monitoring arrangements for dealing with complaints and representations made by or on behalf of children and young persons. That would, of course, cover complaints made by employees who are whistleblowers. Whistleblowing arrangements are also an aspect of safeguarding children from harm and neglect and so come within matter 15.2. That, therefore, does cover whistleblowing. Lesley, David and Kirsty mentioned child poverty. To define child poverty in the LCO would have restricted the competence conferred by the LCO. If you would like more details on that, I will write to you on that issue, because I am very aware of the time.

On the issue of smacking, I am very disappointed that we got to the stage that we did. Nevertheless, our focus at this stage is on securing the powers that we need to tackle child poverty and consolidate and reform the law relating to vulnerable children. The proposed Order will enable us to achieve those objectives. The absence of a specific exception does not mean that the Welsh Assembly Government accepts that the Assembly could never acquire the power to legislate to ban the physical punishment of children. As far as we are concerned, the

gyfle i ystyried y Gorchymyn drafft terfynol yn y Cyfarfod Llawn. Yn y dyfodol, y Llywydd a fydd yn penderfynu a yw Gorchymyn wedi newid yn sylweddol ac a fyddai angen i'r pwyllgor deddfu graffu arno eto.

O ran mater confensiwn y CU, a godwyd gan Lesley, mae Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn ymdrin ag ystod o hawliau nad ydynt ond yn berthnasol i blant a phobl ifanc, ac nid yw'r rheini i gyd yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol. Enghreifftiau o hyn yw sefyllfaoedd pan gaiff plant eu cyhuddo efallai, mewnfudo ac ar ba oedran y ceir recriwtio plant i'r lluoedd arfog. Dyna pam nad oedd cyfeiriad penodol at siarter y CU.

Lesley, soniasoch hefyd am chwythu'r chwiban. Ym mater 15.7, sy'n ymwneud â swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru, mae'r Gorchymyn yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer adolygu a monitro er mwyn ymdrin â chwynion a wneir gan blant a phobl ifanc neu ar eu rhan. Byddai hynny, wrth gwrs, yn cynnwys cwynion a wneir gan weithwyr sy'n chwythu'r chwiban. Mae trefniadau chwythu'r chwiban hefyd yn agwedd ar ddiogelu plant rhag niwed ac esgeulustod ac felly'n dod o fewn mater 15.2. Felly, mae hynny'n cynnwys chwythu'r chwiban, Lesley. Crybwyllodd David a Kirsty dlodi plant. Petaem wedi diffinio tlodi plant yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, byddai hynny wedi cyfyngu ar y cymhwysedd a roddid drwy'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol. Os hoffech gael rhagor o fanylion am hynny, ysgrifennaf atoch yn ei gylch, oherwydd yr wyf yn ymwybodol iawn o'r amser.

O ran taro plant, yr wyf yn siomedig iawn ein bod wedi cyrraedd y fan lle y gwnaethom. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, yr ydym yn canolbwyntio ar sicrhau'r pwerau y mae eu hangen arnom i fynd i'r afael â thlodi plant ac i atgyfnerthu a diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â phlant agored i niwed. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn ein galluogi i wireddu'r amcanion hynny. Nid yw'r diffyg eithriad penodol yn golygu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn na allai'r Cynulliad byth gael y pŵer i ddeddfu er mwyn gwahardd cosbi plant yn gorfforol.

matter is left for another day. As I have already said to the Assembly committee, given the views expressed on many sides of the Assembly that the Assembly should be able to legislate on this issue, I have no reason, at this stage, to rule it out expressly.

5.10 p.m.

On the issue of the children's commissioner, and to refer, David and Eleanor, to the question of accountability, to clarify the current position on accountability, as I see it, the commissioner is not accountable to the Welsh Assembly Government—the Welsh Assembly Government and others are accountable to the commissioner for the impact of our actions on children. The Order does not build in any presumptions about who the children's commissioner should be accountable to. The determination of the functions, remit and accountability of the Children's Commissioner for Wales are matters for a future Measure.

I believe that I have covered most of the points raised, but I will check the record and attempt to do so if I have not. To conclude, I wish to pay tribute to the Assembly committee, and the Welsh Affairs Select Committee, for their comprehensive scrutiny, which has played an important role in shaping the Order that we have before us today. I also wish to add my personal thanks and best wishes to Karen. I also wish to express my thanks and gratitude to all the organisations and individuals who have contributed to the process with great enthusiasm, and with the positive aim of improving lives for children and young people in Wales, to ensure that the Order can provide sufficient scope to allow us to respond to those expectations.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

O'n safbwynt ni, mae'r mater wedi'i adael tan ddiwrnod arall. Fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud wrth bwyllgor y Cynulliad, ac ystyried y farn a fynegwyd ar lawer ochr o'r Cynulliad y dylai'r Cynulliad allu deddfu ar y mater hwn, nid oes gennyf ddim rheswm, ar hyn o bryd, i'w ddiystyru'n benodol.

O ran mater y comisiynydd plant, gan gyfeirio, David ac Eleanor, at fater atebolrwydd, er mwyn egluro'r sefyllfa bresennol ynglŷn ag atebolrwydd fel y'i gwelaf, nid yw'r comisiynydd yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru—mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yn atebol i'r comisiynydd am effaith ein gweithredoedd ar blant. Nid yw'r Gorchymyn yn cynnwys unrhyw ragdybiaethau ynglŷn ag i bwy y dylai'r comisiynydd plant fod yn atebol. Materion ar gyfer Mesur yn y dyfodol fydd penderfynu ynglŷn â swyddogaethau, cylch gorchwyl ac atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru.

Credaf imi ymdrin â'r rhan fwyaf o'r pwyntiau a godwyd, ond edrychaf ar y cofnod a cheisio gwneud hynny os nad ydwyf. I gloi, dymunaf roi teyrnged i bwyllgor y Cynulliad, ac i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, am eu gwaith craffu cynhwysfawr, sydd wedi chwarae rhan bwysig wrth lunio'r Gorchymyn sydd gennym ger ein bron heddiw. Dymunaf hefyd ychwanegu fy niolch personol a'm dymuniadau gorau i Karen. Yr wyf hefyd am fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad i bob sefydliad ac unigolyn sydd wedi cyfrannu mor frwd at y broses, a gyda'r nod cadarnhaol o wella bywydau plant a phobl ifanc Cymru, er mwyn sicrhau bod modd i'r Gorchymyn gynnig digon o gwmpas inni allu ymateb i'r disgwyliadau hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, derbynnir y cynnig.

Cymeradwyo Cyllideb Atodol Approval of a Supplementary Budget

The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies): I propose that

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 27.21, approves the supplementary budget for the financial year 2007-08 laid in the Table Office by the Minister for Finance and Public Service Delivery on Tuesday, 24 June 2008. (NDM3976)

This motion is the third supplementary budget for the financial year 2007-08. This is a technical budgetary exercise, which makes two changes to the supplementary budget approved by the Assembly on 11 March. Given the time, I will not go into any great detail, but the first point refers to the merger of the central administration and other ministerial services budgets, or ambits, retrospectively for 2007-08. The experience of the first year of operation under the Government of Wales Act 2006 has led us to conclude that the inclusion of a number of small ambits has not helped the effective management of Assembly Government resources, which is why we propose to merge those two ambits.

The second point refers to a small adjustment in the text of the children, education, lifelong learning and skills income ambit. The adjustment explicitly covers income in respect of student loans, and brings the text into alignment with that included in the 2008-09 final budget, approved by the Assembly on 22 January.

I wish to respond to the key points that the Finance Committee made in its report on this supplementary budget. I very much welcome the committee's report, and I am pleased to note that it is content for the other ministerial services and central administration ambits to be merged. It concludes that the Assembly should agree to the supplementary budget motion. The report asks for more information about the overspend on the E.coli inquiry; I

Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies): Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 27.21, yn cymeradwyo'r gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-08, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ddydd Mawrth, 24 Mehefin 2008. (NDM3976)

Y cynnig hwn yw'r drydedd gyllideb atodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-08. Ymarfer cyllidebu technegol yw hwn, sy'n newid y gyllideb atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 11 Mawrth mewn dwy ffordd. A chofio faint o'r gloch yw hi, nid wyf yn bwriadu manylu'n fawr, ond mae'r pwynt cyntaf yn cyfeirio at uno cyllideb neu gwmpas y weinyddiaeth ganolog a chyllideb neu gwmpas y gwasanaethau gweinidogol eraill, yn ôl-weithredol ar gyfer 2007-08. Yn sgil ein profiad ym mlwyddyn gyntaf ein gweithredu dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yr ydym yn casglu nad yw cynnwys nifer o gwmpasau bychain wedi bod o gymorth i reoli adnoddau Llywodraeth y Cynulliad yn effeithiol, a dyna pam y bwriadwn gyfuno'r ddau gwmpas hyn.

Mae'r ail bwynt yn cyfeirio at addasiad bychan yn nhestun y cwmpas ar gyfer incwm plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Mae'r addasiad yn ymwneud yn benodol ag incwm ar gyfer benthyciadau myfyrwyr, ac mae'n cysoni'r testun â'r testun a oedd yng nghyllideb derfynol 2008-09, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 22 Ionawr.

Dymunaf ymateb i'r pwyntiau allweddol a wnaeth y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad am y gyllideb atodol hon. Croesawaf adroddiad y pwyllgor yn fawr iawn ac yr wyf yn falch o nodi ei fod yn fodlon i gwmpas y gwasanaethau gweinidogol eraill a chwmpas y weinyddiaeth ganolog gael eu huno. Mae'n casglu y dylai'r Cynulliad dderbyn y cynnig ynglŷn â'r gyllideb atodol. Mae'r adroddiad yn gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r

will be more than happy to provide this in writing as part of my formal response to the committee's report.

The report also asks that the Government seeks the committee's views before making any further changes of this nature in the future; again, I am happy to commit to doing so. Finally, the Finance Committee report indicates that it would not normally expect a supplementary budget to be tabled after the year end; I agree, and I would not anticipate such supplementary budgets in future years. However, I note that, in this case, the Finance Committee has concluded that it is content to recommend that the Assembly agree to the supplementary budget motion.

Angela Burns: The Finance Committee was a little concerned to receive this supplementary budget motion, which seeks, as the Minister has explained, to authorise expenditure after the year to which it relates. In many ways, the specific issues here are not major, and the Finance Committee, as the Minister has already stated, has no difficulty with the proposals to remedy the Government's overspend, or the merging of the other ministerial services ambit and the central administration ambit. In the circumstances, this seems sensible.

However, this raises more fundamental questions. The Finance Committee notes that the latest supplementary budget motion would not have been necessary had the March supplementary budget motion not reduced the authorised amount of resources for other ministerial services. It has therefore had to conclude that the Government was unaware of the total level of E. coli expenditure for 2007-08 until just before, or possibly even after, the end of the inquiry. Therefore, the committee has asked to be told the reasons for the overspend and why it was not discovered until late in the day.

We do not object in principle to merging the two smaller ambits, and we are content for this to be done. However, it is disappointing

gorwario ar yr ymchwiliad E.coli. Byddaf yn fwy na bodlon darparu'r wybodaeth hon ar ffurf ysgrifenedig fel rhan o'm hymateb ffurfiol i adroddiad y pwyllgor.

Mae'r adroddiad yn gofyn hefyd ar i'r Llywodraeth geisio barn y pwyllgor cyn newid dim arall o'r natur hwn yn y dyfodol; unwaith eto, yr wyf yn fodlon ymrwymo i wneud hynny. Yn olaf, mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn awgrymu na fyddai fel arfer yn disgwyl gweld cyllideb atodol yn cael ei gyflwyno ar ôl diwedd y flwyddyn; Cytunaf, ac ni fyddwn yn rhagweld cyllidebau atodol o'r fath yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodaf, yn yr achos hwn, fod y Pwyllgor Cyllid wedi casglu ei fod yn fodlon argymhell bod y Cynulliad yn cytuno i'r cynnig ynglŷn â'r gyllideb atodol.

Angela Burns: Yr oedd y Pwyllgor Cyllid yn bryderus braidd o dderbyn y cynnig hwn ynglŷn â'r gyllideb atodol, sy'n ceisio, fel y mae'r Gweinidog wedi esbonio, awdurdodi gwariant ar ôl y flwyddyn y mae'n berthnasol iddo. Mewn llawer ffordd, nid yw'r materion penodol sydd dan sylw yma'n rhai pwysig, ac nid oes gan y Pwyllgor Cyllid, fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud eisoes, anhawster gyda'r cynnig i wneud iawn am orwario'r Llywodraeth, na'r cynnig i gyfuno cwmpas y gwasanaethau gweinidogol eraill a chwmpas y weinyddiaeth ganolog. Dan yr amgylchiadau, mae hyn i bob golwg yn synhwyrol.

Fodd bynnag, mae hyn yn codi cwestiynau mwy sylfaenol. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi na fuasai angen y cynnig diweddaraf ar gyfer cyllideb atodol oni bai fod y cynnig ar gyfer cyllideb atodol ym mis Mawrth wedi lleihau'r swm o adnoddau a awdurdodwyd ar gyfer y gwasanaethau gweinidogol eraill. Felly, bu'n rhaid iddo gasglu nad oedd y Llywodraeth yn ymwybodol o gyfanswm y gwariant ar E. coli ar gyfer 2007-08 tan ychydig cyn, neu o bosibl ychydig ar ôl, diwedd yr ymchwiliad. Felly, mae'r pwyllgor wedi gofyn am y rhesymau dros y gorwariant a pham na chanfuwyd hynny tan yn hwyr yn y dydd.

Ni wrthwynebwn uno dau faes llai mewn egwyddor, ac yr ydym yn fodlon i hyn gael ei wneud. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod yn

that it has been done as a consequence of an overspend, and the committee is concerned that this does not signal a general approach to reducing transparency in the budget-setting process.

There is also a principle that the Government should seek authorisation from the Assembly for the use of resources. This is an important control, which should not be undermined, and the accounting officers have a duty to operate within the resource limits that have been authorised by the Assembly. Therefore, we are not normally content for a supplementary budget motion to be tabled after the year end, particularly when its sole purpose is to give retrospective authorisation to excessive expenditure, or to simply tidy-up before the accounts are audited.

At the end of the day, we are considering this motion because of poor financial management, on which, in other cases, the Assembly might have sought a report from the auditor general and a view from the Audit Committee before retrospectively authorising the amounts involved. Nonetheless, as we have already indicated to the Minister, given the nature and the small amount of the overspend, the Finance Committee is content to recommend that the Assembly agrees the supplementary budget motion.

As a Member I would like to say that today's debate illustrates the importance of having a Finance Committee to ensure that such issues are identified and properly scrutinised before being approved by the Assembly.

Nick Bourne: I thank the Minister for what he said, but I will pull him up on one or two points. He did not represent the whole truth when he suggested that we were having this supplementary budget debate to just merge ambits because they were small; the reason that we are looking at this is because there has been an overspend on one of those ambits. We are being asked to give retrospective authorisation—which he did not mention—to that overspend by merging two ambits.

The Chair is quite right that concerns were expressed in the Finance Committee and, although it is a relatively small amount, there

rhaid iddo gael ei wneud o ganlyniad i orwariant, ac mae'r pwyllgor yn awyddus i sicrhau nad yw hyn yn arwydd cyffredinol o leihau tryloywder y broses pennu cyllidebau.

Yn ogystal mae egwyddor y dylai'r Llywodraeth ofyn am awdurdod gan y Cynulliad i ddefnyddio adnoddau. Mae hyn yn rheolaeth bwysig, na ddylid ei thanseilio, ac mae dyletswydd ar swyddogion cyfrifyddu i weithredu o fewn y cyfyngiadau adnoddau a awdurdodwyd gan y Cynulliad, Felly, nid ydym fel arfer yn fodlon i gynnig ynghylch cyllideb atodol gael ei gyflwyno ar ôl diwedd y flwyddyn, yn arbennig os rhoi awdurdod ôl-weithredol ar gyfer gwariant gormodol yw ei unig bwrpas, neu i dacluso pethau cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

Yn y pen draw, yr ydym yn ystyried y cynnig hwn oherwydd rheolaeth ariannol wael, lle y byddai'r Cynulliad, mewn achosion eraill, wedi gofyn am adroddiad gan yr archwilydd cyffredinol ac wedi gofyn barn y Pwyllgor Archwilio cyn awdurdodi'r symiau dan sylw yn ôl-weithredol. Serch hynny, fel yr ydym eisoes wedi dweud wrth y Gweinidog, o gofio natur y gwariant ar swm bach, mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon argymhell bod y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig ynghylch cyllideb atodol.

Fel Aelod hoffwn ddweud fod y ddadl hon heddiw'n dangos pwysigrwydd cael Pwyllgor Cyllid i sicrhau y caiff materion o'r fath eu nodi ac y creffir arnynt yn briodol cyn cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Gweinidog am yr hyn a ddywedodd, ond codaf un neu ddau o bwyntiau gydag ef. Ni ddywedodd yr holl wir pan awgrymodd ein bod yn cael y ddadl hon ynghylch cyllideb atodol dim ond er mwyn uno meysydd gan eu bod yn fach; y rheswm yr ydym yn edrych ar hyn yw oherwydd gorwariant yn un o'r meysydd hynny. Gofynnir inni awdurdodi'r gorwariant hwnnw yn ôl-weithredol—na soniodd amdano—drwy uno dau faes.

Mae'r Cadeirydd yn gywir i ddweud y mynegwyd pryderon yn y Pwyllgor Cyllid ac, er mai swm cymharol fach ydyw, dylai'r

is an issue that it should have been picked up during the year that it was heading for an overspend, so that this supplementary budget would not have been necessary. I appreciate the point that this question could perhaps be answered separately, because there may be a lengthy explanation, but we need to ask why this overspend was not picked up during the course of the year. Although it is not a massive overspend in absolute or relative terms, it is considerable.

So, subject to that, we are content to accept the finding that this is not a massive amount and we will support the motion, but it raises more fundamental issues. As the Chair correctly said, in merging these ambits we must be aware that we are making the budget less transparent than it would be if they were small ambits, and that is something that, in general terms, we should guard against as an Assembly.

Jenny Randerson: This report is a shot across the bows for the Minister. The Finance Committee has been gentle this time, but the warning is that we will not be gentle in the future. We believe that rigour should be built into the system, should this type of muddle and confusion happen again.

The muddle is that, in March, the supplementary budget reduced the budget heading that the Minister is now seeking to increase by moving money into it. So, in March, we reduced that budget heading by £700,000—or we approved that recommendation from the Welsh Assembly Government—and now there is an overspend of £400,000. I am pleased that the Minister will write to us to explain why the E. coli inquiry overspent by that amount of money and why it was evidently such a surprise. It would have been helpful if he had been able to explain that to us today, and I would invite him to address that issue in the Chamber, so that we can understand immediately the key issues behind it.

5.20 p.m.

That aside, there is also the issue of retrospective action, which is never good accounting practice. I think that we have

gorwariant fod wedi cael ei ragweld yn ystod y flwyddyn, gan osgoi'r angen am y gyllideb atodol hon. Gwerthfawrogaf y pwynt y gellid ateb y cwestiwn hwn ar wahân o bosibl, oherwydd efallai fod esboniad hirfaith, ond mae angen inni ofyn pam na ragwelwyd y gorwariant hwn yn ystod y flwyddyn. Er nad yw'n orwariant enfawr yn nhermau absoliwt neu gymharol, mae'n sylweddol.

Felly, yn amodol ar hynny, yr ydym yn fodlon derbyn y canfyddiad nad yw hwn yn swm enfawr a chefnogwyr y cynnig, ond mae'n codi materion mwy sylfaenol. Fel y dywedodd y Cadeirydd, a hynny'n gywir, wrth uno'r meysydd hyn rhaid inni fod yn ymwybodol ein bod yn gwneud y gyllideb yn llai tryloyw nag y byddai pe byddent yn feysydd bach, ac mae hynny, yn gyffredinol, yn rhywbeth y dylem fod yn wylidwrus ohono fel Cynulliad.

Jenny Randerson: Mae'r adroddiad hwn yn rhybudd i'r Gweinidog. Bu'r Pwyllgor Archwilio yn garedig y tro hwn, ond y rhybudd yw na fyddwn yn garedig yn y dyfodol. Credwn y dylid cynnwys trylwyredd yn y system, rhag i'r math hwn o gymysgedd a dryswch ddigwydd eto

Y gymysgedd yw, i'r gyllideb atodol, fis Mawrth, leihau'r gyllideb y mae'r Gweinidog bellach yn ceisio ei chynyddu drwy symud arian iddi. Felly, fis Mawrth, gostyngwyd y gyllideb honno £700,000—neu cymeradwyasom yr argymhelliad hwnnw gan Lywodraeth y Cynulliad—ac yn awr mae gorwariant o £400,000. Yr wyf yn falch y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu atom i esbonio pam y gorwariwyd y swm hwnnw gan yr ymchwiliad E. coli a pham yr oedd yn amlwg yn gymaint o syndod. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol petai wedi gallu esbonio hynny inni heddiw, a byddwn yn ei wahodd i fynd i'r afael â hynny yn y Siambr, er mwyn inni allu deall ar unwaith y prif faterion y tu ôl iddo.

Gan roi hynny o'r neilltu, ceir hefyd y cam ôl-weithredol, nad yw byth yn arfer cyfrifyddu da. Credaf inni ei gwneud yn glir

made it clear that we would not be content for this to happen again. The amounts of money are small this time, which is probably why we have been gentle on the Minister, but, in future, there must be more effective and stringent accounting practices if the Assembly is to be confident that money is being spent effectively and efficiently.

The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies): I am grateful to Jenny for being gentle with me. [*Laughter.*] I have not noticed any difference in the tone in which she addresses me, whether it is gentle or not.

I have been clear about why we are requesting a supplementary budget. I am sorry that I did not go into any detail, but it was suggested that it would be a brief debate. As I have said, I have already committed to writing to Members as a formal part of responding to the committee's report. One of the reasons for the supplementary budget was the overspend on the E. coli inquiry, which was due to many manual creditor claims being received after the inquiry came to an end. We accept that there are lessons to be learned in terms of accounting officer practice. In my discussions with the finance director, I have made clear that we need those lessons to be learned and that this is not acceptable. I do not want to repeat this exercise in the future, asking for retrospective approval by the Assembly. As I have said, I will put this in my full report to the Chair of the committee, and I will also circulate it so that all Members, whether they are members of the committee or not, are aware of the reasons behind this decision.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

na fyddem yn fodlon i hyn ddigwydd eto. Mae'r symiau'n fach y tro hwn, ac mae'n debyg mai dyma pam y buom yn garedig wrth y Gweinidog, ond, yn y dyfodol, rhaid cael arferion cyfrifyddu mwy effeithiol a llym os yw'r Cynulliad am fod yn hyderus bod arian yn cael ei wario'n effeithiol ac yn effeithlon.

Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies): Yr wyf yn ddiolchgar i Jenny am fod yn garedig wrthyf. [*Chwerthin.*] Nid wyf wedi sylwi ar wahaniaeth yn y ffordd y mae'n fy nghyfarch, p'un a yw'n garedig ai peidio.

Yr wyf wedi bod yn glir ynghylch pam y gofynnwn am gyllideb atodol. Mae'n ddrwg gennyf na fanylais, ond awgrymwyd y byddai'n ddadl fer. Fel y dywedais, yr wyf eisoes wedi addo ysgrifennu at yr Aelodau fel rhan ffurfiol o ymateb i adroddiad y pwyllgor. Un o'r rhesymau dros y gyllideb atodol oedd y gorwariant ar yr ymchwiliad E. coli, a ddeilliodd o nifer o hawliadau gan gredydwyr a ddaeth i law ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben. Derbyniwn fod gwersi i'w dysgu o ran arferion swyddog cyfrifyddu. Yn ystod fy nhrafodaethau â'r cyfarwyddwr cyllid, yr wyf wedi pwysleisio bod angen i'r gwersi hynny gael eu dysgu ac nad yw hyn yn dderbyniol. Nid wyf am ailadrodd yr ymarfer hwn yn y dyfodol, a gofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol gan y Cynulliad. Fel yr wyf wedi dweud, byddaf yn cynnwys hyn yn fy adroddiad llawn i Gadeirydd y pwyllgor, ac fe'i hanfonaf at yr holl Aelodau, p'un a ydynt yn aelodau o'r pwyllgor ai peidio, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwn.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.22 p.m.
The meeting ended at 5.22 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)